Abertawe ydy'r ail ddinas fwyaf yng Nghymru a'r bumed awdurdod mwyaf poblog o ran dwyster (649.2 person i bob cilomedr sgwâr) yn y wlad ar ôl Caerdydd, Casnewydd, Torfaen a Chaerffili. Abertawe ydy'r ganolfan fasnachol ranbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru.[9] Mae Abertawe yn cwmpasu oddeutu 379.7 cilomedr sgwâr, gyda 69.5% yn wledig a 30.5% yn drefol.

Mae oddeutu 21,400 hectar o dir y sir yn cael ei ffermio[10] ac mae'r ardal yn cynnwys 31 o ardaloedd cadwraeth, 122 o henebion a thros 500 o adeiladau rhestredig.[11]

Mae Abertawe'n ddinas Prifysgol, sy'n gartref i: Prifysgol Abertawe (Campws Singleton a'r Bae), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Coleg Gŵyr Abertawe sydd, rhyngddyn nhw'n cynnal oddeutu 26,000 o fyfyrwyr llawnamser (2018-19).[12]

Mae Abertawe'n gyrchfan i dwristiaid oherwydd ei llwybrau arfordirol, chwaraeon dŵr, traethau a'r bywyd nos. Amcangyfrifir fod ymron i 4.74 miliwn o bobl ymweld â Bae Abertawe yn 2019, gan wario £461.48 miliwn.[13]

Mae 69.7% o boblogaeth Abertawe yn drigolion o oed gweithio (16-64) sy'n economaidd weithgar. Mae hyn gyfystyr â 107,800 o bobl mewn cyflogaeth (y flwyddyn hyd at Fedi 2020).[14] Mae gan Abertawe 7,780 o fusnesau gweithredol (fel ar Fedi 2019) gyda 1,290 o fusnesau newydd wedi'u cofnodi.[15] Amcangyfrifir bod oddeutu 31,200 o bobl yn cymudo i mewn i Abertawe bob dydd i weithio (2019). Mae'r rhan fwyaf o'r gyflogaeth yn Abertawe yn y sectorau gwasanaethau (88.4%) neu'r sector gyhoeddus (28.2%).[16] 5,200 o bobl

[9] www.swansea.gov.uk/geography
[10] Arolwg Amaethyddol Blynyddol Cymru, Mehefin 2018, LlC
[11] www.swansea.gov.uk/urbandesignandconservation
[12] Ystadegau Addysg Uwch a Phellach 2018-19, LlC (cyhoeddwyd Ionawr a Chwefror 2020).
[13] Ystadegau Addysg Uwch a Phellach 2018-19, LlC (cyhoeddwyd Ionawr a Chwefror 2020).
[14] Amcangyfrifon APS ar gyfer cyfnod arolwg yn dod i ben Medi 2020, ONS
[15] Ystadegau demograffeg busnes 2019, ONS.
[16] a) Arolwg Cofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES) amcangyfrifon yn y gweithle 2019, ONS. b) Tablau cymudo 2019, cyhoeddwyd gan LC gan ddefnyddio amcangyfrifon APS

Abertawe (4.4% o'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar o 16 oed ymlaen) sy'n ddiwaith (cyfnod arolwg a ddaeth i ben ym Medi 2020).

Mae Castell-nedd Port Talbot yn un o ardaloedd awdurdod unedol Cymru. Y prif drefi ydy Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe. Castell-nedd ydy'r wythfed ardal awdurdod lleol mwyaf dwys ei phoblogaeth yng Nghymru a'r drydedd fwrdeistref sirol mwyaf dwys ei phoblogaeth.[17]

Castell-nedd Port Talbot welodd y gyfradd twf lleiaf gyda'r dwyster poblogaeth wedi cynyddu o ddim ond 2.5% rhwng 2008 a 2018.[18]

Mae 43% o dir Castell-nedd Port Talbot yn goetir gyda phlanigfeydd conifferaidd eang yn yr ardaloedd ucheldirol.[19] Mae'r arfordir o amgylch Port Talbot yn dir gwastad isel ar y cyfan. Mae gwead eang o dwyni tywod sylweddol yn ymestyn ar hyd sawl milltir o'r arfordir, gydag aberoedd afonydd ac ardaloedd o ddatblygiad yn torri ar y dirwedd.[20] Gwelir y patrymau cyfaneddu trwy hanes diwydiannol yr ardal, a ddynodir gan ddatblygiad trefol ar hyd gwastadeddau'r dyffrynnoedd a rhai rhannau o'r arfordir.

Mae 71.2% o boblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn drigolion o oed gweithio (16-64) sy'n economaidd weithgar. Mae hyn yn cyfateb i 63,500 o bobl mewn cyflogaeth (y flwyddyn hyd at Ragfyr 2020).[21] Y prif sectorau cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot ydy diwydiannau cynhyrchu (18.8%) a gofal cymdeithasol (14.6%).[22] Mae 2,400 o bobl Castell-nedd Port Talbot (3.8% o'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar o 16 oed ymlaen) yn ddiwaith (cyfnod arolwg a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2020).[23]

[17] *"Local Authority population 2011"*.
[18] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-05/summary-statistics-south-west-wales-region-2020-958.pdf
[19] *Neath Port Talbot Supplementary Planning Guidance - Landscape"*
[20] *Neath Port Talbot Supplementary Planning Guidance - Landscape"*
[21] http://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157394/printable.aspx
[22] http://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157394/printable.aspx
[23] http://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157394/printable.aspx

2.2 Poblogaeth ardal Bae Abertawe

Ystadegau poblogaeth amcanestynedig

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019) rhoddir amcangyfrif o boblogaeth ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel 390,308.[24] Ar gyfer Abertawe, amcangyfrifir mai cyfanswm y boblogaeth ydy 246, 993 ac ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, mae'n 143,315.

O'r amcangyfrifon poblogaeth amcanestynedig, mae'r dueddiad yn dynodi cynnydd graddol rhwng 2018 a 2028. Dros y cyfnod hwn, mae amcangyfrifon poblogaeth amcanestynedig amrywiadol cyn ised â 396,200 a'r rhagfynegiad poblogaeth amrywiadol uchel yn 414,700 ar gyfer ardal Bae Abertawe gyfan.

Abertawe sydd â'r drydedd lefel uchaf o dwf amcanestynedig yng Nghymru, gyda dim ond Caerdydd (+11,500) a Chasnewydd (+11,100 o bobl) o'i blaen. Rhagamcangyfrifir gynnydd yng nghyfanswm poblogaeth Abertawe o amcangyfrifiad o 246,500 yn 2018 i 254,400 yn 2028, cynnydd o 7,900 (+3.2%) dros gyfnod o ddeng mlynedd.[25]

Ceir amlinelliad isod o'r prif dueddiadau rhagamcanol yn Abertawe, gan ganolbwyntio ar y ddeng mlynedd gytaf:

- Mae'r amcanestyniadau'n cyfeirio at dwf uwch yn y nifer o wrywod (+4,800 neu 3.9%) o'i gymharu â menywod (+3,100 neu 2.5%) dros ddeng mlynedd. Mae'r amcanestyniadau' hefyd yn awgrymu y bydd mwy o wrywod na menywod yn Abertawe o 2020 ymlaen, gan gyrraedd 50.3% erbyn 2028
- Yn ôl amcanestyniad, bydd cynnydd yn y nifer o bobl oed gweithio (16-64 oed) o 3,000 (+1.9%) erbyn 2028, ond yn gyfatebol is na thwf y boblogaeth gyfan (+3.2%)
- Erbyn 2028, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sy'n 65 oed ac yn hŷn yn cynyddu o oddeutu 5,100 (+10.5%) i 53,100. Bydd hyn yn bennaf fel canlyniad i welliannau yn y cyfraddau marwolaeth (sy'n cael eu hadlewyrchu yn y nifer o bobl sy'n byw'n hirach) a rhai carfannau o'r boblogaeth yn heneiddio ymlaen, gan gynnwys y genhedlaeth a aned wedi'r ail ryfel byd.

Rhagamcanir y bydd poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn cynyddu o amcangyfrif o 142,906 i 146,800, cynnydd o 3894 (+2.7%) dros gyfnod o ddeng mlynedd.

[24] Rhagamcaniadau ONS MYE 2019 Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)
[25] Ystadegau Cymru Local authority population projections for Wales: 2018-based (revised) (gov.wales)

Amlinellir y prif dueddiadau rhagamcanol yng Nghastell-nedd Port Talbot isod, gan ganolbwyntio ar y ddeng mlynedd gyntaf:

- Rhagamcanir y bydd y boblogaeth yn cynyddu o 2.8%[26]
- Nid oes disgwyl i'r nifer o blant a phobl ifanc (0-15) gynyddu
- Fe fydd cynnydd yn y nifer o bobl sy'n 65 oed ac yn hŷn a'r rhai hynny sy'n 75 oed ac yn hŷn. Rhagfynegir twf o 50%
- Mae disgwyl i fudo net fod yn fwy na newidiadau naturiol (nifer genedigaethau a marwolaethau)

Dosbarthiad Gwledig-Trefol

Mae ardaloedd cynnyrch yn cael eu dosbarthu fel rhai *trefol* os y cawson nhw eu dyrannu i ardal adeiledig 2011 gyda phoblogaeth o 10,000 o bobl neu fwy a *gwledig* os ydy'r boblogaeth yn disgyn o dan y ffigwr hwn.

Mae'r parthau trefol a gwledig yn cael eu his-rannu'n bellach yn dri math morffolegol cyffredinol yn siliedig ar yr elfen anheddu amlycaf. Mae'r dosbarthiad hefyd yn categoreiddio ardaloedd cynnyrch yn seiliedig ar gyd-destun – h.y. p'un ai a ydy cyffiniau ehangach ardal gynnyrch benodol yn brin ei phoblogaeth neu'n llai prin ei phoblogaeth.

Ffigwr 2.2.1 Trosolwg o'r dosbarthiad trefol-gwledig ar gyfer BIP Bae Abertawe trwy poblogaeth[27]



[26] Crynodeb o'r Farchnad Dai Leol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot 2019 area-summary-neath-port-talbot-final-131020.pdf (npt.gov.uk)
[27] Dosbarthiad gwledig/trefol ONS 2011 rural/urban classification - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Abertawe

Mae ystadegau dosbarthiad gwledig-trefol yn awgrymu fod oddeutu 69.5% o arwynebedd tir y sir yn wledig a 30.5% yn drefol, er bod 88% o drigolion Abertawe'n byw mewn ardaloedd a ddynodir yn drefol a dim ond 12% mewn ardaloedd gwledig (amcangyfrifon Cyfrifiad 2011).

Mae adral drefol y sir wedi'i chanolbwyntio'n bennaf ar Abertawe ac yn ymestyn tua'r gorllewin a'r gogledd o ganol y ddinas – o amgylch Bae Abertawe i'r Mwmbwls; dros Townhill i Gwmbwrla, Treboeth, Fforestfach a Phenlan; trwy Uplands, Sgeti, Cilâ a'r Dyfnant; ar hyd cymunedau Cwm Tawe, sef yr Hafod, Glandŵr, Plasmarl, Treforys i Glydach; ac ar ochr ddwyreiniol yr Afon o St. Thomas i Fonymaen, Llansamlet a Birchgrove.

Mae'r ail ganolbwynt trefol wedi'i ganoli ar drefi bychain Gorseinon a Chasllwchwr yng ngogledd-orllewin y sir, ynghyd â chymunedau cyfagos Tregŵyr, Penllergaer, Llangyfelach a Phontarddulais.[28]

Castell-nedd Port Talbot

Mae Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Neath Port Talbot yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig. Mae'n gorchuddio ardal o 44,126 hectar, yn codi o lefel y môr yn y gorllewin i 600 metr yng Nghraig y Llyn, uwchben Glyn-nedd. Mae Castell-nedd Port Talbot yn ardal o ucheldir yn bennaf a holltir gan ddyffrynnoedd afonydd Afan, Nedd, Dulais a Thawe, sydd i gyd yn llifo tua'r môr ym Mae Abertawe.

Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd trefol yn gorwedd oddi fewn i stribed arfordirol cul, gyda gweddill y Fwrdeistref Sirol yn ardaloedd o ucheldir a rennir yn bum cwm gwledig. Felly, lleiafswm ydy'r stribed arfordirol, sy'n drefol iawn, o ardal ddaearyddol y Fwrdeistref Sirol, gyda 51% yn wledig ei natur Mae'r cymoedd wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd gan lethrau a chribau o goetir uchel neu weundir. Mae stribed arfordirol cul yn ymestyn o amgylch Bae Abertawe, lle ceir prif ganolfannau'r bologaeth.

Mae'r cymoedd cyfagos yn wledig eu natur gyda chymunedau gwasgaredig, llawer ohonyn nhw yn ddibynnol ar y diwydiant glo yn y gorffennol. Y prif ganolfannau trefol oddi fewn i'r bwrdeitref sirol ydy Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe.[29]

[28] Dinas a Sir Abertawe Swansea - Geography
[29] Regenerate NPT (2015) rdplds_20142020current.pdf (npt.gov.uk)

Proffiliau oed y boblogaeth

Mae strwythur oedran y boblogaeth yn amrywio ar draws y ddwy sir, yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn 2019 (gweler Ffigwr 2.2.2). Mae'r gwahaniaeth mwyaf amlwg i'w weld yn Abertawe, lle mae 9% o'r boblogaeth rhwng 20-24 oed o'i gymharu â 5% yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn ychwanegol, mae'r boblogaeth o 25-29 oed ychydig uwch ar 7.4% yn Abertawe o'i gymharu â Chastell-nedd Port Talbot, sy'n 6%. Y rheswm am y gwahaniaeth hwn ydy'r boblogaeth o oedran prifysgol sydd wedi'i lleoli'n bennaf yn Abertawe (gweler Ffigwr 2.2.2).[30]

Ceir canran ychydig yn uwch o'r boblogaeth yn y grŵp oedran 50-54 yn Abertawe (7%) nag yng Nghastell-nedd Port Talbot (6.5%). Mae patrwm tebyg yn bodoli yn y grwpiau oedran 55-59 yn Abertawe (7%) a Chastell-nedd Port Talbot (6.2%).

O ran plant a phobl ifanc rhwng 0-14 oed, mae Castell-nedd Port Talbot fymryn yn uwch ar 16.4% (o'r boblogaeth) o'i gymharu ag Abertawe yn 15.8%.

Mae oddeutu 20% o'r amcangyfrif o'r boblogaeth yn 65 oed ac yn hŷn yn ardaloedd y ddau awdurdod lleol fel ei gilydd. Yn ôl y rhagamcangyfrifon ar gyfer 2039, bydd y boblogaeth dros 65 oed yn codi i 24.6% a 28.4% yn eu tro ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae strwythur oedran cyffredinol y boblogaeth yn dangos dim twf yn nhermau genedigaethau a marwolaethau. Yn y cyfnod 2018-19, bu cyfanswm o 3,646 genedigaeth an ardal BIP Bae Abertawe a 4,0498 o farwolaethau, felly, cafwyd gostyngiad naturiol yn y boblogaeth o 402. Yn ystod yr un cyfnod, bu gostyngiad o 385 yn y mewnfudo net o 385. O'r ddwy sir, Abertawe welodd y codiad mwyaf yn y mewnfudo rhyngwladol net o 3005. Mae hyn yn gynnydd net cyffredinol yn y boblogaeth o 1702 wedi didynnu allfudo rhyngwladol (1303). Mae'r mewnfudo rhyngwladol uwch yn adlewyrchu statws Abertawe fel Dinas Noddfa a ddaeth yn swyddogol yn 2010.

Mae'r amcangyfrifon yhn yn seiliedig ar ragdybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, bydd y cynnydd cymharol (ac absoliwt) yn y poblogaethau sy'n economaidd-ddibynnol ac, mewn rhai achosion, gofal-ddibynnol yn gosod heriau neilltuol i'r cymunedau hynny.

Bydd cwrdd ag anghenion yr unigolion hyn yn her allweddol i'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid, yr awdurdodau lleol.

[30] ONS UK population pyramid interactive - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Ffigwr 2.2.2 Proffil poblogaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



Abertawe



Castell-nedd Port Talbot



2.3 Ethnigrwydd

Mae mwyafrif poblogaeth BIP Bae Abertawe (93.5%) yn Wyn Prydeinig neu Wyddelig. Nifer y boblogaeth Gwyn Prydeinig neu Wyddelig ym BIP Bae Abertawe ydy 361,200. Mae grwpiau Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig (BAME) yn cynrychioli 8.52% (20,900) o gyfanswm poblogaeth ardal Abertawe. Mae hyn yn fwy na chyfartaledd Cymru (5.6%) ac yn sylweddol lai ar 1.7% (2,400) na phoblogaeth ardal Castell-nedd Port Talbot.[31]

[31] Ethnicity by area and ethnic group (gov.wales)

2.4 Iaith yr aelwyd

Adroddwyd bod 92.3% o bobl (49.8 miliwn) o 3 mlwydd oed i fyny yn Lloegr a Chymru yn nodi Saesneg fel eu prif iaith (Saesneg neu Gymraeg yng Nghymru). Roedd gan 7.7 y cant sy'n weddill o'r boblogaeth (4.2 miliwn) brif iaith heblaw Saesneg.[32] Yn adroddiad Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (blwyddyn yn dod i ben ar Ragfyr 31, 2020), dywedwyd fod 29.1% o bobl yng Ngymru o 3 oed i fyny yn medru siarad Cymraeg. Mae'r ffgwr yma'n cyfateb i 883,600 o bobl. Mae hyn 0.7% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (blwyddyn yn dod i ben ar Ragfyr 31, 2019).[33]

Ar yr adeg hynny, y brif iaith ail fwyaf i'w nodi yng Nghymru oedd Pwyleg (0.6%, 17,000), gydag Arbeg yn dilyn (0.2%, 7,000).[34]

Abertawe:

Daeth y canlynol i'r amlwg yng Nghyfrifiad 2011:

- Nifer y bobl o 3 oed i fyny oedd yn medru siarad Cymraeg yn Abertawe yn 2011 oedd 26,332. Mae hyn yn cyfateb i 11.4% o'r boblogaeth o 3 oed i fyny[35]
- Rhwng 2001 a 2011, gostyngodd y ganran o bobl oedd â'r gallu i siarad Cymraeg yn Abertawe o 13.4% i 11.4%[36]
- 88.6% (204,823) o bobl Abertawe oedd â dim sgiliau yn y Gymraeg yn 2011[37]
- Mae pobl yn fwy tebygol o siarad Cymraeg os ydyn nhw'n byw o fewn Awdurdodau Lleol penodol. Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi fod y ganran o'r boblogaeth sy'n medru siarad, darllen a sgwennu'r Gymraeg rhwng 22.9% - 29.3% ar gyfer Mawr ,16.5% a 22.9% ym Mhontarddulais ac ar gyfer Llangyfelach, Penllergaer, Kingsbridge, Casllwchwr Uchaf, Casllwchwr a Chlydach, mae'r ganran rhwng 10 -16.5%. (gweler Ffigwr 2.4.1)[38]

[32] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/language/articles/languageinenglandandwales/2013-03-04

[33] https://gov.wales/welsh-language-data-annual-population-survey-2020

[34] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/2011censusquickstatisticsforwales/2013-01-30

[35] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census

[36] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-la-broaderage-2001and2011census

[37] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census

[38] https://www.abertawe.gov.uk/media/3297/Welsh-Language-Scheme-2011-4/pdf/Welsh_Language_Scheme_2011-14.pdf

Ffigwr 2.4.1 Canran y siaradwyr Cymraeg yn ardal Abertawe (Swansea.gov.uk)[39]



Cstell-nedd Port Talbot:

Daeth y canlynol i'r amlwg yng Nghyfrifiad 2011:

- Nifer y bobl o 3 oed i fyny oedd yn medru siarad Cymraeg yng Nghastell-nedd yn 2011 oedd 20,698. Mae hyn yn cyfateb i 15.3% o'r boblogaeth o 3 oed i fyny[40]
- Rhwng 2001 a 2011, gostyngodd y ganran o bobl oedd â'r gallu i siarad Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot o 18% i 15.3%[41]
- 84.7% (114,580) o bobl Castell-nedd Port Talbot oedd â dim sgiliau yn y Gymraeg yn 2011[42]

[39] https://www.abertawe.gov.uk/media/3297/Welsh-Language-Scheme-2011-14/pdf/Welsh_Language_Scheme_2011-14.pdf

[40] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census

[41] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-la-broaderage-2001and2011census

[42] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/language/articles/languageinenglandandwales/2013-03-04
https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census

- Oddi fewn i gymunedau Cwmllynfell, Gwaun Cae Gurwen a Brynaman Isaf, mae dros hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg ac fe ystyrir y rhain yn gyffredinol fel ardaloedd Cymraeg yn draddodiadol (gweler Ffigwr 2.4.2)

Ffigwr 2.4.2 Map o ardaloedd sensitif i'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot[43]

[43] Castell-nedd Port Talbot: Datblygiad a'r iaith Gymraeg (2017) spg_welsh_language_july17.pdf (npt.gov.uk)

2.5 Crefydd

Yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011, mae 58.2% o drigolion Bae Abertawe'n dilyn un o'r chwe prif grefydd. Mae'r mwyafrif yn diffinio'u statws crefyddol fel Cristion (56%). Mewn cyferbyniad, mae 34% o'r trigolion yn datgan nad ydyn nhw'n dilyn unrhyw grefydd (gweler Ffigwr 2.5.1).[44]

Ffigwr 2.5.1. Trigolion BIP Bae Abertawe yn ôl crefydd ac awdurdod lleol



2.6 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Amddifadedd ydy diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau, sef yr hyn a ddisgwylir yn ein cymdeithas. Gall hyn gynnwys diffyg nwyddau hanfodol neu anallu unigolyn i gyfranogi ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.Mynegai Amddifadedd Luosog Cymru (MALlC) ydy mesur swyddogol amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychain yn Nghymru (a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI)). Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r dwysedd uchaf o wyth math gwahanol o amddifadedd.[45]

Y rhain ydy:

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad at wasanaethau
- Tai
- Yr amgylchfyd adeileddol
- Diogelwch cymunedol

[44] Ystadegau Cymru Welsh residents by religion and local authority (gov.wales)
[45] https://wimd.gov.wales/

Ffigwr 2.6.1 Trosolwg o amddifadedd cyffredinol trwy Gymru (2019)[42]



Meysydd MALIC Cymru









Welsh Index of Multiple Deprivation 2019

Access to Services Domain



Welsh Index of Multiple Deprivation 2019

Housing Domain



Welsh Index of Multiple Deprivation 2019

Physical Environment Domain



Welsh Index of Multiple Deprivation 2019

Community Safety Domain



Amddifadedd Dwfn

ACEHI neu ardaloedd bychain o amddifadedd dwfn ydy'r rhai hynny sydd wedi parhau i fod yn yr 50 uchaf mwyaf difreintiedig ym 5 cyhoeddiad diwethaf rhestrau MALlC. Ceir 26 o ardaloedd bychain o amddifadedd ar draws deg o Awdurdodau Lleol yng Nghymru; mae'r nifer fwyaf i'w cael yn Abertawe.[46]

Ffigwr 2.6.5 Map amddifadedd dwfn (2019)



[46] Amddifadedd dwfn (gov.wales)

Ffigwr 2.6.6 Ardaloedd bychain o amddifadedd dwfn

Local Authority	LSOA Name	WIMD 2019 Rank
Denbighshire	Rhyl West 2	1
Denbighshire	Rhyl West 1	2
Caerphilly	St. James 3	3
Rhondda Cynon Taf	Tylorstown 1	4
Bridgend	Caerau (Bridgend) 1	5
Rhondda Cynon Taf	Penrhiwceiber 1	6
Merthyr Tydfil	Penydarren 1	7
Caerphilly	Twyn Carno 1	8
Wrexham	Queensway 1	9
Rhondda Cynon Taf	Pen-y-waun 2	15
Swansea	Townhill 2	16
Swansea	Townhill 1	18
Denbighshire	Rhyl South West 2	19
Swansea	Penderry 3	22
Swansea	Castle 1	23
Cardiff	Ely 3	24
Caerphilly	Bargoed 4	29
Swansea	Penderry 1	31
Swansea	Townhill 3	32
Rhondda Cynon Taf	Abercynon 2	33
Merthyr Tydfil	Merthyr Vale 2	34
Blaenau Gwent	Tredegar Central and West 2	35
Swansea	Mynyddbach 1	37
Neath Port Talbot	Cymmer (Neath Port Talbot) 2	38
Caerphilly	Bedwas Trethomas and Machen 6	43
Swansea	Penderry 4	48

Ffynhonnell: YstadegauCymru

Mae'r wyth ACEHI a leolir yn Abertawe yn cyfrif am bron i drydedd ran (31%) o'r rhai hynny sy'n cael eu rhestru'n gyson o fewn yr hanner cant mwyaf difreintiedig, ddwywaith gymaint â'r Awdurdodau Lleol sydd nesaf ar y rhestr o ran niferoedd (Rhondda Cynon Taf a Chaerffili, sydd â phedair ardal fechan yr un). Mae un ACEHI wedi'i lleoli yng Nghastell-nedd Port Talbot (Cymer 2) sy'n cael ei chynnwys yn yr ardaloedd o amddifadedd dwfn (yn rhif 38 allan o 50).

Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Mae ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe'n cynnwys 239 ACEHI, 12.5% o'r cyfanswm o 1909 ACEHI yng Nghymru. O'r 239, mae 31 (13%) yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar draws pob un o'r 8 parth.

Ffigwr 2.6.2 Canran yr ACEHI yn ardal BIP Bae Abertawe yn yr hanner mwyaf breintiedig o Gymru



Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru Health Wales Observatory

Mae'r 239 ACEHI sydd wedi'u cynnwys yn ardal BIP Bae Abertawe wedi'u dosbarthu'n gymharol gydradd. Fodd bynnag, wrth edrych yn fwy manwl yn ôl awdurdod lleol, fe welir fod Castell-nedd Port Talbot, ar y cyfan, yn fwy difreintiedig nag Abertawe.

Yn Abertawe, mae 17 (11.5%) o'r 148 ACEHI yn y sir ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ffigwr 2.6.3 ACEHI yn Abertawe yn ôl amddifadedd (2019)[47]

ACEHI	Safle (allan o 148)
Townhill 2	1
Townhill 1	2
Penderi 3	3
Castell 1	4
Penderi 1	5
Townhill 3	6
Castell 2 Gogledd	7
Mynyddbach 1	8
Townhill 5	9
Penderi 4	10
Townhill 6	11
Bonymaen 1	12
Treforys 5	13
Penderi 2	14
Treforys 7	15
Penderi 6	16
Llansamlet 8	17

[47] MALIC - Abertawe (gov.wales)

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, 14 (15.4%) o'r 91 ACEHI sydd ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Ffigwr 2.6.4).

Ffigwr 2.6.4 ACEHI yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ôl amddifadedd (2019)[48]

ACEHI	Safle (allan o 91)
Llansawel 1 Gorllewin	1
Cymer (Castell-nedd Port Talbot) 2	2
Aberafon 4	3
Castell-nedd Gogledd 2	4
Sandfields Gorllewin 2	5
Sandfields Dwyrain 2	6
Castell-nedd Dwyrain 1	7
Castell-nedd Dwyrain 2	8
Sandfields Gorllewin 4	9
Aberafon 2	10
Sandfields Gorllewin 3	11
Aberafon 3	12
Sandfields Dwyrain 1	13
Tai-bach 2	14

[48] MALIC – Castell-nedd Port Talbot (gov.wales)

Incwm

Mae'r maes incwm yn canolbwyntio ar y canran o bobl sydd ag incwm yn is na lefel diffiniedig ac yn cofnodi'r canran o'r boblogaeth mewn amddifadedd incwm (yn derbyn budd-daliadau yn seiliedig ar incwm a chredyd treth).

Ffigwr 2.6.5 Trigolion Bae Abertawe mewn amddifadedd incwm trwy oedran ac ardal Awdurdod Lleol (2019)[46]



Ffigwr 2.6.5, sy'n dangos amddifadedd incwm yn ôl sir ac oedran gyda'r rhai yn y carfannau ifancaf a'r hynaf yn cael eu heffeithio'n fwy anffafriol. Dros yr holl grwpiau oedran (heblaw' rhai rhwng 19-24 oed yn Abertawe), Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot sydd â chanran uwch o'u trigolion mewn amddifadedd incwm na'r hyn a welir dros Gymru.

Amddifadedd Incwm Abertawe

Ffigwr 2.6.6 Map amddifadedd incwm yn Abertawe



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Abertawe, ceir 19 ACEHI ymysg y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 12.8% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol ac 1% o'r rhai yng Nghymru.[49]

[49] MALIC - Abertawe (gov.wales)

Amddifadedd Incwm Castell-nedd Port Talbot

Ffigwr 2.6.7 Map amddifadedd incwm Castell-nedd Port Talbot



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot, ceir 14 ACEHI ymysg y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 15.4% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.7% o'r rhai yng Nghymru.[50]

[50] MALIC – Castell-nedd Port Talbot (gov.wales)

Cyflogaeth

Mae'r maes cyflogaeth yn cofnodi'r diffyg cyflogaeth ac yn cynnwys y rhai hynny sy'n analluog i weithio oherwydd afiechyd neu sy'n ddi-waith ond wrthi'n chwilio am waith.

Mae llecynnau allweddol o dangyflogaeth yn ardal BIP Bae Abertawe, gan gynnwys de-ddwyrain Abertawe a rhannau o Bort Talbot. Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben yn Rhagfyr 2018, roedd 17.2% o aelwydydd yng Nghymru heb waith, sy'n uwch na chyfartaledd y DU o 14.5%.[51]

Amddifadedd Cyflogaeth Abertawe

Ffigwr 2.6.8 Map amddifadedd cyflogaeth yn Abertawe



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal BIP Bae Abertawe, mae 22 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yn y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 14.9% o'r rhai sydd yn yr Awdurdod Lleol ac 1.2% o'r rhai yng Nghymru.[52]

[51] Summary statistics for South West Wales region (gov.wales)
[52] MALIC - Abertawe (gov.wales)

Amddifadedd Cyflogaeth Castell-nedd Port Talbot

Ffigwr 2.6.9 Map amddifadedd cyflogaeth Castell-nedd Port Talbot Employment



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal BIP Castell-nedd Port Talbot, mae 17 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yn y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 18.7% o'r rhai sydd yn yr Awdurdod Lleol a 0.9% o'r rhai yng Nghymru.[53]

Y lefel gyflogaeth ydy'r cyfanswm o bobl sydd mewn cyflogaeth a'r gyfradd gyflogaeth ydy'r canran o'r boblogaeth sydd mewn cyflogaeth.

[53] MALIC – Castell-nedd Port Talbot (gov.wales)

Ffigwr 2.6.10 Lefelau cyflogaeth yn ôl Ardal Awdurdod Lleol a Rhanbarth Economaidd De-orllewin Cymru (Mawrth 2018)

Latest quarterly data

Employment – New data
(next update Sep 2018)

Table 1: Employment levels, year to March 2018 (a)

(levels in thousands)

		Compared to previous year			Compared to earliest available		
	Year to Mar 2018	Year to Mar 2017	Level Change	Percentage Change	2001	Level Change	Percentage Change
South West Wales	**306.1**	**313.9**	**-7.8**	**-2.5** ↓	**261.9**	**44.2**	**16.9** ↑
Pembrokeshire	54.9	56.9	-2.0	-3.5 ↓	45.4	9.5	21.0 ↑
Carmarthenshire	83.9	85.9	-2.0	-2.3 ↓	69.0	14.9	21.6 ↑
Swansea	107.5	108.1	-0.6	-0.5 ↓	96.8	10.7	11.1 ↑
Neath Port Talbot	59.7	63.0	-3.2	-5.1 ↓	50.7	9.1	17.9 ↑
Wales	**1,437.4**	**1,416.9**	**20.5**	**1.4** ↑	**1,238.6**	**198.8**	**16.1** ↑
United Kingdom	32,003.9	31,571.1	432.8	1.4 ↑	27,433.1	4,570.8	16.7 ↑

Source: Welsh Government analysis of Labour Force Survey (LFS)/Annual Population Survey (APS), ONS
(a) Employment levels for those aged 16 and over.

Ffigwr 2.6.11 sy'n dangos, yn 2020, fod cyfraddau cyflogaeth cyffredinol wedi gostwng ledled Bae Abertawe, gydag Abertawe a Chastell-nedd yn cofnodi'r gyfradd ddi-waith uchaf yn Rnahbarth De-orllewin Cymru. Mae cyfraddau cyflogaeth yn y rhanbarth yn is na chyfartaledd Cymru ac mae cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, mewn cyferbyniad, wedi cynyddu.[54]

[54] Welsh economy in numbers: interactive dashboard | GOV.WALES

Ffigwr 2.6.11 cyfraddau cyflogaeth cyffredinol yn Ne-orllewin Cymru (Mehefin 2020)



Ffigwr 2.6.12 Cyfraddau cyflogaeth yn ôl Ardal Awdurdod Lleol a Rhanbarth Economaidd ar gyfer y rhai hynny rhwng 16-64 oed (Mawrth 2020)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywdoraeth Cymru o Arolwg Llafurlu Cymru (ALlC) Arolwg Poblogaeth Blynyddol Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cyfraddau Anweithgarwch Economaidd

Y gyfradd anweithgarwch economaidd ydy'r canran o'r boblogaeth sydd ddim mewn cyflogaeth nac yn ddi-waith. Mae pobl sy'n anweithgar yn economaidd yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, y rhai sydd wedi ymddeol a phobl sydd â salwch neu anabledd.

Ffigwr 2.6.13 sy'n dangos y cyfraddau anweithgarwch economaidd diweddaraf (ag eithrio myfyrwyr) ar gyfer y rhanbarthau economaidd a phob ardal Awdurdod Lleol yn Ne-orllewin Cymru. Abertawe a gofnododd y lefel uchaf o anweithgarwch economaidd gydag oddeutu 23.1% o'i gymharu â Chymru gydag 19.8%, tra bod Castell-nedd Port Talbot wedi cofnodi 20.9% o unigolion anweithgar yn economaidd rhwng 16 -64 oed ym Mawrth 2020.[55]

Ffigwr 2.6.13 Cyfraddau Anweithgarwch Economaidd Awdurdodau Lleol a Rhanbarthau Economaidd ar gyfer y rhai hynny rhwng 16-64 oed (ag eithrio myfyrwyr) Mawrth 2020



Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Swyddfa Ystadegau Gwladol

[55] Regional economic and labour market profiles, July 2020 (gov.wales)

Iechyd

Pwrpas y maes hwn ydy casglu amddifadedd mewn perthynas â diffyg iechyd da.

Dyma'r dangosyddion:

- Cyflyrau cronig a gofnodwyd gan feddygon teulu (cyfradd allan o 100), safonedig yn ôl oed-rhyw
- Salwch hirdymor cyfyngus (cyfradd allan o 100), safonedig yn ôl oed-rhyw
- Marwolaethau cyn pryd (cyfradd allan o 100,000), safonedig yn ôl oed-rhyw
- Cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu (cyfradd allan o 100), safonedig yn ôl oed-rhyw
- Digwyddedd canser (cyfradd allan o 100,000), safonedig yn ôl oed-rhyw
- Pwysau geni isel (genedigaethau sengl byw llai na 2.5 Kg, canran)
- Plant oed 4-5 sy'n ordew (canran)

Mae'r dangosyddion uchod wedi'u safoni yn ôl oed-rhyw lle bo'n bosib i addasu ar gyfer cyffredinrwydd disgwyliedig yr haint o fewn y boblogaeth isorweddol. Mae hyn yn caniatáu i'r mynegai adnabod ardaloedd lle mae amddifadedd iechyd yn bodoli y tu hwnt i effaith oed a rhyw.

Mae'r cysylltiad rhwng addifadedd ac iechyd yn gwbl amlwg ar draws Cymru, yn enwedig yng nghymunedau cymoedd ôl-ddiwydiannol de Cymru. Yma, mae deilliannau iechyd salach yn arwyddocaol waeth nag yng Nghymru ar y cyfan.

Amddifadedd Iechyd Abertawe

Ffigwr 2.6.13 Map amddifadedd iechyd yn Abertawe



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Abertawe, mae 18 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 12.2% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.9% o'r rhai hynny yng Nghymru.[56]

Amddifadedd Iechyd Catell-nedd Port Talbot

Ffigwr 2.6.14 Map amddifadedd iechyd yng Nghastell-nedd Port Talbot



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

[56] MALIC - Abertawe (gov.wales)

Yn ardal Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot, mae 15 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 16.5% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.8% o'r rhai hynny yng Nghymru.[57] Am fwy o wybodaeth ar anghenion iechyd cyffredinol poblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, gweler Pennod 3.

Addysg

Mae'r maes addysg yn casglu rhychwant yr amddifadedd yng nghyd-destun addysg, hyfforddiant a sgiliau. Fe'i lluniwyd i adlewyrchu'r anfantais addysgol o fewn ardal yn nhermau diffyg cymwysterau a sgiliau. Mae'r dangosyddion yn cyfleu cyrhaeddiad isel ymysg plant a phobl ifanc a'r diffyg cymwysterau ymysg oedolion.

Dymar' dangosyddion:

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Sylfaenol
- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog ar gyfer pynciau craidd Cyfnod Allweddol 4
- Absenoldeb mynych
- Canran o rai'n gadael wedi Cyfnod Allweddol 4 i fynd i Addysg Uwch
- Nifer yr oedolion rhwng 25-64oed heb unrhyw gymwysterau

Ammdifadedd Addysg Abertawe

Ffigwr 2.6.15 Map amddifadedd addysg yn Abertawe



[57] WIMD - Neath Port Talbot (gov.wales)

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Abertawe, mae 17 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 11.5% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.9% o'r rhai hynny yng Nghymru.[58]

[58] MALIC - Abertawe (gov.wales)

Ammddifadedd Addysg Castell-nedd Port Talbot

Ffigwr 2.6.16 Map amddifadedd addysg yng Nghastell-nedd Port Talbot



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot, mae 18 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 19.8% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.9% o'r rhai hynny yng Nghymru.[59]

Cymwysterau

Yn ardal BIP Bae Abertawe, mae'r rhan fwyaf o boblogaeth oedolion oed gwaith wedi'u cymhwyso ar Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) Lefel 2 neu uwch. Mae mwy o oedolion oed gwaith sydd wedi'u cymhwyso ar NQF Lefelau 2 i 4 yn Abertawe nag yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn gyffredinol, yng Nghymru nag sydd yng Nghastell-nedd Port Tablot. Mae gan Abertawe ganran ychydig yn uwch o'r rhai hynny sydd wedi'u cymhwyso ar Lefel 2 ac uwch o'i gymharu â Chymru (gweler Ffigwr 2.6.11).

[59] https://wimd.gov.wales/geography/la/W06000012?lang=cy#&min=0&max=10&domain=education

Ffigwr 2.6.11 Lefel cymhwyster uchaf oedolion oed gwaith yn ôl Awdurdod Lleol (2020)[60]



Hygyrchedd Gwasanaethau

Pwrpas y maes Hygyrchedd Gwasanaethau ydy casglu amddifadedd fel canlyniad i anallu aelwyd i hygyrchu ystod o wasanaethau a ysytyrir yn angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd, yn gorfforol ac ar-lein.

Dyma'r dangosyddion:

- Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i siopau bwyd
- Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i feddygfeydd teuluol
- Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i ysgolion Cynradd
- Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i ysgolion Uwchradd
- Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Swyddfa'r Post
- Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Lyfrgell Gyhoeddus
- Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Fferyllfeydd
- Amseroedd teithio preifat i orsafoedd petrol (trafnidiaeth breifat yn unig)
- Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i gyfleusterau chwaraeon
- Prinder band llydan ar 30Mb/s (%)

Amddifadedd Hygyrchedd Abertawe at Wasanaethau

[60] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Data-For-Regions-of-Wales/highestqualificationlevelofworkingageadults-by-region-localauthority

Ffigwr 2.6.12 Map amddifadedd hygyrchedd gwasanaethau yn Abertawe



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Abertawe, mae 2 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 1.4% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.1% o'r rhai hynny yng Nghymru.[61]

[61] MALIC - Abertawe (gov.wales)

Amddifadedd Hygyrchedd Castell-nedd Port Tablot at Wasanaethau

Ffigwr 2.6.12 Map amddifadedd hygyrchedd gwasanaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Castell-nedd Neath Port Talbot, does dim ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru.[62]

[62] MALIC - Castell-nedd Port Talbot (gov.wales)

Ffigwr 2.6.13 Canran yr aelwydydd sy'n berchen car neu fan ym Mae Abertawe (2011)[63]



Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd ym Mae Abertawe'n berchen 1 car neu fan. Mae oddeutu 26% o aelwydydd Bae Abertawe sydd ddim yn berchen car neu fan, sydd ychydig yn uwch nag ar draws Cymru (23%).

Amser teithio i Fferyllfa [64]

Ym Mae Abertawe, cyfartaledd amser teithio a dychwelyd cyhoeddus i fferyllfa ydy 28 munud. Cyfartaledd yr amser teithio a dychwelyd preifat ydy 5 munud.

Amser teithio i feddygfa deuluol[57]

Ym Mae Abertawe, cyfartaledd amser teithio a dychwelyd cyhoeddus i feddygfa deuluol ydy 30 munud. Cyfartaledd yr amser teithio a dychwelyd preifat ydy 6 munud.

[63] KS404EW (Car or van availability) - Nomis - Official Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[64] Data Dangosyddion yn ôl Byrddau Iechyd Lleol – Pob Maes (gov.wales)

Tai

Mae mae tai MALlC yn nodi tai annigonol, yn nhermau amgylchiadau byw ffisegol ac argaeledd.Yma, mae amgylchiadau byw yn golygu addasrwydd tai i'w trigolion, er enghraifft, yn nhermau iechyd a diogelwch, ac addasiadau angenrheidiol.

Dyma'r dangosyddion:

- Canran y bobl sy'n byw mewn tai gorlawn (mesur ystafelloedd cysgu)
- Dangosydd newydd sydd wedi'i fodelu ar dai o ansawdd gwael, sy'n mesur y tebygolrwydd fod tai mewn cyflwr gwael neu'n cynnwys peryg difrifol.

Amddifadedd Tai Abertawe

Ffig 2.6.14 Map amddifadedd tai yn Abertawe



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Abertawe, mae 11 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 7.4% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.6% o'r rhai hynny yng Nghymru.[65]

[65] MALlC - Abertawe (gov.wales)

Amddifadedd Tai Castell-nedd Port Talbot

Ffig 2.6.15 Map amddifadedd tai yng Nghastell-nedd Port Talbot



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot, mae 2 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 2.2% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.1% o'r rhai hynny yng Nghymru.[66]

Ffigwr 2.6.16 Deiliadaeth Tai ym Mae Abertawe yn ôl Awdurdod Lleol (2011)[67]



Cyn belled ag y mae deiliadaeth tai yn ardal BIP Bae Abertawe yn y cwestiwn, mae mwyafrif y cartrefi un ai dan berchnogaeth lawn neu dan berchnogaeth gyda morgais neu trwy fenthyciad (Ffigwr 2.6.13).

[66] WIMD - Neath Port Talbot (gov.wales)

[67] QS405EW (Tenure - Households) - Nomis - Official Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Ffigwr 2.6.17 Cyfansoddiad aelwydydd yn ôl Awdurdod Lleol (Cyfrifiad, 2011, ONS)

		Abertawe (%)	Castell-nedd Port Talbot (%)
Un teulu	Cwpl priod neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw*	30.4	33.9
	Unig riant*	11.6	12.3
	Cwpl yn cyd-fyw*	8.6	9.5
	Pawb yn 65 oed neu'n hŷn	8.7	8.7
Un person	Aelwyd un person	33.3	30.2
Arall	Math arall o aelwyd	7.4	5.4
*Gyda neu heb blant/plant dibynnol neu annibynnol neu heb fod yn ddibynnol			

Mae mwyafrif aelwydydd BIP Bae Abertawe yn cynnwys cyplau priod neu bartneriaethau sifil o'r un rhyw (gyda neu heb blant) ac aelwydydd un person.

Amgylchfyd ffisegol

Pwrpas y maes hwn ydy mesur ffactorau yn yr ardal leol a all effeithio ar les neu ansawdd bywyd y rhai hynny sy'n byw yn yr ardal.

Dyma'r dangosyddion:

- Gwerthoedd crynodiad cyfartalog nitrogen deuocsid wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth (NO2)
- Gwerthoedd crynodiad cyfartalog gronynnau wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth <10 µm (PM10)
- Gwerthoedd crynodiad cyfartalog gronynnau wedi'u pwysoli yn ôl poblogaeth <2.5 µm (PM2.5)
- Agosrwydd at fannau gwyrdd hygyrch, gwyrdd naturiol – mesur canran aelwydydd o fewn 300 metr at fan gwyrdd hygyrch, gwyrdd naturiol
- Sgôr Man Gwyrdd Amgylchol – mesur Mynegai Amrywiaeth Llystyfiant a Normaleiddiwyd cymedrig aelwyd (NDVI)
- Risg llifogydd

Amddifadedd Amgylchfyd Ffisegol Abertawe

Ffigwr 2.6.18 Map amddifadedd amgylchfyd ffisegol yn Abertawe



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Abertawe, mae 2 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 1.4% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.1% o'r rhai hynny yng Nghymru.[68]

[68] WIMD - Swansea (gov.wales)

Amddifadedd Amgylchfyd Ffisegol Castell-nedd Port Talbot

Ffigwr 2.6.19 Map amddifadedd amgylchfyd ffisegol yng Nghastell-nedd Port Talbot



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot, mae 8 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 8.8% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.4% o'r rhai hynny yng Nghymru.[69]

[69] MALIC - Castell-nedd Port Talbot (gov.wales)

Diogelwch Cymunedol

Mae'r maes diogelwch cymunedol yn ystyried amddifadedd yn ymwneud â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'n delio â phrofiad go iawn o droseddau a thân, yn ogsytal â chanfyddiadau ynghylch diogelwch wrth fynd a dod yn yr ardal leol.

Dyma'r dangosyddion:

- Bwrgleriaethau a gofnodwyd gan yr heddlu
- Difrod troseddol a gofnodwyd gan yr heddlu
- Lladrata a gofnodwyd gan yr heddlu
- Troseddau treisgar a gofnodwyd gan yr heddlu
- Achosion o dân
- Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol (ASB) a gofnodwyd gan yr heddlu

Amddifadedd Diogelwch Cymunedol yn Abertawe

Ffigwr 2.6.20 Map amddifadedd diogelwch cymunedol yn Abertawe



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Abertawe, mae 15 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 10.1% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.8% o'r rhai hynny yng Nghymru.[70]

[70] MALIC - Abertawe (gov.wales)

Amddifadedd Diogelwch Cymunedol yng Ngastell-nedd Port Talbot

Ffigwr 2.6.20 Map amddifadedd diogelwch cymunedol yng Nghastell-nedd Port Talbot



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019): Daearyddiaeth

Yn ardal Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot, mae 5 ACEHI sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am 5.5% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.3% o'r rhai hynny yng Nghymru.[71]

[71] MALIC - Castell-nedd Port Talbot (gov.wales)

2.7 Genedigaethau

Mae'r gyfradd genedigaethau cyffredinol yn ardal BIP Bae Abertawe wedi aros yn sefydlog rhwng 2013 a 2017 (10.0 i bob 1,000 o'r boblogaeth) a dim ond ychydig is na chyfartaledd Cymru o 10.3 i bob 1,000 o'r boblogaeth.[72]

Yn 2017-18 ar gyfer Abertawe, fe welwyd gostyngiad bach yn y gyfradd genedigaethau o 10.0 i 9.6 ac fe barhaodd y tueddiad hwn yn 2019 a gostwng i 9.1 i bob 1000 o'r boblogaeth. Ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, fe welwyd gostyngiad o 10.0 i 8.9 i bob 1000 o'r boblogaeth yn 2019.

Mae'r Gyfradd Ffrwythlondeb Gyffredinol (GFR) yn mesur nifer y genedigaethau byw i ferched o oed cael plant (15 i 44 mlwydd oed). Yn 2019, roedd y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol ar gyfer Abertawe yn 48.1 i bob 1000 o ferched oed cael plant ac yn 51.3 ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Mae'r ddwy yn ise na chyfartaledd Cymru, sy'n 53.3 i bob 1000 o ferched oed cael plant.[73]

Mae pwysau geni isel (LBW) yn fesur pwysig arall o iechyd poblogaeth gan y bydd gan fabanod asy'n cael eu geni gyda phwysau geni isel risgiau iechyd ychwnanegol fydd yn gofyn cael eu rheoli'n agos yn y cyfnod ôl-enedigol. Maen nhw hefyd ar risg cynyddol ar gyfer cyflyrau iechyd hirdymor a all fod angen eu dilyn dros amser.

Mae'r graff tueddiadau (Ffigwr 2.7.1) yn nodi fod y gyfradd o fabanod pwysau geni isel yn ardal Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn codi'n raddol ac mae bellach 1.3% uwchlaw cyfartaledd Cymru (5.3%) yn 2018[74]. Mae Abertawe'n debyg i gyfartaledd Cymru ar 5.4%. Yn gyffredinol, mae BIP Bae Abertawe yn 5ed ymysg byrddau iechyd Cymru (Ffigwr 2.7.2).[75]

Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl ardal ddaearyddol fel y gwelir yn Ffigwr 2.7.3. Mae hyn yn dynodi fod canran uwch o fabanod LBW a enir yn fyw yn byw yn 6 o'r 13 ardal gynnyrch ehangach.[76]

[72] Cyfraddau genedigaethau ONS Nomis - Official Labour Market Statistics - Nomis - Official Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[73] PHOF 2017 Workbook: PHOF 2017 LAHB - Trends (tableau.com)
[74] PHOF 2017 PHOF 2017 LAHB - Charts | Tableau Public
[75] PHOF 2017 Workbook: PHOF 2017 Sub LA - USOA (tableau.com)

Ffigwr 2.7.1 Tueddiadau Pwysau Geni Isel yn ardal BIP Bae Abertawe 2009 -2018[77]



Area	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Swansea Bay UHB	6.0	5.4	5.4	5.9	4.7	4.7	4.6	5.1	5.4	5.8
Swansea	6.2	5.9	5.6	6.3	4.8	4.6	4.6	4.8	5.0	5.4
Neath Port Talbot	5.8	4.7	5.1	5.1	4.6	4.8	4.5	5.4	5.9	6.3
Wales	5.7	5.5	5.4	5.5	5.4	5.1	5.2	5.3	5.6	5.6

Ffigwr 2.7.2 Safle BIP Bae Abertawe yn y rhestrau Pwysau Geni Isel yn 2018[43]



Area	Value	95% Confidence Interval	Count
Cwm Taf Morgannwg UHB	6.5	(5.8 to 7.3)	295
Powys THB	6.0	(4.7 to 7.6)	64
Aneurin Bevan UHB	5.8	(5.3 to 6.4)	352
Hywel Dda UHB	5.8	(5.0 to 6.6)	190
Swansea Bay UHB	5.8	(5.0 to 6.6)	211
Betsi Cadwaladr UHB	5.6	(5.0 to 6.1)	362
Cardiff and Vale UHB	4.6	(4.0 to 5.2)	236
Wales	5.6	(5.4 to 5.9)	1714

[77] Workbook: PHOF 2017 LAHB - Trends (tableau.com)

Ffigwr 2.7.3 Canran babanod Pwysau Geni Isel a anwyd yn yr Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Uwch rhwng 2016 a 2018[44]



2.8 Disgwyliad oes

Disgwyliad oes ydy amcangyfrif y nifer cyfartalog o flynyddoedd i disgwylid i fabanod newyddanedig fyw, a chaniatáu bod y cyfraddau marwolaeth presennol ar gyfer yr ardal lle'u ganwyd yn gymwys trwy gydol eu bywydau.

Bydd hyd oes pobl yn amrywio'n sylweddol a gellid defnyddio disgwyliad oes i gymharu cyfraddau marwolaeth rhwng ac oddi fewn i gymunedau a gwledydd eraill dros amser. Mae hi hefyd yn bwysig ystyried ansawdd bywyd, a gyfrifir gan ddefnyddio mesur Disgwyliad bywyd iach (HLE).

Mae Disgwyliad bywyd iach adeg genedigaeth yn cynrychioli'r nifer o flynyddoedd gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da. Mae hi efallai'n ddangosydd gwell o iechyd cyffredinol, gan ei fod yn edrych ar y cyfnod o fywyd mewn iechyd da, gan anwybyddu'r cyfnod lle all ansawdd bywyd fod yn wael.

Yn ôl adroddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae disgwyliad oes yng Nghymru, ynghyd â gwledydd eraill, wedi bod yn pallu ac yn newid arwyddocaol i'r cynydd graddol a welwyd mewn disgwyliad oes ers diwedd yr Ail Ryfel Byd.[78] Dyma rai o'r prif gasgliadau:

- Dydy disgwyliad oes gwrywod a menywod yng Nghymru ddim ond wedi cynyddu o 0.2 o flynyddoedd a 0.1 o flynyddoedd ers 2010-12. Cyn hyn, roedd y codiadau yn 2.6 mlynedd a 2 flynedd rhwng 2001-03 a 2010-12.
- Gostyngodd y gyfradd marwolaethau o bob achos yng Nghymru o bron i 20% rhwng 2002 a 2011; fodd bynnag, ni chafwyd fawr o newid ers 2011.
- Mae'r bwlch yn y gyfradd marwolaethau rhwng cwintelau amddifadedd wedi lledu rhywfaint yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae dadansoddiad o ddadgyfansoddiad disgwyliad oes yn dangos, ar gyfer gwrywod a menywod fel ei gilydd, mai'r rhai oddeutu 60-84 mlwydd oed oedd y prif gyfranwyr at gynyddu disgwyliad oes ond bod y gwelliannau hyn wedi arafu'n sylweddol rhwng 2002-04 a 2015-17.
- Yn yr un modd, mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth clefydau cylchrediad wedi arafu
- Mae cynnydd ym marwolaeth o glefydau anadlol a dementia a chlefyd Alzheimer's wedi cyfrannu'n negyddol at wella disgwyliad oes.

[78] Disgwyliad Oes a Marwolaethau yng Nghymru, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020
Cyhoeddi adroddiad Disgwyliad Oes a Marwolaethau yng Nghymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales)

- Dylid nodi fod y bwlch yn nisgwyliad oes iach rhwng y rhannau mwyaf a lleiaf difreintiedig ardal y Bwrdd Iechyd yn parhau i dyfu.

Mae BIP Bae Abertawe'n dilyn tueddiadau Cymru gyfan o ran disgwyliad oes ac mae hynny'n arafu. Ar gyfer gwyrywod sy'n byw yn Abertawe, y disgwyliad oes ydy 77 mlynedd, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 78, tra bod yr oed ar gyfer menywod yr un peth â chyfartaledd cymru, sef 82 mlwydd oed. Ar gyfer gwrywod sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae disgwyliad oes yn 77 ac ychydig yn uwch, sef 80 o flynyddoedd i fenywod (gweler Ffigyrau 2.8.1, 2.8.2 a 2.8.3).[79]

Ffigwr 2.8.1 Disgwyliad oes i wrywod adeg genedigaeth yn ardal BIP Bae Abertawe (2006-08 i 2015-2017)



Ffigwr 2.8.2 Disgwyliad oes ar gyfer mwnywod adeg genedigaeth yn ardal BIP Bae Abertawe (2006-08 i 2015-2017)



[79] Disgwyliad Oes adeg genedigaeth (gwrywod a menywod) Workbook: PHOF 2017 LAHB - Trends (tableau.com)

Ffigwr 2.8.3 Disgwyliad Oes a Disgwyliad bywyd iach adeg genedigaeth yn ôl Awdurdod Lleol 2010-2014[80]

	Abertawe	Castell-nedd Port Talbot	Cymru
Gwrywod			
Disgwyliad Oes	77.8	77	78.3
Disgwyliad bywyd iach	65.3	60.7	61.4
Canran disgwyliad oes mewn iechyd da	83.3	84.2	80.4
Menywod			
Disgwyliad Oes	82.3	81.7	80.4
Disgwyliad bywyd iach	66.7	65.0	62.4
Canran disgwyliad oes mewn iechyd da	81.1	79.5	76.9

Disgwyliad oes ac amddifadedd yng Nghymru

Y Mynegai Gogwydd Anghydraddoldeb (MGA) sy'n mesur y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng adrannau mwyaf a lleiaf difreintiedig poblogaeth leol. Mae rhychwant yr anghyfartaledd mewn disgwyliad bywyd iach gwrywod a menywod adeg genedigaeth yng Nghymru dros 18 mlynedd i wrywod ac 19 o flynyddoedd i fenywod. Tra bo'r anghyfartaledd, fel y'i mesurid gan yr ystod a'r MGA, yn debyg i wrywod, cafwyd bod yr ystod yn tanamcanu'r anghyfartaledd mewn Disgwyliad bywyd iach i fenywod o flwyddyn.

O 2015 i 2017, roedd anghyfartaledd y disgwyliad oes i wrywod adeg genedigaeth yng Nghymru yn sefyll ar 9.0 mlynedd, anghyfartaledd a oedd yn arwyddocaol uwch yn ystadegol na'r hyn ar gyfer menywod, a oedd yn sefyll ar 7.5 mlynedd. Roedd bwlch mwy sylweddol yn nisgwyliad oes iach adeg genedigaeth, ond bod yr anghyfartaledd o chwith, gyda menywod â'r aghyfartaledd mwyaf, sef 19.4 mlynedd o'i gymharu â 18.1 mlynedd ar gyfer gwrywod (Ffigyrau 2.8.4 a 2.85).[81]

Wedi 65 mlwydd oed, roedd anghyfartaleddau mewn disgwyliad oes yng Nghymru'n parhau gyda bwlch o 4.6 blynedd ar gyfer gwrywod a menywod fel ei gilydd, gan ddangos aliniad ym maint yr anghyfartaledd mewn oedrannau hŷn yng Nghymru. Yn 65 mlwydd oed, roedd bwlch disgwyliad bywyd iach hefyd yn ehangach ar gyfer menywod (6.2 o flynyddoedd) o'i gymharu â 5.1 o flynyddoedd i wrywod.

[80] Disgwyliad oes a disgwyliad bywyd iach adeg genedigaeth yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Lleol (llyw.cymru)

[81] Health state life expectancies by national deprivation deciles, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

2.9 Marwolaethau

Ers canol yr ugeinfed ganrif, mae cyfraddau marwolaeth yng Nghymru wedi bod yn gostwng, fel canlyniad i ddatblygiadau meddygol o ran diagnosis, triniaethau a gwelliant mewn ffyrdd o fyw, yn enwedig mewn perthynas â smygu.

Dylanwedir ar nifer y marwolaethau pob 100,000 o'r boblogaeth gan ddosbarthiad oedran y boblogaeth. Mae cyfraddau marwolaethau a safonir yn ôl oedran yn addasu yn ôl gwahaniaethau yn nosbarthiad oedran poblogaeth trwy gymhwyso'r cyfraddau marwolaeth oed-benodol a arsylwyd ar gyfer pob poblogaeth i boblogaeth safonol.

Yn 2021, mae'r cyfraddau ar gyfer lleoliadau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe ychydig yn uwch na chyfraddau Gymru Gyfan.[82]

Cafodd y gyfradd ei gyfrifo gan ddefnyddio Poblogaeth Safonol Ewropeaidd (ESP) 2013, a ddisodlodd safonau ESP 1976, sy'n cyfrif am y newid arwyddocaol yn y cyfraddau safonedig yn ôl oedran i bob 100,000 o'r boblogaeth o'u cymharu â'r ffigyrau a adroddwyd yn flaenorol.

Ffigwr 2.9.1 Cyfradd marwolaeth safonedig yn ôl oedran ar gyfer gwrywod a menywod yn ardal BIP Bae Abertawe (2019)



[82] Gwybodaeth Marwolaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gig.cymru)

Marwolaethau Diangen

Diffinnir marwolaethau diangen fel rhai

a) Ataliadwy :-

Gellir osgoi pob neu'r rhan fwyaf o farwolaethau o'r achos hwnnw trwy ymyriad iechyd cyhoeddus, e.e. marwolaethau'n gysylltiedig â smygu.

b) Triniadwy:-

Gellir osgoi pob neu'r rhan fwyaf o farwolaethau o'r achos hwnnw trwy ofal iechyd o ansawdd dda, e.e. asthma.

Ffigwr 2.9.2 Achosion marwolaeth yr ystyrir yrhai y gellid eu hosgoi, yn ataliadwy ac yn driniadwy, cyfraddau safonedig yn ôl oedran Ewropeaidd (EASR) i bob 100,000 person, BIP Bae Abertawe, 2014-2019

	Mae modd eu hosgoi			**Triniadwy**			**Ataliadwy**		
Blwyddyn	Cyfrif	EASR 95% cyfwng hyder		Cyfrif	EASR 95% cyfwng hyder		Cyfrif	EASR 95% cyfwng hyder	
2014	911	269	(252-287)	335	99	(89-110)	576	170	(156-184)
2015	1,003	292	(274-310)	335	103	(92-114)	650	189	(174-204)
2016	1,058	304	(286-323)	341	98	(87-108)	718	207	(192-222)
2017	1,035	294	(276-312)	341	96	(86-107)	695	198	(183-213)
2018	1,046	296	(278-314)	365	103	(92-113)	681	193	(179-208)
2019	997	278	(261-295)	361	101	(90-111)	637	178	(164-191)

Mae hwn yn dangos y gyfradd a gyfrifwyd o'r marwolaethau yr ystyriri y mae modd eu hosgoi (a ddangosir fel cyfradd safonedig yn ôl oedran i bob 100,000 o bobl). Cyfartaledd Cymru Gyfan ydy 259 yn 2019.

2.10 Pobl ag anableddau

Difinnir anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel bod â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' neu 'hirdymor' ar eich gallu i wneud gweithgareddau dyddiol.

Nifer y bobl sydd ag anableddau corfforol neu synhwyraidd ar gofrestri awdurdodau lleol (Llywodraeth Cymru, 31/03/19)[83]:

Abertawe	2547
Castell-nedd Port Talbot	3943
Cymru	52295

Salwch cyfyngus hirdymor

Problem iechyd neu anabledd hirdymor sy'n cyfyngu ar weithgareddau dyddiol person, ac sydd wedi para, neu'n debygol o bara, o leiaf 12 mis ac syddd hefyd y cynnwys problemau sy'n gysylltiedig â henaint.

Mae data o gyfrifiad 2011 yn amlygu'r ffaith fod gan Gastell-nedd Port Talbot ganran uwch o bobl oedd â'u gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu (12%) neu wedi'u cyfyngu cryn dipyn (16%), o'u cymharu â phobl yn Abertawe, oedd â'u gweithgareddau wedi'u cyfyngu (11%) neu wedi'u cyfyngu cryn dipyn (13%).

Ffigwr 2.10.1 Salwch neu anabledd hirdymor cyfyngus yn ôl awdurdod lleol[84]

	Holl Drigolion Arferol (niferoedd)	**Gweithgareddau Dyddiol wedi'u Cyfyngu rhyw Ychydig**	**Gweithgareddau Dyddiol wedi'u Cyfyngu ryn Dipyn**	**Gweithgareddau Dyddiol heb eu Cyfyngu**
Abertawe	239023	25711	30007	183305
Castell-nedd Port Talbot	139812	16620	22492	100700
Cymru	3063456	331537	364318	2367601

[83] Cofrestrau awdurdodau lleol o bobl anabl: ar 31 Mawrth 2019 | llyw.cymru
[84] Tabl | Anableddau | Gofal cymdeithasol | Iechyd a gofal cymdeithasol | Data | Hafan - InfoBaseCymru

Anabledd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio

Canran y bobl o oedran gweithio creiddiol anabl neu ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae creiddiol anabl y Ddeddf Cydraddoledeb yn cynnwys y rhai hynny sydd ag anabledd hirdymor sy'n cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r rhai anabl sydd wedi'u cyfyngu o ran gallu i weithio yn cynnwys y rhai sydd ag anabledd hirdymor sy'n effeithio ar y math neu faint o waith y gallen nhw'i wneud. Diffinnir oedran gweithio fel pobl o 16 i 64 oed. Mae'r canran yn dangos y nifer o bobl creiddiol anabl neu ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb fel canran o'r holl bobl oedran gweithio. Cymerir yr amcangyfrifon hyn o'r arolwg poblogaeth blynyddol.

O'r tabl isod, yn 2019, roedd gan ardal Bae Abertawe, ar gyfartaledd, 26.6% o bobl oedran gweithio a oedd yn greiddiol anabl neu ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb, 2% yn uwch na chyfartaledd Cymru. Ceir nifer uwch o bobl sydd ag anabledd corfforol neu synhwyraidd yn byw yn ardal Castell-nedd Port Talbot. O'r rhai hynny sydd ag anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, mae gwahaniaeth o 6% yng nghanran y bobl sy'n gyflogedig yn Abertawe o'i gymharu â Chastell-nedd Port Talbot.[74]

Ffigwr 2.10.2 Anabledd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio

	Anabledd iechyd neu gorfforol	Statws gyflogaeth	
	Nifer o bobl gydag anableddau corfforol neu synhwyraidd ar gofrestri awdurdodau lleol	% o bobl oedran gweithio sy'n greiddiol anabl neu ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb	% o bobl creiddiol anabl neu ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb sy'n gyflogedig
Awdurdod Lleol	31 Maw 2019	2019	2019
Abertawe	2547	26.5	53.7
Castell-nedd Port Talbot	3943	26.7	47.3
Cymru	52295	24.5	50.5

2.11 Cyfeiriadedd rhywiol

Mae cyfeiriadedd rhywiol yn derm cyffredinol sy'n cwmpasu sawl dimensiwn, gan ngynnwys hunaniaeth rywiol, atynfa ac ymddygiad. Cynhyrchir data ar hunaniaeth rywiol gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Mae'r data a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 yn tynnu ar ddata o'r bwletin diweddar a dadansoddiad ychwanegol o set ddata gyfun sy'n cyfuno 3 blynedd o ddata Arolwg Poblogaeth Blynyddol.[85]

Oherwydd meintiau samplau bychain, dydy data ddim ond ar gael ar lefel ranbarthol ac nid ar lefel sirol. Dyma brif bwyntiau'r dadansoddiad:

- Yn 2018, nododd 95.2% o bobl Cymru o 16 oed ac yn hŷn eu bod yn heterorywiol/syth. Mae hyn yn cymharu ag 1.5% sy'n nodi eu hunain yn hoyw/lesbiaidd, 0.8% a ddywedodd eu bod yn rywbeth arall. tra bo !.7% o bobl wedi datgan nad oedden nhw'n gwybod neu heb ateb nag ymateb i'r cwestiwn.
- Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae canran y rhai hynny o boblogaeth Cymru sy'n datgan eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) wedi cynyddu'n raddol o 1.6% yn 2014 i 2.3% yn 2018
- O'r bobl hynny yng Nghymru sy'n datgan eu bod yn hoyw/lesbiaidd/deurywiol, roedd dros dwy ran o dair (70.6%) rhwng 16 a 44 blwydd oed. Mae hyn yn cymharu ag ychydig o dan hanner (43.0%) o'r boblogaeth yn gyffredinol.
- Mae oddeutu ddwywaith gymaint o wrywod nag o fenywod yn datgan eu bod yn hoyw/lesbiaidd tra bod ychydig dros 60% o bobl o'r rhai hynny a ddywedodd eu bod yn ddeurywiol yn fenywod.
- Roedd pobl a oedd yn datgan eu bod yn hoyw/lesbiaidd/deurywiol yn fwy tebygol o fod yn sengl nag yn briod neu mewn partneriaeth sifil.
- O'r bobl hynny a oedd yn uniaethu â bod yn hoyw/lesbiaidd/deurywiol, roedd 60.4% yn byw yn ne-ddwyrain Cymru (o'i gymharu â 48.4% o'r boblogaeth yn gyffredinol), tra bo 13.9% yn byw yng ngogledd Cymru (o'i gymharu â 22.3% o'r boblogaeth).
- Roedd pobl a oedd yn dweud eu bod yn hoyw/lesbiaidd/deurywiol drso deirgwaith yn fwy tebygol o fyw mewn tref fawr, yn hytrach na thref fechan neu bentref.
- Hyd at gyfrifiad 2021, doedd dim ffigyrau swyddogol i'w cael am y rhai hynny oedd yn nodi bod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar eu genedigaeth. Mae angen gwybodaeth ar hunaniaeth rhywedd i gefnogi gwaith ar ddatblygu polisïau a

[85] Ystadegau Cymru Hunaniaeth rywiol yn ôl Rhanbarth (llyw.cymru)

darparu gwasanaethau ac i hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnwys o dan y gyfraith gydraddoldeb berthnasol[86].

Ffigwr 2.11.1 Hunaniaeth rywiol yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru (2016-2018)[87]

		Heterorywiol	Hoyw/Lesbiaidd	Deurywiol	Arall	Dim ymateb
Cymru	Canolbarth a de-orllewin Cymru	716300	6900	6700	3700	8000

Roedd papur gwyn iechyd cyhoeddus 'Healthy Lives, Healthy People' yn nodi iechyd meddwl gwael, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, defnydd o gyffuriau ac alcohol mewn ffordd broblemus a smygu fel y prif faterion iechyd cyhoeddussy'n wynebu'r DU. Mae gan y rhain i gyd y potensial i effeithio'n anghymesur ar boblogaethau Lesbiaidd Hoyw Deurywiol a Thrawsryweddol (LHDT)[88]:

- Mae camddefnydd cyffuriau ym,ysg pobl LHDT o leiaf 8 gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol.
- Mae oddeutu 25% o bobol LHD yn nodi lefel o ddibyniaeth ar alcohol.
- Mae bron i hanner unigolion LHDT yn smygu, o'i gymharu â chwarter eu cyfoedion heterorywiol.
- Mae risg uwch ymysg pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol o anhwylderau meddyliol, synied am hunanladdiad, camddefnydd sylweddau a huan-niweidio bwriadol.
- Riportiodd 41% o bobl trawsryweddol eu bod wedi ceisio hunanladd o'i gymharu ag 1.6% o'r boblogaeth gyffredinol.

Ailbennu rhywedd

Mae ailbennu rhywedd yn cyfeirio at unigolion sydd un ai:

- Wedi, yn bwriadu neu wrthi'n ymgymryd ag ailbennu rhywedd (triniaeth feddygol a llawfeddygol i newid y corff).

[86] Sex and gender identity question development for Census 2021 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[87] Ystadegau Cymru Hunaniaeth rywiol yn ôl Rhanbarth (llyw.cymru)
[88] Healthy Lives, Healthy People: Our strategy for public health in England (publishing.service.gov.uk)

- Ddim yn bwriadu ymgymryd â thriniaeth feddygol ond sy'n dymuno byw'n barhaol mewn rhywedd wahanol i'r hyn a bennwyd ar enedigaeth.

Mae 'pontio' yn cyfeirio at y broses a/neu'r cyfnod o amser lle mae ailbennu rhywedd yn digwydd (gyda neu heb ymyriad meddygol). Yn ôl Cymdeithas Ymchwil ac Addysg Ailbennu Rhywedd, ceir nifer o faterion iechyd a lles yn gysylltiedig ag ailbennu rhywedd. Mae'r rhrian yn cynnwys:

- Mae cyffuriau ac alcohol yn cael eu prosesu gan yr iau/afu fel ag y mae hormonau croesrywiol. Gall defnydd trwm o alcohol a/neu gyffuriau gynyddu'r risg o wenwyndra'r afu a niwed i'r afu.
- Gall alcohol, cyffuriau a thybaco, ynghyd â'r defndydd o therapi hormonau gynyddu'r risg gardiofasgwlaidd. Gyda'i gilydd, fe allen nhw hefyd gynyddu'r risg sydd eisoes yn bodoli gan therapi hormonau.
- Gall smygu effeithio ar lefelau oestrogen, gan gynyddu'r risg o osteoporosis a lleihau effeithiau benyweiddio meddyginiaeth.
- Mae pobl trawsryweddol yn wynebu sawl rhwystr a all eu hatal rhag ymgymryd ag ymarfer rheolaidd. Mae llawer o bobl trawsryweddol yn ei chael hi'n anodd gyda delwedd eu cyrff ac, fel canlyniad, yn medru bod yn amharod ymwneud â gweithgarwch corfforol.

Disfforia rhywedd ydy'r term meddygol a ddefnyddir i ddisgrifio gofid neu nam arwyddocaol perthynol i awydd cryf i fod o rywedd arall.

Mae pobl trawsryweddol yn debygol o ddioddef o salwch iechyd meddwl fel adwaith i'r anesmwythyd maen nhw'n ei deimlo ynghylch eu cyrff. Mae hyn yn cael ei yrru'n bennaf gan ymdeimlad o wahaniaeth ac heb gael eu derbyn mewn cymdeithas. Os ydy person trawsryweddol yn dymuno pontio a byw yn y rôl rhywedd maen nhw'n ei harddel, mae'n bosib y bydden nwh hefyd yn poeni am ddifetha eu cydberthnasau, colli eu swyddi, bod yn ddioddefwr trosedd casineb a chamwahaniaethu yn eu herbyn. Gall ofn y fath ragfarn a chamwahaniaethu, a all fod yn real neu'n ddychmygol, achosi gofid seicolegol arwyddocaol.[89]

[89] Trans Health Factsheets – Gender Identity Research & Education Society (gires.org.uk)

2.12 Myfyrwyr prifysgol

Mae ardal Bae Abertawe'n gartref i ddwy brifysgol, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Y Drindod Dewi Sant. Amcangyfrifir fod poblogaeth y myfyrwyr yn 24,000.

I lawer o bobl ifanc, hwn fydd y tro cyntaf iddyn nhw adael cartref, felly nid yn unig y ceir pwysedd bod yn annibynnol a hunanddibynnol ar amgylchfyd newydd, ond hefyd cadw'n iach a rheoli pwysedd gwaith cwrs ac arholiadau.

Mae rhai o'r prif faterion i'r boblogaeth o fyfyrwyr yn cynnwys:

- Problemau iechyd meddwl. Mae 94% o brifysgolion y DU wedi profi cynnydd sydyn yn y nifer o bobl sy'n ceisio hygyrchu gwasanaethau cymorth, gyda rhai sefydliadau'n sylwi ar gynnydd triphlyg.
- Yn ôl adroddiad *Unite Students Insight* 2019, mae canran y myfyrwyr sy'n ystyried fod ganddyn nhw gyflwr iechyd meddwl wedi codi, gan sefyll bellach ar 17%. Mae hyn wedi codi o 12% yn 2016, pan ofynnwyd y cwestiwn am y tro cyntaf.[90]
- Fel yn y blynyddoedd blaenorol, gorbryder ac iselder – y ddau yn aml – oedd y cyflyrau gafodd eu riportio fwyaf aml.
- Mae'r nifer o fyfyrwyr sy'n gadael y brifysgol oherwydd problemau iechyd meddwl wedi mwy na threblu yn y blynyddoedd diwethaf.[91]
- Atal a sgrinio ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.[80]
- Cymorth gydag atal cenhedlu, gan gynnwys darparu atal cenhedlu hormonal brys.[80]
- Ffyrdd o fyw (arferion cysgu gwael, smygu, camddefnydd sylweddau, marfer ac arferion bwyta). [80]

[90] Unite Students Insight report 2019 new-realists-insight-report-2019.pdf (unite-group.co.uk)
[91] Higher-education-for-a-healthy-nation-student-well-being-and-health-English.pdf (hefcw.ac.uk)

2.13 Gofalwyr

Mae gofalwyr yn hanfodol i'r rhai sydd dan eu gofal ac yn ran hanfodol o'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Gofalwyr ydy aelodau'r teulu, frrindiau a chymdogion sy'n darparu gofal di-dâl a'r gefnogaeth emosiynol sydd ei angen tr ar yr un pryd, yn aml yn esgeuluso'u hiechyd a'u lles eu hunain.

Mae darparu gofal di-dâl yn dod yn fwyfwy cyffredin wrth i'r boblogaeth heneiddio. Wrth edrych ar faint o ofal mae unigolion yn ei ddarparu, amlygodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (gweler ffigwr 2.13.1) fod y mwyafrif yn y ddwy sir yn darparu rhwng 1-19 awr o ofal di-dâl yr wythnos, gyda 50+ o oriau o ofal di-dâl yn dilyn hynny. Y cyfanswm lleiaf o ofal di-dâl yn y ddwy sir oedd rhwng 20–49 awr.

Proffil oedran gofalwyr di-dâl[92]

Ffigwr 2.13.1 Darpariaeth gofal di-dâl yn ôl oed, oriau o ofal a ddarparwyd pob wythnos, Abertawe

Gofalwr / Oed	Pob categori: Darpariaeth gofal di-dâl	Yn darparu dim gofal di-dâl	Yn darparu gofal di-dâl: Cyfanswm	Yn darparu 1 i 19 awr o ofal di-dâl 1 to 19 yr wythnos	Yn darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos	Yn darparu 50 neu fwy o oriau o ofal di-dâl yr wythnos
Pob categori oedran	234,363	204,083	30,280	17,290	4,489	8,501
Oed 0 - 24	72,956	70,480	2,476	1,805	384	287
Oed 25 - 49	76,359	66,357	10,002	6,147	1,514	2,341
Oed 50 - 64	43,783	33,263	10,520	6,506	1,532	2,482
Oed 65 +	41,265	33,983	7,282	2,832	1,059	3,391

[92] LC3301EW (Provision of unpaid care by general health by sex by age) - Nomis - Official Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Ffigwr 2.13.2 Darpariaeth gofal di-dâl yn ôl oed, oriau o ofal a ddarparwyd pob wythnos, Castell-nedd Port Talbot

Gofalwr / Oed	Pob categori: Darpariaeth gofal di-dâl	Yn darparu dim gofal di-dâl	Yn darparu gofal di-dâl: Cyfanswm	Yn darparu 1 i 19 awr o ofal di-dâl 1 to 19 yr wythnos	Yn darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos	Yn darparu 50 neu fwy o oriau o ofal di-dâl yr wythnos
Pob categori oedran	138,682	118,322	20,360	10,379	3,273	6,708
Oed 0 - 24	39,513	37,885	1,628	1,158	256	214
Oed 25 - 49	45,565	38,580	6,985	3,890	1,171	1,924
Oed 50 - 64	28,416	21,393	7,023	3,797	1,185	2,041
Oed 65 +	25,188	20,464	4,724	1,534	661	2,529

Mae llwyfan Amcanestyniad Poblogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru yn declyn a all helpu cynllunio gwasanaethau gofal sydd o bosib eu hangen mewn ardaloedd lleol ledled Cymru. Trwy ddefnyddio'r teclyn hwn, darlunir y gofal di-dâl amcanestynedig ym Mae Abertawe yn ffigwr 2.13.2.

Ffigwr 2.13.2 Gofal Di-dâl Amcanestynedig yn ardal BIP Bae Abertawe (2018-2043)[93]



[93] Population Projections Platform (daffodilcymru.org.uk)

2.14 Troseddwyr

Troseddwyr sy'n oedolion

Cyhoeddwyd adroddiad 'Asesiad Anghenion Iechyd mewn Carchardai yng Nghymru' yn ddiweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a nododd nifer o brif feysydd aoedd angen sylw.[94]

- Mynediad at gyfleusterau gofal iechyd
- Iechyd meddwl a gofal iechyd
- Camddefnydd sylweddau gan gynnwys smygu
- Iechyd y geg
- Clefydau heintus a
- Chefnogaeth yn dilyn rhyddhau

Carchar Fictoraidd ydy CEM Abertawe, sydd wedi'i leoli yng nghanol dinas Abertawe; fel sy'n gyffredin i'r math hwn o adeilad. mae'r safle'n gyfyng. Sefydliad lleol Categori B ydy'r carchar. Mae'r troseddwyr a ddelir yn CEM Abertawe yn drawsdoriad anghyfartal sy'n dod yn bennaf o isadran difreintiedig cymdeithas Cymru. Mae cyffredinolrwydd iechyd gwael a marwolaethau uchel yn arbennig o amlwg yn nalgylchoedd CEM Abertawe.

Yn ôl adroddiad archwiliad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, mae'r boblogaeth mewn gwirionedd wedi gostwng o 458 yn 2017 i 371 yn Awst 2020. Adroddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ostyngiad pellach i 335 ym Medi 2020.[95]

Mae chwarter (26%) poblogaeth CEM Abertawe ar remand, gyda 18% pellach wedi'u euogfarnu, heb eu dedfrydu neu wedi'u dedfrydu'n ddigategori. Mae tri deg pump y cant o'r boblogaeth wedi'u dedfrydu i fwy na blwyddyn, i lawr o 42% yn 2016.

Mae oedran yn brif ddangosydd anghenion iechyd tebygol. Mae'r carchar yn lletya demograffeg gymysg o oedolion, fel y gwelir yn Ffigwr 2.14.1 isod. Maer'r boblogaeth yn iau na phoblogaeth carchardai'n genedlaethol (ledled Lloegr a Chymru), gyda chyfraddau uwch o rai 21-49 mlwydd oed a chyfraddau is o rai dros 50 oed. Mae wyth deg y cant o boblogaeth CEM Abertawe dros 50 oed o'i gymharu ag 17% ar gyfer carcharorion gwryw ar gyfartaledd.

[94] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2013) Prison Health Needs Assessment: Technical Report. Thematic review 2013: mental health needs and provision across the Welsh prison estate. http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/457/MHNA%20Technical%20report%20v1.3%20%28Final %29.pdf

[95] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020) Prison population figures September 2020. Ar gael ar-lein. [Hygyrchwyd 06/11/20]

Ffigwr 2.14.1 Proffil oedran carcharorion o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol



Pan ddaw hi'n ystyriaeth o anghenion iechyd ac anghenion fferyllol, mae hyd yr arhosiad yn aml yn fwy perthnasol na hyd y ddedfryd. Dangosir hyn yn y tabl isod, lle mae 79% o drigolion presennol CEM Abertawe wedi bod yno am lai na chwe mis. Mae hyn yn gosod prif bwyslais gofal iechyd ar adnabod a rheoli anghenion iechyd cychwynnol. Mae arosiadau byr yn ei gwneud hi'n fwy anodd i godi unrhyw gyflyrau cudd neu hirdymor, yn enwedig y rhai lle bo sgrinio'n gallu bod yn anfynych.[96]

Length of Stay	Number of Prisoners	Percentage of Prisoners
Less than 1 month	73	24%
1 month to 3 months	112	37%
3 months to 6 months	58	19%
6 months to 1 year	44	14%
1 year to 2 years	18	6%
2 years to 4 years	1	0%
More than 4 years	0	0%

Mae proffil ethng trigolion CEM Abertawe yn llawer llai amrywiol na'r cyfartaledd cenedlaethol i garchardai, gydag 88% o drigolion wedi'u cofnodi gyda chefndiroedd gwyn ethnig, o'i gymharu â 72% yn genedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu'r cymunedau sy'n amgylchynu'r sefydliad.

O ran anableddau, fe ddarparodd tîm cydraddoldebau CEM Abertawe ddata a gofnodwyd yn dangos fod gan 31% o boblogaeth y carchar anabledd (Hydref 2020). Mae hyn yn is na'r anableddau hunangofnodedig (a ddatgelwyd fel rhan o Asesiad Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol CEM Abertawe) sy'n nodi anabledd ar 38%.[85]

[96] Asesiad Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol CEM Abertawe (2021)

Darparodd y tîm cydraddoldebau fwy o wybodaeth manwl am y mathau o anableddau a gofnodwyd – dangosir hyn isod. Y mathau mwyaf cyffredin oedd problemau iechyd meddwl ac anableddau amhenodol.

Disability	Number of Prisoners with the Disability	Percentage of Population
Mental Illness	57	18%
Other Disability	31	10%
Learning Difficulties (inc. dyslexia)	19	6%
Reduced Mobility	9	3%
Reduced Physical Capacity	7	2%
Dyslexia	5	2%
Other (<5 per category)	8	3%

Fe amlygwyd hefyd yn Asesiad Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol CEM Abertawe y canran o drigolion a gofnodwyd fel digartref yn ystod y flwyddyn cyn y carchariad. Ym mis Hydref 2020, roedd y ffigwr hwn yn 38%. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae digartrefedd yn un o sawl ffactor sy'n effeithio'n negyddol ar iechyd. Yn ychwanegol, er gwaethaf setiau data anghyson yn ymwneud â'r lluoedd arfog, fe all fod hyd at 9% o'r trigolion a fu'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog – canran fwy nag y gwelir mewn carchardai eraill.

Darpariaeth gofal iechyd

Ers 2015, BIP Bae Abertawe sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyflenwi gofal iechyd i CEM Abertawe. Mae'r tîm gofal iechyd yn eistedd dan y gyfarwyddiaeth nyrsio gofal sylfaenol. Cyn hynny, fe gyflogwyd staff gofal iechyd yn uniongyrchol gan CEM Abertawe. Mae gofal iechyd yn CEM Abertawe yn agored saith niwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd. SystmOne sy'n casglu data iechyd a'r hyn sy'n ymwneud ag iechyd ar gyfer CEM Abertawe.

Mae'r data diweddaraf yn nodi fod:

- Y mwyafrif o apwyntiadau 'gofal iechyd Abertawe' yn geisiadau rhagnodi.
- Mae'r data rhagnodi gan SystmOne yn dangos gostyngiad yn y nifer o feddyginiaethau a ragnodwyd (presgripsiynau a gyflenwyd) yn 2018/19 a 2019/20 o'i gymharu â blynyddoed blaenorol. Mae nifer y cleifion sy'n derbyn unrhyw feddyginiaeth hefyd wedi gostwng. Mae data'n nodi fod canran gymharol isel o gleifion wedi'u hasesu am eu priodoldeb i dderbyn meddyginiaethau yn eu meddiant (IP), gyda chofnod bod 40% o'r trigiolion mewn cipolwg ym mis Hydref 2020 wedi cael asesiad risg IP. Dydy hi ddim yn ymddangos fod asesu statws IP wedi newid

cyn ac ar ôl COVID-19. Mae meddyginiaeth IP yn lesol o ran cefnogi hunanofal, cyfrifoldeb ac annibyniaeth cleifion (a lleihau costau), ond mae'n cyflwyno risgiau yn ymwneud â dargyfeirio, bwlio a chydymffurfio â thriniaeth. Roedd gwir gyfradd rhagnodi IP yn ystod 2019/20 yn 33% yn ôl data SystmOne; cynyddodd hon i 44% yn 2020/21 hyd yma (Ebrill i Fedi), mewn ymateb i bandemig Covid-19, mae'n debyg, lle'r oedd dymuniad i sicrhau, lle bo'n ddiogel bosib, fod mwy o drigolion ar statws IP er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo o fewn y broses gweinyddu meddyginiaethau. Er gwaetha'r nifer isel o asesiadau, yn ymddangosiadol, mae gwir gyfradd statws IP yn CEM Abertawe yn uwch nag y gwelir mewn carchardai cyffelyb.

- Roedd data'n nodi fod 35% o'r cleifion a fu'n treulio amser yn CEM Abertawe rhwng Ebrill a Medi 2020 wedi cael rhagnodiad Paracetamol, a 26% wedi derbyn rhagnodiad Ibuprofen (noder nad ydy hyn yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi cael gafael â'r poenladdwyr hyn eu hunain o'r cantîn). Mae meddyginiaethau cartref (a ddefnyddir i drin mân-anhwylderau) ar gael, er yr adroddwyd fod rhestr yr eitemau a oedd ar gael wedi'i chwtogi'n arwyddocaol mewn ymateb i gyfarwyddyd gan y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn groes i'r hyn a welir mewn carchardai eraill, lle ceir tueddiad i gynyddu'r arlwy o feddyginiaethau cartref er mwyn lleihau'r baich ar ofal iechyd, gan adlewyrchu'r gymuned yn well. Does dim proses ar gyfer adolygiadau meddyginiaeth gan fferyllydd, er ei bod hi'n ymddangos fod llawer o gleifion yn derbyn meddyginiaethau lluosog.

Fel gwasanaethau Iechyd Gofal eraill yn CEM Abertawe, mae'r Fferyllfa a Rheoli Meddyginiaethau yn dod o dan y Bwrdd Iechyd er, yn ymarferol, mae'r fferyllfa'n parhau i weithredu'n annibynnol, i ryw raddau, i'r llywodraethiant gymunedol ehangach. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i wahanol opsiynau, yn bennaf er mwyn lleihau natur ynysig y gwasanaeth a'i ymgorffori'n rhan o strwythur ehangach y Bwrdd Iechyd i ychwanegu cadernid.

Yn ôl yr adroddiadau, fel arfer does dim oedi o ran trigolion yn cael mynediad i feddyginiaeth wedi iddyn nhw gyrraedd y dderbynfa, gan ddatgan fod meddyginiaethau, yn y rhan fwyaf o achosion, gyda'r carcharor erbyn y diwrnod canlynol. Mae Cyfarwyddebau Grŵp Cleifion penodol mewn grym er mwyn gallu ymateb yn chwim i faterion sydd angen sylw ar unwaith (e.e. ar gyfer Diazepam i'r rhai hynny sy'n profi'n bositif/angen cymorth gyda diddyfnu alcohol). Staff nyrsio sy'n llwyr gyfrifol am weinyddu'r meddyginiaethau, tair gwaith y dydd, yn wahanol i'r rhan fwyaf o garchardai eraill, lle mae technegwyr fferyllfa'n cael eu defnyddio amlach fel rhan o'r broses gweinyddu meddyginiaethau.

Yn gyffredinol, adroddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi fod gweinyddu meddyginiaethau, yn rhannol fel canlyniad i gyfyngiadau COVID, yn sâl ac yn achosi risgiau dianghenraid, Canfyddodd yr adroddiad broblemau systematig hefyd.

Yn ogystal â hyn, ar sail Asesiad Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol CEM, mae'r argymhellion a fydd yn effeithio ar yr Asesiad Anghenion Fferyllol fel a ganlyn:

Argymhelliad Pump – Gellid rhoi ystyriaeth i rôl posib technegwyr fferyllfa i fod yn rhan o weinyddu meddyginiaethau er mwyn lleihau'r baich ar nyrsys gofal sylfaenol ac ychwanegu cadernid i'r tîm fferyllol presennol (sy'n fach).

Argymhelliad Chwech – O gofio cymhlethdodau a breuder llawer o'r trigolion CEM Abertawe, fe ddylid cyflwyno adolygiadau dan arweiniad fferyllfa. Fe fyddai hyn yn debygol o angen adnoddau ychwanegol.

Argymhelliad Saith – Dylai gofal iechyd flaenoriaethu canfod asthma ymysg derbyniadau newydd er mwyn sicrhau cwrdd â'r angen tebygol.

Argymhelliad Wyth – Dylai bod codio Read cyson o ddata Cyflyrau Hirdymor (CHau) ar SystmOne i sicrhau bod anghenion iechyd cleifion yn cael eu cydnabod a'u cyfathrebu ac hefyd bod unrhyw Asesiadau Anghenion Iechyd yn y dyfodol yn medru pennu'r gwir angen dynodedig

Argymhelliad Naw – Fe ddylid cael fwy o strwythur yn y dull o reoli CHau yn absenioldeb y QOF, er enghraifft, gyda'r defnydd o brif nyrs a enwyd (un ai ar gyfer CHau unigol neu nyrs CH dynodedig yn gyffredinol).

Troseddwyr Ifanc a phlnat a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid

Nod statudol y system cyfiawnder ieuenctid ydy atal plant rhag troseddu. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod allan gofynion i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu i atal plant rhag troseddu ac i hyrywddo eu lles yn y dyfodol. Gall profiadau niwediol yn ystod plentyndod gael effaith arwyddocaol ar les meddyliol trwy gydol oes, gan arwain at ddeilliannau negyddol megis ymgysylltu â throseddu.[97]

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyriad Cynnar Western Bay (y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid) yn cymryd dull amlasiantaeth at droseddau ieuenctid.[98] Mae'r asiantaeth yn cynnwys staff o'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, gwasanaethau Cymdeithasol, yr Adran Addysg, Asiantaethau Camddefnydd Sylweddu a Thai.

[97] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/youth-justice-blueprint_0.pdf
[98] https://www.swansea.gov.uk/article/7401/Youth-Justice--Early-Intervention-Service

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc o 10-17 oed ag iddo 3 prif faes gwaith:

- Atal Troseddu: Mae swmp mawr o'r gwaith wedi'i ganoli ar atal plant ifanc rhag troseddu a chael eu dwyn i fewn i'r system cyfiawnder ieuenctid.
- Troseddwyr: Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi dod i sylw'r heddlu a'r llysoedd oherwydd eu troseddu. Yn dibynnu ar eu dedfryd, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid oruchwylio'r person ifanc trwy gydol eu gorchymyn. Yn ystod yr amser hwn, mae'r gwasanaeth yn edrych sut y medren nhw gynorthwyo'r person ifanc i roi'r gorau i aildroseddu.
- Diogelwch yn y Gymuned: Mae nifer fach o bobl ifanc yn parhau i aildroseddu ac mae rhai pobl ifanc yn cyflawni troseddau difrifol iawn. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am weithio gyda'r person ifanc yn ystod eu hamser yn y carchar a phan maen nhw'n cael eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned.

Mae Hillside yn gartref plant cenedlaethol, diogel, pwrpasol. Mae'r ganolfan yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol o'r ystad ddiogeledd a ddarperir yn Lloegr a Chymru. Caiff hyd at 18 person ifanc o unrhyw rywedd sydd rhwng 12 ac 17 oed letya yno.[99]

2.15 Y digartref a'r rhai sy'n cysgu allan

Digartrefedd ydy lle bo person eb lety neu pan nad ydy'u deiliadaeth yn sicr. Cysgu allan ydy'r ffurf fwyaf gweledol a niweidiol o ddigartrefedd.

Mae digartrefedd yn cynnwys unrhyw un sydd heb lety, yn methu â chael mynediad i'w llety neu nad ydy hi'n resymol iddyn nhw barhau i feddiannu eu llety. Mae hyn yn cynnwys gorlenwi, syrffio soffas, dioddefwyr trais yn y cartref neu lle bo'u llety'n adeilad symudol ac nad oes unrhyw le i'w osod.

Gall digartrefedd, neu'r risg o hynny, gael effaith dinistriol ar unigolion a theuluoedd. Mae'n effeithio ar iechyd corff a meddwl pobl, eu lles, a datblygiad ac addysg plant, ac yn agor y drws i unigolion syrthio i ddisgynfa droellog a all arwain at ffurfiau mwy dwys o ddigartrefedd. Gall yr effeithiau fod yn arbennig o ddstrywiol os na cheir datrysiad ar ffurf cartref sefydlog, fforddiadwy a bod pobl yn diweddu'n gorfod symud yn aml.[100]

---

[99] http://www.hillsidesecurechildrenshome.co.uk/

[100] Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Llywodraeth Cymru 2019 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/strategaeth-ar-ddigartrefedd_0.pdf

Diffiniad o'r rhai sy'n cysgu allan ydy personau sy'n cysgu dros nos yn yr awyr agored (megis o flaen drysau siopau,arosfannau bwysiau neu barciau) neu mewn adeiladau neu leoedd eraill sydd ddim wedi'u cynllunio ar gyfer byw (megis tyllau grisiau, sguboriau, cytiau, meysydd parcio).[101] Awdurdodau Lleol sy'n ymgymryd ag amcangyfrif o'r bobl hynny sy'n cysgu allan, gyda chymorth asiantaethau lleol trwy gyfrwng arolwg ar ffurf holiadur a chyfrif cipolwg blynyddol unnos.

Mae'r tabl yn dangos amcangyrfif o'r nifer o bobl oedd yn cysgu allan yn ôl arolwg 2 wythnos.

	Amcangyrfif o'r nifer o bobl yn cysgu allan dros gyfnod o bythefnos			
Awdurdod Lleol	2017 (b)	2018 (c)	2019 (d)	2020
Abertawe	26	33	37	13*
Castell-nedd Port Talbot	15	7	12	2**
Cymru	345	347	405	
(b) Yn seiliedig ar wybodaeth gan asiantaethau/gwasanaethau ar bersonau y tybid eu bod yn cysgu allan dros gyfnod o 2 wythnos rhwng 16 a 29 Hydref 2017.				
(c) Yn seiliedig ar wybodaeth gan asiantaethau/gwasanaethau ar bersonau y tybid eu bod yn cysgu allan dros gyfnod o 2 wythnos rhwng 15 a 28 Hydref 2018.Amcangyfrif o'r nifer o bobl yn cysgu allan dros gyfnod o 2 wythnos				
(d) Yn seiliedig ar wybodaeth gan asiantaethau/gwasanaethau ar bersonau y tybid eu bod yn cysgu allan dros gyfnod o 2 wythnos rhwng 14 a 27 Hydref 2019.				
** ni chynhaliwyd cyfrif Cymru gyfan swyddogol oherwydd y pandemig; fodd bynnag, cwblhawyd ymarferiad lleol ar y rhai hynny y gwyddys eu bod wedi cysgu allan yn ystod cyfnod tebyg o 2 wythnos yn Hydref*				
*** ni chynhaliwyd cyfrif (monitro mewnol)*				

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd yn y 2 wythnos rhwng Hydref 14eg a'r 27ain, 2019 gan asioantaethau lleol, sefydliadau iechyd a grwpiau cymunedol eraill sydd mewn cysylltiad â'r rhai sy'n cysgu allan, mae awdurdodau lleol yn amcangyfrif fod 405 person yn cysgu allan trwy Gymru dros y cyfnod hwn.

Mae hyn yn gynnydd o 17 % ar y flwyddyn flaenorol (58 person) a'r cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall ers decharu'r casglu hwn. Adroddodd Abertawe, ynghyd â Wrecsam a Cheredigion, amcangyfrifon gweddol uchel, sef 37, 31 a 25 o rai'n cysgu allan dros y cyfnod hwn o 2 wythnos. O ran Abertawe, mae hyn yn dynodi cynnydd o 12 % ar y flwyddyn flaenorol.

Ni ddylid ystyried hyn fel data pendant gan mai heriol ydy ceisio mesur yn gywir yr union nifer oherwydd anawsterau ymarferol.

[101] Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan Tachwedd 2019. Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/national-rough-sleeper-count-november-2019-814.pdf

Ffigwr 2.15.1 Amcangyfrif o'r nifer o rai'n cysgu allan ar noson gyfrif 2017-2019, lawdurdod lleol, Cymru

	Amcangyfrif o'r hifer o bobl yn cysgu allan rhwng 10yh a 5yb		
Awdurdod Lleol	2017	2018	2019
Abertawe	21	18	19
Castell-nedd Port Talbot	3	2	7
Cymru	188	158	176

Ffynhonnell: Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan Tachwedd 2019. Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru

Yn 2019, riportiwyd bod 176 o unigolion yng Nghymru'n cysgu allan ar y cyfrif unnos, gydag 19 yn Abertawe a 7 yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae'r canlyniadau'n cynnig nddim mwy nag arwydd cyffredinol iawn o'r lefelau cysgu allan,gan fod ansawdd a chywirdeb yn ddibynnol ar lefelau'r rhai'n cymryd rhan o fewn pob awdurdod lleol.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014, a ddaeth i rym yng Nghymru ar 27 Ebrill 2015, yn gosod dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i sicrhau fod pobl sy'n ddigartref neu'n wynebu digartrefedd, yn derbyn cymorth cyn gynted ag y bo modd. Diffinnir person yn gyfreithiol fel un digartref os:

- Nad oes ganddyn nhw lety ar gael yn y DU na thramor
- Nad oes ganddyn nhw unrhyw hawl gyfreithiol i feddiannu'r llety
- Oes ganddyn nhw breswyl hollt ac nad oes llety ar gael i bawb yn y preswyl
- Ydy hi'n afreswymol i barhau i aros yn y llety
- Ydyn nhw mewn peryg o drais gan berson arall
- Nad ydyn nhw'n gallu sicrhau mynediad i'w llety
- Ydyn nhw'n byw mewn adeilad symunol ond nunlle i'w osod

Mae person dan fygythiad digartrefedd os ydyn nhw:

- Yn debygol o fod yn ddigartref o fewn 56 niwrnod
- Wedi cael eu cyflwyno â rhybudd Adran 21 dilys sy'n dod i ben yn y 5 niwrnod nesaf

Fel ar 31ain Mawrth 2020, cafwyd bod 2,325 o breswylwyr wedi'u gosod mewn llety dros dro ledled Cymru. Mae hyn yn gynnydd o 4% ar 31ain Mawrth 2019, a'r ffigwr uchaf a gofnodwyd ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth bresennol yn Ebrill 2015.

Ffigwr 2.15.2 Preswylwyr digartref mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2020

	Nifer y preswylwyr mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2020	Amcangyfrifon o breswylwyr canol-blwyddyn 2019	Cyfradd o bob 10,000 preswylydd
Abertawe	96	109524	8.8
Castell-nedd Port Talbot	84	62317	13.6
Cymru	2325	1368708	17.0
(a) Mae niferoedd y preswylwyr mewn llety dros dro wedi'u crynhoi i'r 3 agosaf. Mae cyfraddau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio niferoedd heb eu crynhoi (heb eu dangos yn y tabl hwn)			

Ffigwr 2.15.3 Preswylwyr yn ardal BIP Bae Abertawe sydd dan fygythiad digartrefedd o fewn 56 niwrnod, 2019-20 (Adran 66)

		Abertawe	Castell-nedd Port Talbot	Cymru
Preswylwyr dan fygythiad digartrefedd o fewn 56 niwrnod	Nifer	1116	633	9993
	Cyfradd (10,000 Preswylwyr)	102	102	74
Preswylwyr a ataliwyd yn llwyddiannus rhag eu gwneud yn ddigartref	Nifer	807	327	6699
	Canran	72	52	67
	Cyfradd %	74	53	49

Ffigwr 2.15.4 Preswylwyr a aseswyd fel yn ddigartref a dyletswydd i sicrhau yn ddyledus iddyn nhw , 2019-20

(Adran 73)

		Abertawe	Castell-nedd Port Talbot	Cymru
Preswylwyr a aseswyd fel yn ddigartref a dyletswydd i sicrhau yn ddyledus iddyn nhw	Nifer	609	546	12,399
	Cyfradd	56	88	91
Preswylwyr a ryddhawyd yn llwyddiannus o ddigartrefedd	Nifer	273	198	5088
	Canran	45	36	41
	Cyfradd	25	32	37

Ffigwr 2.15.5 Preswylwyr sy'n gymwys i ddebryn cymorth digartrefedd ag angen blaenoriaethol yn ôl Ardal a Mesur, 2019-20 (Adran 75)[102]

Preswylwyr sy'n gymwys i ddebryn cymorth digartrefedd ag angen blaenoriaethol yn ôl Ardal a Mesur, 2019-20 (Adran 75)				
		Abertawe	**Castell-nedd Port Talbot**	**Cymru**
Preswylwyr sy'n anfwriadol ddigartref ac angen blaenoriaethol	Nifer	138	96	3060
	Cyfradd	13	16	23
Preswylwyr a ryddhawyd yn gadarnhaol o ddigartrefedd	Nifer	93	96	2388
	Canran	67	100	78
	Cyfradd	9	16	18

[102] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdseligibleforhomelessnessassistanceandinpriorityneed-by-area-measure-section77

2.16 Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn ffurfio cymunedau cyfoethog, amrwyiol a gwahanol. Fodd bynnag, mae Sipsiwn a Theithwyr yn aml yn dioddef camwahaniaethu, anghydraddoldebau a diffyg cyfleoedd.

Mae Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig a Roma mudol yn grwpiau ethnig sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gellir ystyried grwpiau eraill, megis Teithwyr Newydd, fel grwpiau diwylliannol.[103]

Casglwyd gwybodaeth am Sipsiwn a Theithwyr am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2011 ac fe gafodd y Roma eu cynnwys ar restr lleiafrifoedd ethnig ar Gyfrifiad 2021.[104]

Yng Nghyfrifiad 2011, cofnodwyd 57,680 o bobl fel Sipsiwn neu Deithiwr yn Lloegr a Chymru. Roedd 2,785 o'r rheini yng Nghymru, sy'n cyfrif am lai nag 1% o'r holl boblogaeth. Cofnododd y Cyfrifiad fod 85 yn Abertawe[105] a 125 yng Nghastell-nedd Port Talbot[106].

Fel gydag unrhyw grŵp ethnig, fe fydd anghenion yn amrywio rhwng unigolion a rhwng cymunedau. Fel grŵp, mae eu hiechyd cyffredinol yn waeth nag iechyd y boblogaeth yn gyffredinol ac hefyd yn salach nag iechyd y rhai sydd ddim yn Deithwyr ac sy'n byw mewn ardaloedd cymdeithasol-ddifreintiedig (Parry et al., 2004; Parry et al., 2007). Mae eu disgwyliadau iechyd yn salach a chyfyng ydy'u defnydd o ddarpaiaethau gofal iechyd (Van Cleemput et al., 2007; Parry et al., 2007).

Mae disgwyliad oes Sipsiwn a Theithwyr sydd dros 10% yn llai na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae materion iechyd yn cynnwys disgwyliad oes is, risg marwolaeth uwch, a baich cynyddol clefydau trosglwyddadwy, afiachedd uwch o glefydau heb fod yn drosglwyddadwy, cyfraddau marwolaeth ymysg babanod uchel, cyfraddau marwolaeth ymysg mamau uchel, lefelau

[103] Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mehefin 2018 Llwodraeth Cymru
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/galluogi-sipsiwn-roma-a-theithwyr.pdf
[104] https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8531/
[105] https://www.swansea.gov.uk/2011censusswansea
[106] Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016. CBS Castell-nedd Port Talbot .
https://www.npt.gov.uk/media/5614/ldp_gtaa_final_feb16.pdf?v=20191001092952

imiwneiddio plant isel, materion iechyd meddwl, materion camddefnydd sylweddau a diabetes.[107] [108] [109] [110]

O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau fod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu'n iawn a bod yr angen a ganfyddir am safleoedd yn cael eu cwrdd. Dylid cynnal asesiadau bob 5 mlynedd. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod safleoedd addas yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol.[111]

Mae arweiniad Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi awdurdodau lleol i reoli cymunedau sipsiwn-teithwyr, yn enwedig mewn perthynas â thrwyddedu safleoedd a darpau gwasanaethau estyn allan i gefnogi cyflenwi gofal iechyd, addysg a gwasanaethau blynyddoedd cynnar.[112]

Yn Ionawr 2020, riportiwyd bod 1,092 o garafannau a 136 o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Roedd hyn yn dangos cynnydd o 4% (42 carafan) yng ngharafannau Sipsiwn a Theithwyr a 10% (12 safle) yn y nifer o safleoedd (awdurdodedig ac heb eu hawdurdodi).

O'r cyfanswm y nifer o garafannau,roedd 89% (972 carafan) ar safleoedd a awdurdodwyd, gyda 63% (614 carafan) o'r rheini ar safleoedd Awdurdod Lleol a 37% (358 carafan) ar safleoedd preifat.[113]

[107] European Commission. Roma Health Report: Health status of the Roma population. Data collection in the member states of the European Union. European Union, 2014. Marmot M, Allen J, Bell R, et al. WHO European review of social determinants of health and the health divide. The Lancet 2012; 380:1011–29.

[108] Marmot M, Allen J, Bell R, et al. WHO European review of social determinants of health and the health divide. The Lancet 2012; 380:1011–29

[109] Cook B, Wayne GF, Valentine A, et al. Revisiting the evidence on health and health care disparities among the Roma: a systematic review 2003–2012. Int J Public Health2013; 58:885–911.

[110] Smart H, Titterton M, Clark C. A literature review of the health of Gypsy/Traveller families in Scotland: the challenges for health promotion. Health Educ 2003; 103:156–65.

[111] Cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a siewmyn. Cylchlythyr 005/2018. Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cynllunio-ar-gyfer-safleoedd-sipsiwn-teithwyr-a-siewmyn-cllc-0052018.pdf

[112] Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, Llywodraeth Cymru 2015 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/managing-gypsy-and-traveller-sites-in-wales.pdf

[113] Cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr, Ionawr 2020. Datganiad Ystadegol. Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-04/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-ionawr-2020-143.pdf



Ffynhonnell: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr, Ionawr 2020. Llywodraeth Cymru

Yn Ionawr 2020, roedd gan ALl Castell-nedd Port Talbot 3 safle awdurdodedig, ac Awdurdod Lleol Abertawe 1 awdurdodedig ac un anawdurdodedig.[114]

2.16.1 Nifer carafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ar 23 Ionawr 2020

	Safleoedd awdurdodedig gyda chaniatâd cynllunio		Safleoedd anawdurdodedig heb chaniatâd cynllunio				
	Nifer y Carafannau		Nifer y carafannau ar safleoedd yn berchen gan Sipsiwn		Nifer y carafannau ar safleoedd heb fod yn berchen gan Sipsiwn		
	Awdurdod Lleol	Preifat	Goddefwyd	Ni oddefwyd	Goddefwyd	Ni oddefwyd	Pob Carafan
Abertawe	10	0	0	0	3	0	13
Castell-nedd Port Talbot	101	0	0	0	0	0	101
Cymru	614	358	31	32	46	11	1,092

Ffynhonnell: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr. Llywodraeth Cymru

Ffigwr 2.16.2 Nifer y lleiniau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar 23 Ionawr 2020

	Wedi'u meddiannu Preswyl	Yn wag Preswyl	Wedi'u meddiannu Tramwy	Yn wag Tramwy	Cyfanswm Nifer y Lleiniau
Abertawe	7	0	0	0	7
Castell-nedd Port Talbot	62	3	0	0	65
Cymru	389	14	0	2	405

Ffynhonnell: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr. Llywodraeth Cymru

Caerdydd, Sir Bnefro a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r nifer fwyaf o leiniau wedi'u darparu gan Awdurdodau Lleol (80, 75 a 65 llain yn ôl eu trefn), yn cyfrif am dros hanner cyfanswm y lleiniau (54%).

[114] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Gypsy-and-Traveller-Caravan-Count/numberofsites-by-authorisation-localauthority

2.17 Ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr

Hyd at 2001, roedd niferoedd y ceiswyr lloches a ffoaduriaid oedd yn penderfynu ymgartrefu yng Nghymru yn weddol isel o'u cymharu â rhai rhannau o'r DU. Cynyddodd nifer y ceiswyr lloches a ffoaduriaid pan ddaeth Cymru yn ardal wasgaru.

Mae amrywiol adroddiadau'n cydnabod fod gan y systemau casglu data ar gyfer y niferoedd y mudwyr wendidau, sy'n gosod cyfyngiadau ar eu dibynadwyedd. Does dim diffiniad cytûn ar gyfer 'mudwyr', sy'n gwneud hi'n anos fyth derbyn dibynadwyedd casglu data.

Ym Mehefin 2018, roedd Cymru'n gartref i 3148 o geiswyr lloches, wedi'u dosbarthu rhwng y pedair ardal wasgaru yng Nghymru, sef Caerdydd (1,458), Casnewydd (571), Abertawe (957) a Wrecsam (162). Ers dechrau Cynllun Adsefydlu Personau Bregus Syria tua diwedd 2015, mae Cymru hefyd wedi dod yn gartref i 854 o ffoaduriaid o Syria, sydd wedi'u gwasgaru rhwng pob awdurdod lleol.[115]

Fe wnaeth yr ymchwil i geisio profiadau iechyd ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru yr argymhellion canlynol.[116]

- Gwell hygyrchedd at wasanaethau, gyda gwybodaeth cyflwyniadol ysgrifenedig wedi'i chyfieithu, i hysbysu ffoaduriaiad a cheiswyr lloches am eu hawliau
- Gwell hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol ar iechyd, materion cymdeithasol a chyfreithiol yn gysylltiedig â cheisio lloches
- Gweithio i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd gan ddefnyddio dull amlasiantaeth, gyda phartneriaid, gan gynnwys y sector wirfoddol, i wneud y gorau o ran cynnig cefnogaeth i bobl sy'n ceisio noddfa, gan gynnwys ceiswyr lloches a gafodd eu gwrthod a'r rhai diymgeledd

Daeth Abertawe'n Ddinas Noddfa yn 2010. Nod mudiad Dinas Noddfa ydy adeiladu diwylliant o letygarwch a chroeso, yn enwedig i ffoaduriaid sy'n ceisio noddfa rhag rhyfel ac erledigaeth.[117] Yn 2019, cyhoeddodd Lywodraeth Cymru eu Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (Cenedl Noddfa).[118]

[115] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/darpariaeth-iechyd-a-llesiant-i-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_0.pdf
[116] The Health Experiences of Asylum Seekers and Refugees in Wales. 2019. Technical Report of the HEAR Study https://ihcc.publichealthnetwork.cymru/files/3715/5420/0776/PHW_Swansea_HEAR_Tech_Report.pdf
[117] https://swansea.cityofsanctuary.org/
[118] Cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches (cenedl noddfa). 2019 Llywodraeth Cymru. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_1.pdf

Mae cwrdd ag anghenion iechyd a gofal ceiswyr lloches yn gofyn creu diwylliant o gydweithrediad a chydberthnasau cryf, gan fod anghenion iechyd yn gymhleth ac amrywiol (Llywodrarth Cymru 2019). Mae'n bosib fod profiadau cyn gadael eu mamwlad, yn ystod y daith neu wedi cyrraedd y DU yn dylanwadu ar y rhain. Mae gofal holistaidd, sy'n canolbwyntio ar y person a chyda sensitifrwydd diwylliannol yn hanfodol i gefnogi gwytnwch a helpu addasu i fywyd yn y DU.

Mae'r Tîm Mynediad Iechyd (TMI) yn Abertawe wedi darparu gwasanaethau iechyd ac eiriolaeth i geiswyr lloches gafodd eu gwasgaru i Abertawe ers 2001. Mae rôl yTMI yn sicrhau mynediad at wasanaethau iechyd a chynhwysiant yn y gymuned yn hanfodol .Mae'r modd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu trefnu'n aml yn ddiarth i geiswyr lloches. Mae goresgyn y rhwystrau hyn yn hanfodol i ddarparu gofal effeithiol, gwella iechyd a lles, a chefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i integreiddio yn y gymuned leol.

Mae Abertawe wedi profi newidiadau arwyddocaol yn nemograffeg newydd-ddyfodiaid dros y ddeng mlynedd ddiwethaf fel canlyniad i wrthdaro mewn sawl gwlad yn y Dwyrain Canol ac Affrica. Tra bo rhai rhannau o'r Gwasanaeth Iechyd wedi gweld gostyngiad yn y defnydd o gymorth trydydd sector, mae'r gefnogaeth ar gyfer ceiswyr lloches yn Abertawe wedi tyfu, sydd wedi arwain at yr angen am gydweithrediad eang gyda gwasanaethau'r drydedd sector.

Er bod pandemig COVID-19 wedi gweld y datblygiad mewn technoleg yn fanteisiol i lawer o gleifion allu cael mynediad at wasanaethau (er enghraifft, Ask My GP), mae wedi creu rhwystr i fudwyr a cheiswyr lloches sydd, eyn ei dro, wedi gosod pwysedd ychwanegol ar wasanaethau cymorth megis Tîm Mynediad Iechyd. Fel arfer, does gan fudwyr a cheiswyr lloches fawr o sgiliau siarad Saesneg, sydd wedi golygu bod y diffyg cyswllt wyneb-yn-wyneb oherwydd y pandemig wedi cael effaith ar fynediad at wasanaethau iechyd.

2.18 Cyn-filwyr

Diffnnir cyn-filwr fel “unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf 1 diwrnod yn y Lluoedd Arfog (Rheolaidd neu Wrth-gefn), yn ogystal â morwyr y Llynges Fasnachol a physgotwyr sydd wedi gwasanaethu ar long a ddefnyddiwyd i hwyluso gweithrediadau milwrol gan y Lluoedd Arfog.”

Does dim ffynhonnell gyffredin o wybodaeth ar gyn-filwyr yng Nghymru, felly ni wyddys faint ohonyn nhw sy’n byw yng Nghymru. Mae astudiaethau’n dangos fod y rhan fwyaf o gyn-filwyr, yn gyffredinol, yn edrych ar eu cyfnod gyda’r Lluoedd fel profiad positif ac nad ydyn nhw’n dioddef effeithiau iechyd andwyol fel canlyniad i’r amser maen nhw wedi’i wasanaethu.

Fodd bynnag, i leiafrif, gall deilliannau iechyd corff a meddwl fod yn sylweddol ac fe all cymhlethdodau pellach ddod yn sgil ffactorau eraill, megis problemau ariannol a lles. Mae’r prif faterion iechyd sy’n wynebu‘r boblogaeth o gyn-filwyr yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl cyffredin (ond sydd hefyd yn cynnwys Anhwylder Straen Ôl-drawmatig (PTSD) a chamddefnydd sylweddau, gan gynnwys yfed gormod o alcohol ac, i raddau llawer llai, defnydd cyffuriau anghyfreithlon). Yn ychwnaegol. mae amser a dreuliwyd yn y Lluoedd wedi’i adnabod fel rhywbeth sy’n gysylltiedig ag anhwylderau cyhyrysgerbydol i rai cyn-filwyr.

Mae materion eraill a nodwyd fel rhai o bwys i gyn-filwyr yn cynnwys:

- Cael gafael ar dŷ addas ac atal digartrefedd
- Cymorth i gyn-filwyr gyda chyflogaeth
- Cael defnydd cyngor a gwybodaeth ariannol priodol am fudd-daliadau perthnasol
- Mynediad at wasanaethau iechyd a chymorth
- Cymorth i gyn-filwyr sydd wedi bod yn y system cyfiawnder troseddol
- Unigrwydd ac ynysrwydd
- Mynediad parod at wasanaethau i sicrhau adnabod anawsterau a thriniaeth cynnar (iechyd corfforol a meddyliol)
- Cefnogi teulu ehangach cyn-filwr

Mae ymchwil yn awgrymu fod y rhan fwyaf o bobl “ddim yn dioddef gydag anawsterau iechyd meddwl wedi gwasanaethu mewn amgylcheddau heriol iawn’. Fod bynnag, mae rhai cyn-filwyr yn wynebu materion iechyd meddwl difrifol.

Y problemau mwyaf cyffredin a brofir gan gyn-filwyr (a'r boblogaeth gyffredinol) ydy:

- Iselder
- Gorbryder
- Camddefnydd alcohol

Mae PTSD tebygol yn effeithio ar oddeutu 4% o gyn-filwyr. Pob blwyddyn, mae tua 0.1% o'r holl bobl sy'n gadael y lluoedd rheolaidd yn cael eu rhyddhau am resymau iechyd meddwl. Mae pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru wedi penodi clinigydd profiadol fel therapydd i gyn-filwyr sydd â diddordeb neu â phrofiad o broblemau iechyd (meddwl) milwrol. Bydd y therapydd cyn-filwyr yn derbyn atgyfeiriadau gan staff gofal iechyd, meddygon teulu, elusennau cyn-filwyr a hunanatgyfeiriadau gan gyn-bersonél y lluoedd. Nod sylfaenol GIG Cymru i Gyn-filwyr ydy gwella iechyd meddwl a lles cyn-filwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â gwasanaethu gyda'r lluoedd. Yr ail nod ydy i gyflawni hyn trwy ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy, hygyrch ac effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion cyn-filwyr sydd ag anawsterau iechyd meddwl a lles ac sy'n byw yng Nghymru. Mae adroddiad o 2017 gan *'Forces in Mind'* yn darparu casgliadau adolygiad o anghenion iechyd meddwl a phroblemau cysylltiol cyn-filwyr ac aelodau eu teuluoedd yng Nghymru.[119]

Canfyddodd yr adroddiad fod llawer o waith da wedi'i ddatblygu yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddar i wella'r ffordd mae mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl a phroblemau cysylltiol cyn-filwyr ac aelodau eu teuluoedd; fodd bynnag, fe wnaeth yr adroddiad hefyd nodi meysydd lle roedd angen gwaith i wella ar y darpariaethau i gwrdd ag anghenion cyn-filwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Yr angen am ffocws a chydlynu strategol o ran cynllunio/comisiynu gwasanaethau i gyn-filwyr – yn gyffredinol ac yn arbenigol – ar draws sectorau a rhanbarthau
- Yr angen i sicrhau cysondeb a gweithredu ledled Cymru Fforymau ac Eiriolwyr y Lluoedd Arfog
- Yr angen i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor/capasiti oddi fewn i wasanaethau
- Yr angen i sefydlu partneriaethau amlasiantaeth effeithiol i wella llwybrau asesu ac atgyfeirio
- Cwrdd ag anghenion cyn-filwyr sydd ag anghenion cymhleth tu hwnt, yn enwedig y rhai hynn sydd â diagnosis deuol (iechyd meddwl a chamddefnydd sylweddau) a'r rhai hynny sydd yn y system cyfianwder troseddol

[119] Forces in Mind Report 2017stigma-barriers-care-service-leavers-mental-health-problems.pdf (pcdn.co)

- Yr angen i gwrdd â'r anghenion sydd heb gael sylw ymysg cyn-filwyr a'u teuluoedd, gyda'r angen am fwy o atal, adnabod ac ymyrru cynnar o fewn gwasanaethau cyffredinol/prif ffrwd i atal pwysedd ar wasanaethau argyfwng
- Yr angen i gydnabod a darparu'n briodol am anghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol teuluoedd cyn-filwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys materion diogelwch, yn enwedig ynghylch trais yn y cartref a lles hirdymor plant

Mewn adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn 2014, 'Gwella Mynediad at Driniaethau Camddefnyddio Sylweddau i Gyn-filwyr', nodwyd mai Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau sy'n arwain ar gydlynu cynllunio, comisiynu a chyflenwi lleol ar gyfer gwasanaethau i sicrhau cwrdd ag anghenion cyn-filwyr.[120] Nododd adroddiad yn 2011 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar '*Veterans' health care needs assessment of specialist rehabilitation services in Wales'* ystod o argymhellion i gefnogi cyn-filwyr mewn perthynas â'u hiechyd ac anabledd corfforol gyda golwg ar ddarpariaeth gwasanaethau adsefydlu arbenigol.

[120] fframwaith-triniaethau-camddefnyddio-sylweddau-gwella-mynediad-at-driniaethau-camddefnyddio-sylweddau-i-gyn-filwyr.pdf (llyw.cymru)

2.19 Ymwelwyr â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yn y sir

Abertawe

Yn 2019,daeth **4.79 miliwn o ymwelwyr i Abertawe. Roedd dros 7 o bob 10 ohonyn nhw yn dychwelyd i'r ardal a mwy na hanner o'r rhain yn gyfarwydd â'r fro, gan eu bod wedi ymweld 7 gwaith neu fwy yn y 3 blynedd ddiwethaf.**[121] Ers 2015, gwelwyd cynnydd bach yng nghanran yr ymwelwyr sy'n dod o'r tu allan i Gymru ac mae bron i hanner yr holl ymwelwyr yn aros dros nos yn yr ardal. Disgrifir proffil yr ymwelwyr â Sir Abertawe isod.

- Pobl cefnog sydd â'u plant wedi gadael cartref 45 mlwydd oed neu'n hŷn
- Cyplau cefnog sydd wedi ymddeol yn gynnar 45 mlwydd oed neu'n hŷn
- Gweithwyr proffesiynol cefnog iau rhwng 25 - 45 oed
- Teuluoedd incwm canolig gyda phlant
- Busnesau a grwpiau

Castell-nedd Port Talbot

Mae data o 2016 yn nodi fod y rhan helaeth o ymwelwyr i Gastell-nedd Port Talbot yn dod o Gymru (90%), sy'n llawer uwch na'r ffigyrau ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn adlewyrchu'r canran uchel iawn o ymwelwyr dydd i'r ardal hon o'i gymharu â Chymru gyfan. Yn dilyn o hyn, mae Castell-nedd Port Tablot yn derbyn llai o ymwelwyr o'r tu allan i Gymru, o'i gymharu â phob safle yng Nghymru.

Mae gogwydd bach tuag at fwy o ymwelwyr sy'n fenywod (53%) nag ymwelwyr sy'n wrywod (47%) yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ceir gwahaniaethau amlwg ym mroffil rhywedd yn ôl lleoliad: mae'r mwyafrif o ymwelwyr â Rhaeadr Aberdulais a Pharc Margam yn fenywod (67% a 68% yn ôl eu trefn), ond ym Mharc Coedwig Afan, mae mwy o'r ymwelwyr yn wrywod (79%).

Mae Castell-nedd Port Talbot yn derbyn canran uwch o ymwelwyr ifanc rhwng 16-34 oed o'i gymharu â Chymru yn ei chyfanrwydd (31% cf. 22%). Mae hyn yn cael ei yrru gan broffil ymwelwyr o oedran iau i Barc Coedwig Afan a Pharc Margam; ym Mharc Coedwig Afan, mae 42% o ymwelwyr rhwng 16-34 oed (wedi dod i wneud defnydd o'r llwybrau seiclo a cherdded mae'n siwr). Ym Mharc Margam, pobl iau ydy oddeutu traean o'r ymwelwyr (31%), a all fod wedi'u denu i'r safle gan atyniadau megis Go Ape!, llwybrau beicio mynydd a gweithgareddau dŵr. Mewn cyferbyniad, mae Rhaeadr Aberdulais yn denu proffil oedran hŷn, gyda thros hanner yr ymwelwyr (58%) yn 55 oed a hŷn.

[121] Swansea - Tourism research and statistics [hygyrchwyd 28/05/2021]

Mae dros hanner y grwpiau ymwelwyr i ardal Castell-nedd Port Talbot yn deuluoedd gyda phlant (52% o'i gymharu â 40% ledled Cymru gyfan); mae hyn yn codi'n syweddol i 77% ym Mharc Margam. Mae'r rhan fwyaf o grwpiau teuluol yn ymweld â phlant iau. Roedd y mwyafrif llethol o ymwelwyr i Gastell-nedd Port Talbot yno am y dydd pan gawson nhw'u cyfweld (96%); mae hyn yn arwyddocaol uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 88%.[122]

Ni ragwelir y bydd anghenion iechyd y grŵp cleifion hwn yn debygol o fod yn wahanol iawn i rai poblogaeth gyffredinol ardal y Bwrdd Iechyd. Gan ei bod hi'n bosib mai dim ond am ddiwrnod neu ddau y bydden nhw yn yr ardal mae eu hanghenion iechyd yn debygol o fod fel a ganlyn:

- Trin cyflwr dwys sydd angen gweinyddu presgripsiwn
- Yr angen am ail bresgripsiwn meddyginiaeth
- Cymorth gyda hunanofal a meddyginiaeth dros y cownter
- Cyfeirio at wasanaethau iechyd eraill megis meddyg teulu neu ddeintydd

[122] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot – Adroddiad Ymchwil http://www.npt-business.co.uk/media/8468/wales-national-visitor-survey-2016-neath-port-talbot-findings.pdf?v=20190806164741 [hygyrchwyd 28/05/21]

3. Anghenion iechyd cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Mae'r data ar gyfer yr adran hon yn dod o sawl set ddata ac yn cynnig trosolwg o ddigwyddedd a chyffredinrwydd yn ôl Bwrdd Iechyd, Awdurdod Lleol a Chlwstwr Gofal Sylfaenol lle bo data ar gael.

3.1 Canser

Mae diagnosisau a chofrestriadau canser, yn ardal cyn-Fwrdd Iechyd Prfysgol Abertawe Bro-Morgannwg (BIP ABM), yn parhau i fod yn gyson â chyfartaledd Cymru; 3.049% a 3.018% yn ôl eu trefn.[123]

Mae Ffigwr 3.1.1 isod yn darparu trosolwg o gofrestriadau canser yng nghyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg yn ôl Clwstwr Gofal Sylfaenol. Ag eiithrio clystyrau Pen-y-bont ar Ogwr, yr ardaloedd hynny sydd â'r diagnosis uchaf a gofnodwyd o ganser yn ardal BIP Bae Abertawe ydy clwstwr y Cymoedd Uchaf ac Iechyd y Bae.

Ffigwr 3.1.1 Diagnosisau Canser a gofnodwyd gan Feddygon Teulu



Ffynhonnell: Porthol Gwybodaeth Ddigidol Bae Abertawe, 2018

Yn y cyfnod 2016-17 i 2018-19, mae cyffredinrwydd canser ar draws rhanbarth cyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol ABM wedi parhau i gynyddu yn unol â chyfartaledd Cymru. Yn y cyfnod o 3

[123] Data Porthol Gwybodaeth Ddigidol Bae Abertawe; 2018

blynedd, fe welodd BIP ABM gynnydd o gyfradd gyffredinrwydd o 2.7% i 3.0%, yn debyg i Gymru, a welodd gynnydd o 2.8% i 3.1%.

Ffigwr 3.1.2 Marwolaethau misol yn ôl canser, cyfrif, pob oedran, Bae Abertawe 2020-2021 o'u cymharu â chyfartaledd 2015-2019



*Mortality by underlying cause, based on date of registration. Some underlying cause categories are not available by selected breakdowns. Vertical axis scale will change depending on the selection.

Ffigwr 3.1.3 Cyfraddau marwolaeth o ganser yn ôl math o ganser BIP Abertawe Bro Morgannwg B, Personau, 2013-2017



Ffynhonnell: Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru (WCISU), Iechd Cyhoeddus Cymru, 2018

Gwelir mai canser yr ysgyfaint ydy prif achos marwolaeth.

3.2 Sgrinio

Sgrinio ydy'r broses o adnabod pobl sy'n ymddangos yn iach a all fod ar risg gynyddol o glefyd neu gyflwr. Gellir cynnig gwybodaeth, profion pellach a thriniaeth briodol iddyn nhw, i leihau eu risg ac/neu unrhyw gymhlethdodau sy'n codi o'r glefyd neu'r cyflwr.Cyflenwir rhaglenni sgrinio poblogaeth ar raddfa Cymru gyfan gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cynnwys sgrinio ar gyfer canser ceg y groth, y fron a'r coluddion, yn ogystal ag ymlediad aortaidd yn yr abdomen (YAA).[124] Mae Ffigyrau 3.2.1 i 3.2.3 yn dangos canannau sgrinio ar draws ardaloedd Clystyrau meddygon teulu yn a rdal BIP Bae Abertawe.

[124] Sgrinio - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Ffigwr 3.2.1 Canrannau Sgrinio ar gyfer y Coluddion yn ôl Clwstwr Gofal Sylfaenol, 2017-18

Canran Sgrinio'r Coluddion 2017/ 2018	Targed	Cymru	ABM	Afan	Castell-nedd	Cymoedd Uchaf	Iechyd y Bae	Iechyd y Ddinas	Cwmtawe	Llwchwr	Penderi
%	**60%**	55.7	56.2	55.4	57.2	55.8	59.4	47.5	56.1	57.6	51.7

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ffigwr 3.2.2 Canran Sgrinio ar gyfer Ceg y Groth ac Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen yn ôl Clwstwr Gofal Sylfaenol, 2018-19

Canran Sgrinio 2018/ 2019	Targed	Cymru	ABM	Afan	Castell-nedd	Cymoedd Uchaf	Iechyd y Bae	Iechyd y Ddinas	Cwmtawe	Llwchwr	Penderi
Cervical screening %	**80%**	73.2	72.1	72	72.5	71.6	74.9	64.7	73.6	75.8	71
Abdominal Aortic Aneurysm %	**80%**	80.8	82%	83.3	72.5	71.6	80.8	73.6	84	86.3	75.4

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ffigwr 3.2.3 Sgrinio'r Fron yn ôl Clwstwr Gofal Sylfaenol, 2019-20

Canran Sgrinio'r Fron 2019/20	Targed	Cymru	ABM	Afan	Castell-nedd	Cymoedd Uchaf	Iechyd y Bae	Iechyd y Ddinas	Cwmtawe	Llwchwr	Penderi
%	**70%**	72.5	72.8	71.8	75	72.9	75.8	65	72.3	73.6	70.3

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fel mae Ffigyrau 3.2.1 – 3.2.3 yn dangos:

- Ar gyfer sgrinio'r coluddion, mae ffigyrau Clystyrau Gofal Sylfaenol o dan y targed o 60%. Mae hyn yn gyson â chyfartaledd Cymru o 55.7%.
- Ar gyfer sgrinio ceg y groth, mae ffigyrau Clystyrau Gofal Sylfaenol o dan y targed o 80%. Mae hyn yn gyson â chyfartaledd Cymru o 73.2%
- Ar gyfer Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen, mae 4 o'r 8 ardal glwstwr dros y targed o 80.
- Ar gyfer sgrinio'r fron, dim ond un ardal glwstwr (Iechyd y Ddinas) sy'n syrthio o dan y targed o 70%.

Y data diweddaraf sy'n cael ei hadrodd ar gyfer pob ardal sgrinio.

3.3 Clefyd Cardiofasgwlaidd

Mae Clefyd Cardiofasgwlaidd (CCF) yn brif achos gwaeledd a marwolaeth yng Nghymru. Fe'i achosir gan anhwylderau'r galon a'r pibellau gwaed, ac mae'n cynnwys clefyd coronaidd y galon (trawiadau ar y galon), clefyd serebro-fasgwlaidd (strôc), codiad mewn pwysedd gwaed (gorbwysedd) a methiant y galon. Mae CCF yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth iechyd. Mae dros 7% o holl dderbyniadau cleifion mewnol i ysbytai yng Nghymru ar gyfer CCF.

Mae Ffigwr 3.3.1 yn dangos cyffredinrwydd clefyd coronaidd y galon ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol BIP Bae Abertawe yn 2018.Yn y tabl, mae Clystyrau'r Cymoedd Uchaf ac Afan yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Ffigwr 3.3.1 Cyffredinrwydd Clefyd Coronaidd y Galon ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol BIP Bae Abertawe Bay (2018)

Ardal / Dangosydd	Cymru	ABM	Afan	Castell-nedd	Cymoedd Uchaf	Iechyd y Bae	Iechyd y Ddinas	Cwmtawe	Llwchwr	Penderi
Cyffredinrwydd CCF %	3.7	3.8	4.0	3.8	4.1	3.1	3.4	3.6	3.7	3.5

Ffynhonnell: Yr Is-adran Gofal Sylfaenol

Methiant y Galon

Mae diagnosisau a chofrestriadau methiant y galon, yn ardal cyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg University Health Board (BIP ABM), yn parhau i aros yn gyson â chyfartaledd Cymru; 1.1% ac 1.1 yn ôl eu trefn[1].

Mae Ffigwr 3.3.2 isod yn darparu trosolwg o gofestriadau methiant y galon yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg yn ôl Clwstwr Gofal Sylfaenol. Ag eithrio Pen-y-bont ar Ogwr, y clystyrau hynny a gofnododd y diagnosisau uchaf o fethiant y galon yn ardal BIP Bae Abertawe oedd y Cymedd Uchaf a Chwmtawe.

Ffigwr 3.3.3 Diagnosisau Methiant y Galon a gofnodwyd gan feddygon teulu



Ffynhonnell: Porthol Gwybodaeth Ddigidol Bae Abertawe, 2018

Yn y cyfnod, 2016-17 i 2018-19, mae cyfradd cyffredinrwydd methiant y galon ar draws cyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol ABM wedi parhau i gynyddu yn unol â chyfartaledd Cymru. Yn y cyfnod o 3 blynedd, gwelodd BIP ABM gynnydd bychan o gyfradd cyffredinrwydd o 1.054% i 1.073%, yn debyg i Gymru, a welodd gynnydd bychan hefyd o 1.013% i 1.062%.

Strôc

Mae Ffigwr 3.3.4 yn dangos cyffredinrwydd strôc a phyliau o isgemia dros dro (TIA) ar draws Ardaloedd Clystyrau BIP Bae Abertawe ar gyfer 2018. Yn ystod yr amser hwn, roedd Clystyrau;r Cymoedd Uchaf a Chastell-nedd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Ffigwr 3.3.4 Cyffredinrwydd Srtôc a TIA ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol BIP Bae Abertawe (2018)

Dangosyd d	Cymr u	ABM	Afan	Castell -nedd	Cymo edd Uchaf	Iechy d y Bae	Iechyd y Ddinas	Cwmta we	Llwch wr
Cyffredinr wydd Strôc a TIA %	2.1	2.2	2.3	2.3	2.0	2.1	2.2	2.1	2.1

Ffynhonnell: Yr Is-adran Gofal Sylfaenol

Pwysedd Gwaed Uchel

Mae diagnosisau a chofrestriadau pwysedd gwaed uchel (gorbwysedd) yn ardal cyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol ABM, yn parhau i aros yn gyson â chyfartaledd Cymru, 15.3% a 15.7 yn ôl eu trefn[1].

Mae un ymhob 5 oedolyn yng Nghymru yn adrodd eu bod yn cael eu trin am bwysedd gwaed uchel (gorbwysedd) ac mae llawer iawn mwy sydd heb gael diagnosis nac wedi derbyn

triniaeth. Pwysedd gwaed uchel ydy un o'r prif ffactorau risg o ran marwolaethau cynnar ac anabledd yng Nghymru.[125]

Yng Nghymru, mae bron i 1 o bob 5 person heb gael cynnig triniaeth wedi derbyn diagnosis pwysedd gwaed uchel at lefelau targed. Mae triniaeth ar gyfer pwysedd gwaed uchel yn lleihau'n arwyddocaol y risg o drawiad ar y galon, strôc, methiant y galon a marwolaeth o bob achos. Mae pob 10 mmHg o ostyngiad mewn pwysedd gwaed systolig yn lleihau'r risg o ddigwyddiadau cardiofasgwlaidd sylweddol o 20%. Mae triniaeth yn effeithiol iawn o ran gostwng pwysedd gwaed a gwella deilliannau.

Prin bod pwysedd gwaed yn achosi symptomau ac mae ei ganfod yn ddibynnol yn bennaf ar brofi oportiwnistaidd neu ddangosiad hwyr gan unigolion sydd â chyflyrau neu gmhlethdodau'n ymwneud â pwhysedd gwaed uchel. Mae diagnosis pwysedd gwaed uchel yn dibynnu ar fesur, ond gellid gwell technegau mesur ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd.

Er gwaethaf gostyngiad dramatig yng nghyfraddau marwolaethau Clefyd Coronaidd y Galon (CCG) dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, mae CCG yn parhau i fod yn brif achos unigol marwolaeth yng Nghymru, gyda 3,821 o farwolaethau yn 2017. Mae gan Gymru gyffredinrwydd uwch o CCG (3.7%) na'r DU yn ei chyfanrwydd (3.3%) ac roedd mwy na 14, 220 o dderbyniadau i ysbytai gyda CCG yng Nghymru yn 2017/18.

Mae Ffigwr 3.3.5 yn dangos y marwolaethau misol yn ôl cylchrediad, cyfrif, pob oed, Bae Abertawe 2020-21 o'u cymharu â chyfartaledd 2015-19.

[125] Global Burden of Disease study, The Lancet (2020), cyfrol 396, Rhif 10258

Ffigwr 3.3.5 Marwolaethau misol yn ôl achos sylfaenol: cylchredol, cyfrif, pob oed, Bae Abertawe, 2020 -21 o'u cymharu â chyfartaledd 2015 -2019



Mae risg person o ddatblygu CCG yn cynyddu'n arwyddocaol os ydy'r person yn smygu, dros eu pwysau neu'n ordew, â phwysedd gwaed uchel (gorbwysedd), lefel cholesterol uchel, ddim yn ymarfer yn rheolaidd, â diabetes neu bod hanes yn y teulu o glefyd y galon. Mae gan Gymru cyffredinrwydd uchel o'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â CCG a chlefyd cardiofasgwlaidd, sy'n arwian at gyffredinrwydd uwch o drawiadau ar y galon, strôcs a methiant y galon.

Mae'r ffactorau risg ar gyfer CCG yn addasadwy ac, yn gyffreinol, mae modd atal CCG cynamserol, gan fod dylanwad tlodi a phenderfynyddion iechyd economaidd-gymdeithasol yn ddylanwadau arwyddocaol. O gofio fod llawer o bobl sy'n cyflwyno â CCG wedi bod â'r clefyd ers blynyddoedd cyn cyflwyno, yr her ydy adnabod pobl sydd â risg uchel o ddatblygu CCG neu â CCG wedi'i brofi a chynnig cyngor ffordd o fyw cynhwysfawr a thriniaeth briodol iddyn nhw.

Mae ddifyg triniaeth yn cynyddu risgiau morbidrwydd, marwolaeth a chyfnodau yn yr ysbyty i bob sydd â CCG.

Mae Ffigwr 3.3.6 isod yn darparu trosolwg o gofrestriadau gorbwysedd yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol ABM yn ôl Clystyrau Gofal Sylfaenol. Yr ardaloedd hynny oedd â'r diagnosisau gorbwysedd uchaf i'w cofnodi, yng Nghlystyrau BIP Bae Abertawe, oedd y Cymoedd Uchaf ac Afan.

Ffigwr 3.3.6 Diagnosisau gorbwysedd a gofnodwyd gan feddygon teulu



Ffynhonnell: Porthol Gwybodaeth Ddigidol Bae Abertawe (2018)

3.4 Diabetes

Ceir 2 brif fath o ddiabetes, math 1 a math 2, a'r olaf ydy'r un mwyaf cyffredin o lawer. Mae diabetes Math 1 yn anhwylder awto-imiwn sydd fel arfer yn ymddangos yn ystod plentyndod ac sy'n gofyn cael ei reoli gydol oes er mwyn osgoi deilliannau iechyd gwael.

Mae gan bobl sydd â diabetes math 2 gyfraddau uchel o glefyd coronaidd y galon a strôc. Ymysg cymhlethdodau eraill diabetes, ceir methiant yr iau/afu, clefyd y llygaid a phroblemau cylchrediad a niwrolegol yn y droed a'r goes. Mae diabetes math 2 yn fwy cyffredin mewn cymunedau difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol ac ymysg pobl Ddu ac Asiaidd.

Yn ôl Diabetes UK, Cymru sydd â'r cyffredinrwydd uchaf o ddiabetes yn y DU, gyda mwy na 209,000 o bobl, neu 8% o'r boblogaeth, yn byw gyda diabetes. Mae'r niferoedd yn codi pob blwyddyn, gyda 10,695 yn fwy o bobl wedi derbyn diagnosis yn 2020. Mae amcangyfrifon yn awgrymu fod 65,501 yn fwy fyth o bobl sydd â math 2 ond heb eto gael diagnosis, ac y gall bod 580,000 yn ychwaneg o bobl â risg posib o ddatblygu diabetes math 2.[126]

Roedd diagnosisau a chofrestriadau diabetes yn ardal hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg (BIP ABM), ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru: 6.21 a 6.03 yn ôl eu trefn.[1]

[126] https://www.diabetes.org.uk/in_your_area/wales/diabetes-in-wales [hygyrchwyd 25/05/21]

Mae Ffigwr 3.4.1 yn dangos cyffredinrwydd Diabetes ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol BIP Bae Abertawe yn 2018. Mae Clwstwr Afan yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.5% ac mae'r Cymoedd Uchaf hefyd yn uwch na Chyfartaledd Cymru o 0.8%.

Ffigwr 3.4.1 Cyffredinrwydd Diabetes ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol BIP Bae Abertawe (2018)

Ardal / Dangosydd			Cymru	ABM	Afan	Castell-nedd	Cymoedd Uchaf	Iechyd y Bae	Iechyd y Ddinas	Cwmtawe	Llwchwr	Penderi
Cyffredinrwydd Diabetes %			6.0	6.2	7.5	6.6	6.8	4.3	6.2	6.3	5.8	6.4

Ffynhonnell: Yr Is-adran Gofal Sylfaenol

Mae atal diabetes math 2 trwy leihau ffactorau risg addasadwy yn brif nod darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae i ymyriadau o'r fath y fantais ychwanegol o leihau risg cyflyrau cronig eraill megis clefyd cardiofasgwlaidd a resbiradol. Mae cyffredinrwydd diabetes math 2 yn uwch mewn ardaloedd o'r amddifadedd mwyaf ac ymysg cymunedau ethnig lleiafrifol. Fe ddylid dynodi gwasanaethau i leihau'r anghydraddoldeb iechyd hwn. Mae hunanreolaeth diabetes effeithiol yn hanfodol, felly mae gwybodaeth, addysg wedi'i strwythuro ac ymrymusiad yn hanfodol i alluogi hyn.

Mae gan bron i 17% o gleifion mewnol ysbytai ddiabetes ac mae gofyn i ysbytai fod yn amgylchfydoedd diogel i bobl gyda diabetes, yn rhydd o niwed a chyfyngu ar hunanallu. Mae mwy o feichiogiadau'n cael eu heffeithio gan ddiabetes nag erioed o'r blaen ac mae hi'n bwysig i sicrhau fod gwasanaethau'n gallu ymdopi â hyn. Fe ddylai plant sy'n byw gyda diabetes dderbyn y gefnogaeth a'o gofal gorau posib ymhob amgylchfyd, gan gynnwys ysgolion.

3.5 Iechyd Meddwl

Rheolir iechyd meddwl gan ffactorau biolegol, seicolegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, sy'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Profiad ydy iechyd meddwl sy'n amharu ar weithrediadau o ddydd i ddydd. Gall fod o les i bobl sydd ag iechyd meddwl dderbyn rhyw ffurf ar ymyriad neu wasanaeth iechyd meddwl arbenigol. Ceir sawl math gwahanol o iechyd meddwl, gan gynnwys iselder, sgitsoffrenia a dementia.

Roedd y cyfraddau marwolaeth meddyliol ac ymddygiadol, safonedig yn ôl oedran, ar gyfer BIP ABM a Chymru yn 2017 yn 151.9 a 122.3 yn ôl eu trefn. Roedd cyfradd BIP ABM hefyd yn uwch na chyfartaledd 3 blynedd Cymru ar gyfer y cyfnod 2015-17. Y gyfradd marwolaethau meddyliol ac ymddygiadol, safonedig yn ôl oedran, i bob 100,000 o'r boblogaeth yn ardal BIP ABM oedd 138.6, mewn cymhariaeth â chyfartaledd Cymru o 115.7.[127]

Lles meddyliol

Lles meddyliol ydy'r cyflwr meddwl lle mae pobl yn medru ymdopi â straen normal bywyd tra'n bod yn gynhyrchiol a gallu cyfrannu at eu cymunedau. Mae teclyn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Lles Meddyliol yng Nghymru, yn archwilio sgorau lles meddyliol a dangosyddion lles eraill o ddata arolygon oedolion a phlant. Mae'n dangos y casgliadau canlynol gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol o Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2018.[128]

[127] https://www.healthmapswales.wales.nhs.uk/IAS/dataviews/tabular?viewId=214&geoId=107&subsetId [hygyrchwyd 27/5/2021]

[128] https://publichealthwales.shinyapps.io/LlesMeddwlYngNghymru/ [hygyrchwyd 25/5/2021]

Ffigwr 3.5.1 Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh, sgôr cyfartalog safonedig yn ôl oedran, personau o 16+oed i fyny yn ôl bwrdd iechyd, Cymru 2016/17



Ffigwr 3.5.2 Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh, yn ôl categori a bwrdd iechyd, canran safonedig yn ôl oedran, personau o 16+oed i fyny, Cymru 2016/17



Mae cymariaethau yn ôl bwrdd iechyd yn dangos mai BIP Betsi Cadwakadr oedd â'rlefelau uchaf o ymatebwyr yn adrodd lefelau uchel lle, tra bo BIP Bae Abertawe yn waeth, gan riportio'r lefel uchaf o ymatebwyr yn adrodd lles isel. Adroddodd oedolion 65 oed a throsodd lefelau uwch o les na grwpiau oedrannau iau. Roedd bron i ddwywaith mwy o ymatebwyr yn y bumed mwyaf difreintiedig yn adrodd lefelau isel o les na'r bumed lleiaf difreintiedig.

Ymdeimlad Uchel o Hunanwerth – Yn gyffredinol, dangosodd BIP Bae Abertawe ganran debyg (81.8) i Gymru (84.0). Riportiodd unigolion oedd yn byw yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot ganran uwch nag Abertawe ar 84.0. Roedd gan awdurdod lleol Abertawe un o'r sgorau graddfa gyffredinol isaf ar 81.5. Roedd grwpiau oedran 35 – 44, 65-74 a 25-34 yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad uchel o hunanwerth ar drawsCymru.

Ymdeimlad Isel o Orbryder – Yn gyffredinol, dangosodd BIP Bae Abertawe ganran is (60.3) na chyfartaledd Cymru (62.8). Trigolion Castell-nedd Port Talbot oedd â'r ganran uchaf (63.7) o fewn y rhanbarth, ffigwr uwch na chyfartaledd Cymru (62.8). Abertawe oedd yr isaf (60.0) ac yn is na Chymru (62.8).Swansea being the lowest (60.0) and lower than Wales (62.8). Grwpiau oedran 55-64, 65-74 a 75+ oedd y rhai mwyaf tebygol o fod ag ymdeimlad is o orbryder.

Ymdeimlad Uchel o Foddhâd o Fywyd – Yn gyffredinol, dangosodd BIP Bae Abertawe ganran gymharol is (79.7) na Chymru (81.3). Unigolion yn Abertawe a ddangosodd y ganran uchaf (80.4) o fewn y rhanbarth. Castell-nedd Port Talbot oedd â'r isaf (79.2). Grwpiau oedran 65-74, 25-34 ac 16-24 oedd y rhai mwyaf tebygol o fod ag ymdwimlad uchel o foddhâd.

Ymdeimlad Uchel o Hapusrwydd – Dangoswyd mai BIP Bae Abertawe oedd â'r ganran isaf (72.0) yng Nghymru ac yn is na chyfartaledd Cymru (74.7). Trigolion Abertawe a nododd y ganran uchaf (73.5) o fewn y rhanbarth ac o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (74.7). Castell-nedd Port Talbot oedd â'r isaf (69.5) ac yn is na Cymru (74.7). Grwpiau oedran 65-74 a 75+ oedd fwyaf tebygol o fod ag ymdeimlad uchel o hapusrwydd.
Ledled Cymru, daeth patrymau i'r amlwg a ddangosodd fod:

Mwy o fenywod na gwrywod yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad uchel o hunanwerth, tra bo gwrywod yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad isel o orbryder, ymdeimlad uchel o foddhâd ac ymdeimlad uchel o hapusrwydd.

Roedd y rhai hynny a ddosberthir fel y lleiaf difreintiedig yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad uchel o hunanwerth, , ymdeimlad isel o orbryder, ymdeimlad uchel o foddhâd o fywyd ac ymdeimlad uchel o hapusrwydd o'i gymharu â'r rhai hynnya welir fel y rhai mwyaf difreintiedig. Roedd hyn hefyd yn wir yn achos y rhai cyflogedig o'u cymharu â'r rhai diwaith neu'n segur, y rhai mewn iechyd da o'u cymharu â'r rhai sydd ag iechyd cyffredinol drwg iawn.

Hunanladdiad

Rhwng 2014 a 2018, roedd y gyfradd hunaladdiadau ar gyfer BIP Bae Abertawe yn 12.3 i bob 100,000 o'r boblogaeth, sy'n cyfateb i 208 marwolaeth a gofnodwyd trwy hunanladdiad. Mae hyn yn gyson â chyfartaledd Cymru o 12.3 i bob 100,000. Fodd bynnag, mae cyfradd hunanladdiadau Castell-nedd Port Talbot (CNPT) yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar 14.3 i bob 100,000, sy'n cyfateb i gyfanswm o 89 hunanladdiad a gofnodwyd, gan wneud CNPT y pedwerydd uchaf ymysg awdurdodau lleol Cymru. Y gyfradd yn Abertawe ydy 11.2 i bob 100,000, sy'n cyfateb i 119 marwolaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Dangosodd dadansoddiad pellach a ymgymerwyd yn gynnar yn 2019 fod cyfraddau hunanladdiad yn ystod 2017-18 yn uwch ymysg gwrywod na menywod yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot fel ei gilydd, sydd yn gyson â'r cyfartaledd cenedlaethol. Ymysg gwrywod, roedd cyfraddau ar eu huchaf yn y grŵp oedran 35 – 64 yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r grŵp oedran 25 – 54 yn Abertawe. Mae Ffigwr 3.4.1 yn dangos y tueddiad mewn hunanladdiadau ar draws ardledd yr awdurdodau lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Ffigwr 3.5.3 Hunanladdiadau, BIP Bae Abertawe ac Awdurdodau Lleol, 2005-09 i 2014-18



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio PHM ac MYE (Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Fel canlyniad i welliannau codio hunanladdiadau a lleihad yn rheithfarnau naratif anodd eu codio ers 2011, dylid bod yn ofalus wrth geisio dehongli cyfraddau hunaladdiadau.

Dementia

Mae dementia yn broblem iechyd cyhoeddus fawr yng Nghymru gydag oddeutu 48,487 o achosion. Yn ardal BIP Bae Abertawe, mae tua 5,607 o unigolion wedi'u cofrestru â dementia, sy'n debygol o fod yn danamcangyrfif oherwydd symptomau sydd heb eu hadnabod ac oedi yn y ddiagnosis.

Roedd cyfradd marwolaethau dementia safonedig yn ôl oed ar gyfer BIP ABM a Chymru yn 2017 yn 125.0 a 98.0 yn ôl eu trefn. Roedd cyfradd BIP ABM hefyd yn uwch na chyfartaledd 3 blynedd Cymru ar gyfer y cyfnod o 2015-17. Roedd cyfradd marwolaethau dementia safonedig yn ôl oed ar gyfer BIP ABM yn 117.0 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 94.0.

Y nifer rhagfynegol o bobl 65+ oed sydd â dementia yn ardal BIP Bae Abertawe ydy:

- Abertawe: 3,542
- Castell-nedd Port Talbot: 2,185

Mae Ffigwr 3.5.3 yn dangos cyffredinrwydd Dementia ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol yn 2018. Mae pob Clwstwr o fewn ystod cyfartaledd Cymru.

Ffigwr 3.5.3 Dementia ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol yn 2018

	Cymru	ABM	Afan	Castell-nedd	Cymoedd Uchaf	Iechyd y Bae	Iechyd y Ddinas	Cwmtawe	Llwchwr	Penderi
Cyffredinrwydd Dementia %	0.7	0.7	0.8	0.7	0.9	0.7	0.7	0.6	0.7	0.5

Ffynhonnell: Yr Is-adran Gofal Sylfaenol

Mae rhagamcanion cyffredinrwydd a digwyddedd yn dangos y bydd y niferoedd o boblsydd â dementia yn parhau i godi, yn enwedig ymysg y grŵp oedran hynaf (85 oed a throsodd). Gellir priodoli 10% o farwolaethau ymysg dynion 65 oed a throsodd a 15% o farwolaethau ymysdg merched yn yr un grŵp oedran i ddementia. Dementia hefyd ydy un o brif achosion anabledd yn ddiweddarach mewn bywyd ac yn gyfrifol am 12% o flynyddoedd yn byw gydag anabledd.[129]

[129] Van de Flier and Scheltens; 2005

Mae Ffigwr 3.5.4 yn darparu trosolwg amcangyfrif cyffredinrwydd dementia ledled Cymru yn ôl awdurdod lleol. Fel y soniwyd uchod, mae'r amcanrif yn uwch na'r hyn a geir ar gofrestr dementia oherwydd unigolion sydd heb adnabod y symptomau ac oedi yn y ddiagnosis.

Ffigwr 3.5.4 Amcanrifau o'r nifer o bobl 65 oed a throsodd sydd â dementia, 2021



Ffynhonnell: http://www.daffodilcymru.org.uk

Mae hi'n bwysig fod pobl sydd â dementia'n gallu cael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol er mwyn sicrhau diagnosis cynnar ac, wrth i'r cyflwr ddatblygu, gall trin hyd yn oed yr anhwylderau lleiaf wneud cryn wahaniaeth i les person.

O safbwynt iechyd cyhoeddus, mae hi'n bwysig cofio, er fod dementia'n effeithio ar bobl hŷn fel arfer, nad ydy'n ran annorfod o'r broses heneiddio (WHO; 2012. *Dementia: a public health priority*). Fe all, felly, fod yn agored i ymyriad sylfaenol, codi ymwybyddiaeth i leihau'r stigma a gostwng y rhwystrau i ddiagnosis cynnar a chefnogaeth i ofalwyr i leihau'r baich a gwella ansawdd bywyd. Fe fyddai hyn yn gofyn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Ffactorau risg ar gyfer clefyd fasgwlaidd, gan gynnwys diabetes, gorbwysedd canol oes, gordewdrsa canol oes, smygu a gweithgarwch corfforol
- Ymyriad ac atgyfeirio cynnar
- Darganfod a thrin symptomau ymddygiadol a seicolegol
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth hirdymor i ofalwyr

3.6 Clefyd Anadlol

Mae iechyd anadlol yn para i fod yn faich gwirioneddol i'r GIG yng Nghymru, gydag 1 ymhob 12 o bobl yn dioddef salwch anadlol. Ymysg yr agweddau mwyaf cyffredin, ceir clefyd

rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), asthma, clefydau galwedigaethol yr ysgyfaint megis clefyd y llwch, llid yr ysgyfaint a gorbwysedd yr ysgyfaint.

Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint

Ffigwr 3.6.1 Diagnosis a gofnodwyd gan Glystyrau Gofal Sylfaenol ar gyfer y cyfnod 2016-2018 ar draws cyn-Ranbarth BIP ABM



Ffynhonnell: Porthol Gwybodaeth Ddigidol Abertawe (2018)

Ffigwr 3.6.2 Trosolwg cofrestriadau COPD yn yr hen BIP ABM yn ôl Clwstwr Gofal Sylfaenol



Ffynhonnell:Porthol Gwybodaeth Ddigidol Abertawe (2018)

Mae Ffigwr 3.6.3 yn dangos cyffredinrwydd COPD ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol yn 2018. Yr ardaloedd hynny a gofnododd y diagnosisau uchaf oedd yr Afan a'r Cymoedd Uchaf.

Ffigwr 3.6.3 Cyffredinrwydd Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint yn ôl Clwstwr Gofal Sylfaenol, 2018

	Cymru	ABM	Afan	Castell-nedd	Cymoedd Uchaf	Iechyd y Bae	Iechyd y Ddinas	Cwmtawe	Llwchwr	Penderi
Cyffredinrwydd COPD (%)	2.3	2.2	2.8	2.2	2.6	1.3	2.5	2.0	1.8	2.5

Ffynhonnell: Yr -Is-adran Gofal Sylfaenol

Asthma

Mae Ffigwr 3.6.4 isod yn dangos trosolwg cyffredinrwydd asthma ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol BIP Bae Abertawe yn 2018. Mae Clystyrau Gofal Sylfaenol Castell-nedd, Llwchwr ac yn uwch na chyfartaledd Cymru.

fFigwr 3.6.4 Cyffredinrwydd Asthma yn ô Clwstwr Gofal Sylfaenol

2018	Cymru	ABM	Afan	Castell-nedd	Cymoedd Uchaf	Iechyd y Bae	Iechyd y Ddinas	Cwmtawe	Llwchwr	Penderi
Cyffredinrwydd Asthma %	7.1	7.4	7.7	8.1	7.3	6.5	7.2	6.8	8.0	7.0

Ffynhonnell: Yr -Is-adran Gofal Sylfaenol

Mae clefyd anadlol wedi'i raddio'n bumed yn nhermau gwariant holl gategorïau clefydau ac mae gwariant yn cyrraedd £400 miliwn y flwyddyn. Mae angn gwaith sylweddol i wella diagnosis asthma a COPD. Er enghraifft, dangosodd archwiliad cenedlaethol ei fod hi'n bosib nad oedd y cyflwr yn bod ar dros 25% o gleifion ar gofrestrau COPD. Fel canlyniad, mae ymdrech sylweddol wedi'i fuddsoddi i ddarparu hyfforddiant sbirometreg gyda sicrwydd ansawdd a chyfarpar safonol ledled Cymru.

Mae smygu tybaco yn para i fod yr un achos marwolaeth ataliadwy mwyaf ac er bod cyffredinrwydd smygu yn gostwng ar draws Cymru, bydd buddsoddi cyfredol mewn gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu a ariennir gan y GIG a chyflwyno deddfwriaeth i leihau dod i gysylltiad â mwg ail-law yn gymorth i wella iechyd anadlol yn barhaus.

3.7 Iechyd rhywiol

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio iechyd rhwyiol fel “cyflwr lles corfforol, emosiynol, meddyliol a chymdeithasol yn ymwneud â rhywioldeb. Mae’n fwy na dim ond absenoldeb clefyd, camweithrediad neu eiddilwch. Mae angen dull positif, llawn parch at rywioldeb a pherthnasau rhywiol ar iechyd rhywiol, yn ogystal â phosibilrwydd profiadau rhywiol pleserus a diogel, yn rhydd o orfodaeth, camwahaniaethu a thrais. Er mwyn cynnal iechyd rhywiol, mae’n rhaid parchu, diogelu a chyflawni hawliau rhywiol pob person”.[130]

[130] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy, Chwefror 2019. Adroddiad Chwarterol Cynllun Goruchwyliaeth Cymru (SWS), Ionawr 2019 (Data hyd ddiwedd Medi 2018 http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Quarterly%20Report_Jan2019_v1.pdf

Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol

Gan ei fod hi'n bosib na cheir symptomau gyda heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, dydy rhai pobl ddim yn ceisio cymorth meddygol ac felly'n parhau heb ddiagnosis. Mae stigma cymdeithasol yn parhau i fod yn gysylltiedig â salwch rhywiol, rheswm arall sydd efallai'n atal pobl rhag ceisio cyngor. Gall canlyniadau iechyd peidio â chael diagnosis a derbyn triniaeth fod yn sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys clefyd llid y pelfis, a all achosi beichiogiadau ectopig ac anffrwythlondeb, canser ceg y groth a chanserau eraill yr organau cenhedlu, hepatitis, clefyd cronig yr afu a chanser yr afu, herpes rheolaidd yr organau cenhedlu, a llid yr argaill mewn dynion.

Mae pobl ifanc rhwng 15-24 oed yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan heintiau a drosglwyddir yn rhywiol megis Clamydia.

Mae Adroddiad Chwarterol Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru [131], Gorffennaf 2019 sy'n cymharu'r cyfnod o 6 mis rhwng Hydref 2018 a Mawrth 2019 (Q4 2018-Q1 2019) gyda (Q4 2017 -Q1 2018) yn amlygu'r canlynol:

- Mwy o siffilis (22% o gynnydd), gonorea (14%), a chyfnod cyntaf herpes (7%)
- Yn codi pryder, cynnydd o 76% mewn diagnosisau siffilis mewn pobl iau na 25 mlwydd oed
- Llai o ddiagnosisau newydd o HIV (43%)

Cynyddodd diagnosisau clamydia yn ardal BIP Abertawe Bro Morgannwg.

[131] Adroddiad Chwarterol Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru Gorffennaf 2019. https://phw.nhs.wales/topics/sexual-health/sexual-health-reports/sexual-health-in-wales-surveillance-scheme-quarterly-report-july-2019/

Ffigwr 3.7.1 Canran y newid mewn diagnosisau clamydia a wnaed mewn clinigau ISH o Q4 2017- Q1 2018 i Q4 2018-Q1 2019, yn ôl presywliaeth Bwrdd Iechyd Lleol (BILl), rhywedd a rhywioldeb

BILl	Grŵp	Q4 2017-Q1 2018	Q4 2018-Q1 2019	% newid
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Benyw Gwryw* *o'r rhai Dynion sy'n cael Rhyw gyda Dynion Cyfanswm	351 251 12 582	361 278 22 639	+3% +20% +83% +10%
Cymru gyfan	Benyw Gwryw* * o'r rhai Dynion sy'n cael Rhyw gyda Dynion Cyfanswm	1939 1486 191 3425	1823 1498 204 3321	-6% +1% +7% -3%

Gwelwyd cynnydd cyffredinol o 10% mewn diagnosis Clamydia yn ardal BIP ABM, o'i gymharu a gostyngiad yng Nghymru o 3%. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ymysg dynion (+20%) a dynion sy'n cael rhyw gyda dynion (+83%).

Cynyddodd diagnosisau gonorea yn ardal BIP Abertawe Bro Morgannwg.

Ffigwr 3.7.2 Canran y newid mewn diagnosisau gonorea a wnaed mewn clinigau ISH o Q4 2017- Q1 2018 i Q4 2018-Q1 2019, yn ôl presywliaeth Bwrdd Iechyd Lleol (BILl), rhywedd a rhywioldeb

BILl	Grŵp	Q4 2017-Q1 2018	Q4 2018-Q1 2019	% newid
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Benyw Gwryw* *o'r rhai Dynion sy'n cael Rhyw gyda Dynion Cyfanswm	32 54 19 86	51 85 39 136	+59% +57% +105% +58%
Cymru gyfan	Benyw Gwryw* * o'r rhai Dynion sy'n cael Rhyw gyda Dynion Cyfanswm	218 421 232 639	222 498 279 720	+2% +18% +20% +13%

Gwelwyd cynnydd cyffredinol o 58% mewn diagnosisau yn ardal BIP ABM, o'i gymharu â chynnydd yng Nghymru o 13%. Gwelodd mwyafrif y Byrddau Iehyd gynnydd mewn diagnosisau gonorea, ond dim un mor serth â BIP ABM. Cofnodwyd y cynnydd mwyaf ymysg dynion sy'n cael rhyw gyda dynion (105%).

Dylid bod yn wyliadwrus wrth ddadansoddi tueddiadau'r Byrddau Iechyd, gan fod cyflawnder y data'n amrywio rhwng clinigau a byrddau iechyd.

Brechlyn Feirws Papiloma Dynol (HPV)

Mae rhaglen frechu'r GIG yn cynnwys y rhaglen HPV. Mae'r brechlyn yn amddiffyn rhag 4 math o HPV (6, 11, 16 a 18). Mae'r rhain yn cynnwys mathau risg uchel ac isel sy'n gyfrifol am y mwyafrif o ganserau ceg y groth a defaid gwenerol. Dechreuwyd ar y broses o gyflwyno brechiad HPV fel rhan o amserlen cyffredin bechgyn ysgol blwyddyn 8 ym mis Medi 2019.[132]

Ffig 3.7.3 Niferoedd y plant oedd yn cyrraedd 13 oed rhwng 01/09/19 a 31/08/20 (Blwyddyn Ysgol 8) ac yn preswylio ar 30/09/20, a gafodd frechiad HPV, gyda manylion o'r cwmpas ynghylch rhyw

	Merched preswyl (n)	HPV 1 dos (n)	%	Bechgyn preswyl (n)	HPV 1 dos (n)	%
Castell-nedd Port Talbot	793	725	91.4	832	743	89.3
Abertawe	1316	1235	93.8	1391	1211	87.1
BIP Bae Abertawe	2109	1960	92.9	2223	1954	87.9
Cymru	17506	10403	59.4	18387	9814	53.4

Ffynhonnell: Plant a gafodd Frechiad yng Nghymru. Gorffennaf - Medi 2020. COVER 136: Cymru Tachwedd 2020

Mae amseriad sesiynau brechu mewn ysgolion yn amrywio trwy gydol y flwyddyn ac fe fydd y niferoedd a dderbyniodd y brechiad wedi'u heffeithio fel canlyniad i'r oedi fu yn y sesiynau brechu mewn ysgolion yn dilyn mesurau rheoli COVID-19.

[132] Plant a gafodd Frechiad yng Nghymru. Gorffennaf - Medi 2020. COVER 136: Cymru Tachwedd 2020 http://nww.immunisation.wales.nhs.uk/quarterly-cover-report-archive

Ffig 3.7.4 Niferoedd y merched yn cyrraedd 13, 14 a 15 oed rhwng 01/09/19 a 31/08/20 ac yn preswylio ar 30/09/20 a gafodd frechiad HPV

Ardal	13 mlwydd oed (2019/20) Blwyddyn ysgol 8		14 mlwydd oed (2019/20) Blwyddyn ysgol 9			15 mlwydd oed (2019/20) Blwyddyn ysgol 10		
	Merched preswyl (n)	HPV 1 dos %	Merched preswyl (n)	HPV 1 dos %	HPV 2 ddos %	Merched preswyl (n)	HPV 1 dos %	HPV 2 ddos %
Castell-nedd Port Talbot	793	91.4	807	96.2	87.9	882	94.5	91.4
Abertawe	1316	93.8	1230	93.8	89.3	1175	91.8	89.0
BIP Bae Abertawe	2109	92.9	2037	94.7	88.8	1997	92.9	90.0
Cymru	17506	59.4	17125	88.8	52.6	16883	89.7	84.5

Ffynhonnell: Plant a gafodd Frechiad yng Nghymru. Gorffennaf - Medi 2020. COVER 136: Cymru Tachwedd 2020

Beichiogi yn yr arddegau

I rai pobl ifanc, mae dod yn riant yn brofiad cadarnhaol. Fodd bynnag, i eraill, gall magu plant yn gynnar fod yn gysylltiedig â deilliannau iechyd gwaelach i'r bobl ifanc hynny a'u plant. Mae rhieni yn eu harddegau'n wynebu nifer o heriau nad ydy pobl ifanc eraill na rhieni hŷn o bosib yn eu profi. Er enghraifft, gall cyfrifoldebau magu plant olygu nad ydy mamau ifanc yn cwblhau neu'n symud ymlaen â'u haddysg.

Mae'r ffigyrau isod yn dangos fod cyfraddau beichiogi yn yr arddegau ym Mae Abertawe yn 2017 yn 24.1 i bob 1000 o ferched 15-17 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (20.2). Roedd cyfraddau Awdurdodau Lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn 24.7 a 23.1 yn ôl eu trefn.

Ffigwr 3.7.5 Beichiogi yn yr arddegau, yn ôl Bwrdd Iechyd, 2017

Rate per 1,000, females aged under 18, health boards

95% confidence interval



Area	Value	95% Confidence Interval	Count
Cwm Taf Morgannwg UHB	24.2	(20.7 to 28.1)	173
Swansea Bay UHB	24.1	(20.4 to 28.4)	145
Betsi Cadwaladr UHB	21.9	(19.2 to 24.9)	239
Cardiff and Vale UHB	18.9	(15.9 to 22.3)	138
Hywel Dda UHB	17.6	(14.4 to 21.3)	104
Aneurin Bevan UHB	17.4	(14.8 to 20.2)	168
Powys THB	12.1	(7.8 to 17.8)	25
Wales	20.2	(19.0 to 21.5)	992

Produced by Public Health Wales Observatory, using Conceptions data and MYE (ONS).
Please consult the technical guide for full details on how this indicator is calculated.

Ffigwr 3.7.6 Beichiogi yn yr arddegau, yn ôl awdurdod lleol 2017



Area	Value	95% Confidence Interval	Count
Isle of Anglesey	29.6	(20.2 to 41.8)	32
Flintshire	26.3	(20.4 to 33.4)	67
Rhondda Cynon Taf	25.7	(20.9 to 31.3)	98
Swansea	24.7	(20.0 to 30.3)	94
Merthyr Tydfil	23.6	(14.8 to 35.7)	22
Neath Port Talbot	23.1	(17.2 to 30.4)	51
Torfaen	22.9	(15.9 to 32.0)	34
Bridgend	22.1	(16.6 to 29.0)	53
Conwy	21.7	(15.4 to 29.6)	39
Newport	21.3	(16.0 to 27.7)	54
Cardiff	21.2	(17.4 to 25.6)	108
Wrexham	21.0	(15.3 to 28.1)	45
Pembrokeshire	19.3	(13.6 to 26.5)	37
Carmarthenshire	18.4	(13.9 to 24.0)	55
Caerphilly	18.0	(13.5 to 23.5)	53
Denbighshire	17.5	(11.5 to 25.7)	26
Gwynedd	16.2	(10.9 to 23.1)	30
Blaenau Gwent	16.1	(9.5 to 25.4)	18
Vale of Glamorgan	13.6	(9.2 to 19.4)	30
Powys	12.1	(7.8 to 17.8)	25
Ceredigion	12.0	(6.2 to 20.9)	12
Monmouthshire	5.7	(2.6 to 10.7)	9
Wales	20.2	(19.0 to 21.5)	992

Produced by Public Health Wales Observatory, using Conceptions data and MYE (ONS).
Please consult the technical guide for full details on how this indicator is calculated.

Yn 2018, disgynnodd y gyfradd feichiogi i rai dan18 yng Nghymru i 18.9 beichiogiad i bob 1000 o ferched 15-17 oed, fel y gwnaeth beichiogiadau yn Abertawe (18.5) a Chastell-nedd Port Talbot (19.6 i bob 1000)[133].

Mae data beichiogi dan 18 yn ôl Awdurdod Lleol yn cuddio'r gwahaniaeth mewn cyfraddau rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig o fewn y Bwrdd Iechyd.

Y gyfradd fras ar gyfer beichiogi yn yr arddegau (y rhai dan 18) yn ardal BIP Bae Abertawe ar gyfer 2018 ydy 18.9 i bob 1,000 o ferched 15-17 oed a'r cyfwng hyder 95% ydy (15.6-22.8).

3.8 Alcohol

Mae yfed alcohol wedi ymdreiddio'n ddwfn fel diwylliant yng Ngjhymru a BIP Bae Abertawe. Mae llawer o bobl yn mwynhau diodydd alcohol mewn cymedroldeb, ond mae alcohol hefyd ny gyffur sy'n arwain at ddibyniaeth, ac fe all camddefnydd sylweddau arwain at niwed arwyddocaol i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae'r rhai sydd ar risg niwed camddefnyddio alcohol yn dod o rychwant sbectrwm cymdeithas. Mae;r rhain yn cynnwys yfwyr trwm cronig, oedolion gartref yn yfed i lefelau

[133] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/conceptionandfertilityrates/bulletins/conceptionstatistics/2018#teenage-conceptions

peryglus neu niweidiol, a phlant a phobl ifanc sy'n dioddef canlyniadau camddefnydd eu rhieni o alcohol.

Mae effaith camddefnydd alcohol ar iechyd yn sylweddol. Mae mwy o bobl yn marw o achosion sy'n gysylltiedig ag alcohol na chyfuniad o ganser y fron, canser ceg y groth a haint MRSA gyda'i gilydd. Yfed gormod o alcohol ydy prif achos clefyd difrifol ar yr afu, sydd yn aml yn farwol. Yn ychwanegol, mae alcohol yn brif ffactor sy'n cyfrannau at risg canser y fron, y geg, llwnc, stumog, afu, pancreas, colon a'r rectwm. Mae syndrome alcohol ffetws hefyd yn risg i fabanod mamau sy'n defnyddio alcohol.

Yng Nghymru, mae 45% o ddynion a 34% o ferched yn cyfaddef eu bod yn yfed uwchlaw'r canllawiau a argymhellir. Alcohol ydy achos oddeutu 1,500 o farwolaethau a mwy na £1miliwn o niwed i gymdeithas.

Mae'r canllawiau presennol ar gyfer dynion a merched yn awgrymu yfed dim mwy nag 14 uned pob wythnos yn rheolaidd. BIP Bae Abertawe sydd â'r canran uchaf (21.1%), ynghyd â thrigolion ardal BIP Caerdydd a'r Fro sy'n yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir. Mae yfed yn uwch na chyfartaledd Cymru o 19%, fel y mae Abertawe (20.8%) a Chastell-nedd Port Talbot (21.3%).

Ffigwr 3.8.1 Canran yfed alcohol wythnosol ymysg oedolion yn ôl lefel yfed a bwrdd iechyd 2016/17, 2017/18



Mae bron i 22% o drigolion BIP Bae Abertawe'n nodi nad ydyn nhw'n yfed alcohol. O'i gymharu â chyfartaledd Cymru (59.9%), mae gan Swansea a Chastell-nedd Port Talbot ganran is o yfwyr cymedrol, sef 58.5% a 54.8 yn ôl eu trefn.

BIP Bae Abertawe sydd â'r canran uchaf (3.8%) o yfwyr niweidiol, o'i gymharu â byrddau iechyd eraill, tra bo gan Gastell-nedd Port Talbot y lefel uchaf o yfwyr niweidiol o holl Awdurdodau Lleol Cymru.

Goryfed trwm mewn pyliau

Mae i Gastell-nedd Port Talbot ganran ychydig yn uwch (22.1%) o or-yfwyr trwm mewn pyliau nag Abertawe (20.6%). Diffinnirr gor-yfwyr trwm mewn pyliau fel rhai sy'n yfed mwy nag 8 uned i ddynion a 6 uned i ferched ar eu diwrnod trymaf o yfed. Mae'r ddwy sir yn uwch na chyfartaledd Cymru(20.0%).

Mae goryfed trwm iawn mewn pyliau yn cael ei ddiffinio fel mwy na 12 uned i wrywod a 9 i fenywod ar eu diwrnod trymaf o yfed. Yn yr un modd, mae canran Castell-nedd Port Talbot o'r rhai sy'n riportio goryfed trwm iawn am byliau, ychydig yn uwch (12%) o'i gymharu â 10.9% yn Abertawe.

Ffigwr 3.8.2 Canran yr oedolion yn riportio yfed trwm ac yfed trwm iawn yn ôl awdurdod lleol, Cymru 2016/17- 2017/18



Derbyniadau alcohol penodol

Mae derbyniadau alcohol penodol yn mesur y nifer o dderbyniadau a achoswyd gan gyflyrau sydd wedi'u priodoli'n llwyr i alcohol. Mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar dderbyniadau ac felly gall personau gael eu cyfri sawl gwaith pan oedd sawl derbyniad o fewn y cyfnod a nodwyd.

Mae gan BIP Bae Abertawe 480 o dderbyniadau alcohol penodol i bob 100,000 o'r boblogaeth, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru gyfan (477/100,000).

Ffigwr 3.8.3 Derbyniadau Alcohol Benodol i bob 100,000 o'r boblogaeth, Cymru, awdurdodau lleol, 2017/18



Fel y gellir gweld o'r tabl uchod, ar draws 22 ardal Awdurdod Lleol, mae Abertawe'n adrodd canran fymryn yn is (471) a Chastell-nedd Port Talbot (497) canran ychydig yn fwy o dderbyniadau sy'n alcohol penodol ac a briodolir i alcohol o'u cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (477). Gwelwyd gwahaniaethau rhwng y rhywiau gyda niferoedd uwch o dderbyniadau ymysg gwrywod na benywod yn y ddwy sir (Ffigwr 3.8.3).

Ffigwr 3.8.4 Derbyniadau alcohol penodol yn ôl rhyw ac awdurdod lleol, EASR i bob 100,000, awdurdodau lleol Bae Abertawe 2017/18



Ffynhonnell: Alcohol yng Nghymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru[134]

Derbyniadau a briodolir i alcohol

Derbyniadau a bridolir i alcohol ydy derbyniadau sydd â chyflyrau neu amgylchiadau sy'n rhannol neu'n llwyr gysylltiedig â'r defnydd o alcohol yn y cyfnod derbyn o ofal. Mae'r diffiniad eang yn ystyried achosion ymhob sefyllfa diagnostig, un ai fel y priff ddiagnosis neu ddiagnosis eilaidd. Felly, mae'r dadansoddiadau'n cynrychioli unrhyw sôn am y cyflyrau neu'r amgylchiadau sydd wedi'u cysylltu'n rhannol neu'n llwyr ag alcohol.

Mae derbyniadau a briodolir i alcohol yn ardal BIP Bae Abertawe yn 1,757, sydd ychydig uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 1,743 i bob 100,000 o'r boblogaeth. Mae Castell-nedd Port Talbot (1,846, i bob 100,000) fymryn yn uwch nag Abertawe (1,722) ac hefyd uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan.

[134] Alcohol yng Nghymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru
https://publichealthwales.shinyapps.io/AlcoholyngNghymru/

Mae pob un o'r 9 fferyllfa yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth MUR (D.S. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth wedi'i ohirio oherwydd pandemig COVID-19).
Mae pob un o'r 9 fferyllfa yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth DMR.
Nid oes unrhyw fferyllfa yn yr ardal sy'n darparu gwaith addasu offer stoma na'r gwasanaeth adolygu defnydd offer. Fodd bynnag, gall cleifion ddewis p'un ai i fferyllfa gymunedol neu Gontractwr Dosbarthu Offer ddosbarthu eu presgripsiynau offer. Gall Contractwyr Dosbarthu Offer ddarparu'r ddau wasanaeth hyn i gleifion.

Deuir i'r casgliad bod yna ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau uwch i fodloni anghenion tebygol preswylwyr yr ardal.

❖ **Argaeledd gwasanaethau ychwanegol y nodwyd eu bod nhw ar gael ym mhob fferyllfa**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r gwasanaethau ychwanegol canlynol, fel rhai craidd a byddai'n anelu at gomisiynu gan bob fferyllfa.

- *Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin* – Mae 9 fferyllfa yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn.
- *Gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys* – Mae 9 fferyllfa yn cynnig y Gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys.
- *Gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw* – Mae 8 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw.
- *Gwasanaeth Cyflenwad Meddygaeth Frys* – Mae 8 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Cyflenwad Meddygaeth Frys.
- *Gwasanaeth Stopio Ysmygu (L2)* – Mae 9 fferyllfa yn cynnig Lefel 2 (cyflenwad o Therapi Disodli Nicotin (NRT))
- *Gwasanaeth Stopio Ysmygu (L3)* – Mae 7 fferyllfa yn cynnig Lefel 3 – cyflenwad o NRT a chwnsela.

Deuir i'r casgliad bod digon o ddarpariaeth ar hyn o bryd i'r gwasanaethau ychwanegol a restrwyd fodloni anghenion tebygol preswylwyr yr ardal.
Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chontractwyr fferyllol i wella darpariaeth y gwasanaethau hynny nad ydynt ar gael ar hyn o bryd ym mhob un o'r 9 fferyllfa yn yr ardal.

❖ **Agosrwydd gwasanaethau dosbarthu at feddygfeydd**

Mae gan bob un o'r 6 fferyllfa, sef y prif feddygfeydd a'r meddygfeydd cangen, o fewn yr ardal fynediad i wasanaethau fferyllol fel a ganlyn:

Lleoliad Agosaf Fferyllfa at Feddygfa	Nifer.
Fferyllfa - Cyfagos	4
Fferyllfa o fewn ¼ Milltir	1
Fferyllfa o fewn ½ Milltir	1

Deuir i'r casgliad bod lleoliad fferyllfeydd yn yr ardal yn briodol ar hyn o bryd i wasanaethu meddygfeydd a'u cleifion.

13. Ardal Afan



13.1 Ffeithiau Allweddol

- Mae Clwstwr Afan yn gwasanaethu poblogaeth (a gofrestrir â Meddyg Teulu) o 50,505 (01.04.2021), a hwn yw'r pedwerydd clwstwr mwyaf yn ôl poblogaeth yn Ardal y Bwrdd Iechyd.
  (Ffynhonnell – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)

- Mae'n 1 o 3 chlwstwr yn sir Castell-nedd Port Talbot.

- Ymhlith yr 20% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae 14 ohonynt yng Nghastell-nedd Port Talbot, a cheir 12 ohonynt yng Nghlwstwr Afan.
  (Ffynhonnell - https://wimd.gov.wales/geography/la/W06000012?lang=cy#&min=0&max=10&domain=overall)

- Mae 34 ACEHI yn yr ardal hon. Mae 5.8% o boblogaeth y clwstwr yn byw yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sydd wedi'i nodi'n ardal wledig.
  (Ffynhonnell – IMTP 2020 – 2023)

- Yn ddaearyddol, mae'r clwstwr yn cwmpasu'r ardaloedd canlynol: Glyncorrwg, Cymer, Gwynfi, Pelenna, Bryn, Cwmafan, Port Talbot, Taibach, Margam, Baglan, Gorllewin Llansawel, Gorllewin Traethmelyn, Dwyrain Traethmelyn ac Aberafan. (Ffynhonnell – IMTP Afan)

- Ar sail y twf poblogaeth arfaetheding yng Nghastell-nedd Port Talbot, a grybwyllir yn adran 2, mae rhagolwg o gynnydd o 5.91% yn y boblogaeth rhwng 2018-2043. Ar sail *preswylfa* ardal clwstwr Afan o 49,536 (yn 2018) (Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)), gallai hyn gynyddu i 52,463.

- Mae gan Glwstwr Afan tua 10,505 o bobl dros 65 oed a throsodd (20.8%) sydd yn llai na chyfartaledd Cymru o 21%.
(Ffynhonnell Sylfaenol – Amcangyfrifon poblogaeth yng nghanol 2018)
(*Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth mewn ardaloedd bach (2018)),*
Ffynhonnell Eilaidd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) – IMTP Clystyrau.

- Mae gan yr ardal clwstwr 8 Meddygfa (ac mae 1 ohonynt yn gweithredu practis cangen).

- Mae gan yr ardal 13 fferyllfa gymunedol.

- Mae 8 practis deintyddol sy'n cynnig triniaethau GIG, a 3 phractis optometrig.

- Mae 9 cartref gofal.
(Ffynhonnell – IMPT Clystyrau 2020-2023)

- Mae 4 fferyllfa yng Nghlwstwr Afan lle mae gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- Mae 1 ysbyty yng Nghlwstwr Afan; sef Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.

- Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 15.3% o bobl 3 oed a hŷn yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gallu siarad Cymraeg.
(Ffynhonnell: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census)

- Yn ôl Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Castell-nedd (2010-2026), amcangyfrifir y bydd lleiafswm o 198 o gartrefi yn cael eu hadeiladu yng Nglwstwr Afan yn ystod cyfnod pum mlynedd yr Asesiad Anghenion Fferyllol hwn o Hydref 2021 ymlaen.

Enw'r Safle	Cyfanswm yr Unedau a Amcangyfrifir	Statws Cynllunio	Nifer o gartrefi y mae disgwyl iddynt gael eu hadeiladu erbyn 2025 - 26
Glannau'r Harbwr, Port Talbot	385	Nid oes caniatâd cynllunio gan y safle	198

- Nid yw'r datblygiadau hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar anghenion fferyllol yr ardal.
  (Ffynhonnell - https://www.npt.gov.uk/media/7321/ldp_written_statement_jan16.pdf?v=20170727124344)

Nododd pob un o'r 13 fferyllfa yn Ardal Afan fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a'u lefel staffio i reoli'r galw cynyddol am wasanaethau.

13.2 Darpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol o fewn yr ardal

Mae 13 fferyllfa yn ardal Afan (gweler Map 13.2.1 – mae'r fferyllfeydd wedi'u hamlygu'n las) sy'n cael eu gweithredu gan 8 contractwr gwahanol.

Mae argaeledd gwasanaethau fferyllol o fewn Clwstwr Afan yn **2.56** i bob 10,000 o bobl, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd BIP Bae Abertawe o 2.38.

Mae 1 feddygfa ddosbarthu o fewn yr ardal (gweler Map 13.2.1 – mae'r feddygfa hon wedi'i hamlygu'n felyn), ac wrth ystyried hon ar y cyd â'r gwasanaethau fferyllol hanfodol, mae'r ratio yn codi i 2.78 i bob 10,000 o bobl.

Map 13.2.1 - Lleoliad fferyllfeydd cymunedol a'r feddygfa ddosbarthu yn ardal Afan

Lleoliad Fferyllfeydd a'r Feddygfa Ddosbarthu yng Nghlwstwr Afan



©Hawlfraint y Goron, Trwydded Arolwg Ordnans100050829/Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae disgwyl i fferyllfa fod ar agor am o leiaf 40 awr bob wythnos. Ar gyfer yr Asesiad Anghenion Fferyllol, diffiniwyd oriau gweithio arferol fel dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9:00am a 5:30pm.

Mae:

- 1 fferyllfa ar agor 7 niwrnod yr wythnos.
- 1 fferyllfa ar agor am ddiwrnodau llawn rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn.
- 6 fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, a bore dydd Sadwrn.
- 5 fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig.

O ran agor yn hwyr, mae 8 fferyllfa yn yr ardal ar agor ar ôl 5.30pm ar ddyddiau'r wythnos. Mae 1 fferyllfa ar agor am 8.30am, ac mae 12 fferyllfa ar agor am 9.00am. Gellir gweld manylion llawn ar amserau agor fferyllfeydd yn **Atodiad L**.

Fel y gwelir ar Fap 13.2.2, mae 9 o'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gyda'r dwysedd poblogaeth uchaf. Mae sawl fferyllfa mewn ardaloedd fel Taibach a Thraethmelyn sy'n cynorthwyo'r boblogaeth ddwys yn yr ardaloedd hyn.

Mae 2 fferyllfa wedi'u lleoli mewn ardaloedd gyda dwysedd poblogaeth isel, ond gydag ardaloedd helaeth o boblogaeth is, maent wedi'u lleoli'n ddelfrydol er mwyn gwasanaethu anghenion y gymuned wledig hon.

Map 13.2.2 - Lleoliad y fferyllfeydd o gymharu â dwysedd poblogaeth yn ardal Afan

Dwysedd Poblogaeth ACEHI Afan yn ôl y boblogaeth a gofrestrir â Meddyg Teulu

Ffynhonnell: System Caerwysg Ebrill 2020



©Hawlfraint y Goron, Trwydded Arolwg Ordnans 100050829/Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Map 13.2.3 yn dangos yr ardaloedd o'r ardal y gallwch gyrraedd fferyllfa o fewn taith 5, 10, 15 ac 20 munud ohonynt. Mae hyn yn tystio bod yr holl breswylwyr sy'n byw yn ardal Afan yn gallu cael mynediad i fferyllfa ymhell o fewn yr amser gyrru safonol o 20 munud a osodwyd ar gyfer yr amser mynediad mwyaf posibl i wasanaethau Fferyllol.

Map 13.2.3 - Amseroedd gyrru i fferyllfa yn Ardal Afan.

Fferyllfeydd/Safleoedd Dosbarthu yn ardal Afan



©Hawlfraint y Goron, Trwydded Arolwg Ordnans 100050829/ Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, cafodd 98% o'r holl bresgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2019/20 gan Feddygon Teulu'r sir eu dosbarthu gan fferyllfeydd o fewn yr ardal.
Mae gan yr ardal 13 fferyllfa.
Mae 11 o'r 13 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau (DMR). Yn ystod 2019/20, roedd 11 fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth a chynigiwyd 86 DMR o fwyafrif posibl o 1,820.
Mae 12 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Adolygu'r Defnydd o Feddyginiaethau (MUR). Yn ystod 2019/20, roedd 11 fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth, a chwblhawyd 2,935 MUR o fwyafrif posibl o 4,800.
Mae pob un o'r 13 fferyllfa yn cynnig y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CAS). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 3,015 o gleifion, a chynigiwyd rhwng 4 a 603 o ymgynghoriadau ar draws y 13 fferyllfa.
Mae 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Cyflenwad Meddygaeth Frys (EMS). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 572 o gleifion.
Mae 11 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys (EHC). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 557 o gleifion.

Mae 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw. Yn ystod 2019/20, cafodd 1,124 o gleifion eu brechu mewn fferyllfa.
Rhestrir 9 fferyllfa ar gyfer y gwasanaeth Wrth Gefn. Yn ystod 2019/20, dosbarthwyd 1 pecyn Wrth Gefn.
Mae 9 fferyllfa yn cynnig Cynllun Stopio Ysmygu Lefel 3. Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 270 o gleifion, triniwyd 175 o gleifion, a rhoddodd 105 o gleifion y gorau i ysmygu. Y nifer uchaf o gleifion a welwyd gan un fferyllfa oedd 41, a'r nifer isaf o gleifion a welwyd gan un fferyllfa oedd 6.
Yn 2019/20, roedd 3 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Gofal Lliniarol ychwanegol, yn unol â'r bwriad o gael o leiaf 1 fferyllfa y lleoliad.
Mae pob un o'r 13 fferyllfa a'r feddygfa ddosbarthu yn yr ardal yn dosbarthu pob math o offer, mae 2 fferyllfa yn dosbarthu gorchuddion yn unig, ac mae 1 fferyllfa nad yw'n dosbarthu offer na gorchuddion.
Mae 7 meddygfa o fewn **Ardal Afan** sy'n gweithredu ar 8 safle:

Meddygfa	**Lleoliad (Prif Leoliad/Cangen)**	**Pellter i'r Fferyllfa Agosaf**
Practis Rheoledig BIP BA	Cwmafan (P)	Fferyllfa o fewn ½ Milltir
	Cymer (C)	Fferyllfa o fewn ¼ Milltir
Meddygfa Grŵp Cwm Afan	Glyncorrwg (P)	Fferyllfa o fewn 3 Milltir *
Meddygfa Kings	Port Talbot(P)	Fferyllfa - Gerllaw
Meddygfa Mount	Port Talbot(P)	Fferyllfa o fewn ¼ Milltir
Meddygfa Riverside	Port Talbot(P)	Fferyllfa - Gerllaw
Canolfan Feddygol Rosedale (Dr Coombs)	Port Talbot(P)	Fferyllfa - Gerllaw
Canolfan Feddygol Rosedale (Dr Williams)	Port Talbot(P)	Fferyllfa - Gerllaw

Mae'r ddosbarthfa ym Meddygfa Grŵp Cwm Afan, Glyncorrwg, yn cynnig yr oriau agor canlynol ar gyfer y gwasanaeth fferyllol y mae'n ei ddarparu:

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
8.00am- 1.30pm	8.00am- 2.00pm	8.00am- 2.00pm	8.00am- 2.00pm	8.00am-11.00am 2.00pm - 6.00pm

13.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y Sir
Mae rhai preswylwyr yn ceisio cael hyd i gontractwyr y tu allan i'r ardal a thu allan i ardal y Bwrdd Iechyd er mwyn cael mynediad i wasanaethau:

- a gynigir gan gontractwyr dosbarthu offer
- sydd yn agos at eu gweithleoedd, siop neu wasanaethau y gellir ymweld â nhw am bwrpasau hamdden neu bwrpasau eraill.

Yn ystod 2019/20, cafodd ychydig dros 7% o bresgripsiynau a ragnodwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot eu dosbarthu y tu allan i'r sir. O'r rheini, cafodd 4.2% eu dosbarthu mewn fferyllfa arall o fewn ardal BIP Bae Abertawe. Cafodd 2.6% eu dosbarthu yn rhywle arall yng Nghymru gan 354 o gontractwyr gwahanol, a chafodd 0.4% eu dosbarthu y tu allan i Gymru.
Gan ystyried y gallai rhai preswylwyr ddewis i gyrchu gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal, byddai'r holl breswylwyr yn gallu cyrchu fferyllfa mewn car o fewn 20 munud i'w cartref.

13.4 Gwasanaethau eraill y GIG
Mae 1 Uned Mân Anafiadau ac 1 Ganolfan Triniaeth Tu Allan i Oriau yn Ardal Afan, ac mae'r ddwy ohonynt yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Gallai cleifion sy'n byw yn Ardal Afan gael eu gweld yng Nghanolfan Triniaeth Tu Allan i Oriau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Er iddi gael ei lleoli yn Ardal Afan, mae'r Uned Mân Anafiadau yn gwasanaethu poblogaeth gyfan BIP Bae Abertawe. Byddai angen i gleifion sydd angen gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys gyrchu'r gwasanaethau hyn yn Ysbyty Treforys.

13.5 Dewis ynghylch derbyn gwasanaethau fferyllol
Fel y gwelir yn adrannau 13.2 a 13.3, mae'r rhai sy'n byw yn y Sir ac sydd wedi cofrestru ag un o'r meddygfeydd yn gyffredinol yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn y Sir er mwyn i'w presgripsiynau gael eu dosbarthu.
Yn 2019/20, dosbarthodd 354 o gontractwyr y tu allan i BIP Bae Abertawe bresgripsiynau a ragnodwyd yn Sir Castell-nedd Port Talbot.

13.6 Bylchau yn y ddarpariaeth
Gwnaeth pob un o'r 13 fferyllfa yn ardal Afan ymateb i'r ymarfer holiadur ar gyfer Contractwyr.
Nododd pob un o'r 13 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a'u lefel staffio i reoli'r galw cynyddol am wasanaethau.
Er nad yw'n wasanaeth y GIG, mae 12 fferyllfa yn cynnig gwasanaeth casglu presgripsiynau am ddim. Wnaeth 1 fferyllfa ddim rhoi ymateb i'r cwestiwn hwn.
Mae 10 fferyllfa yn cynnig gwasanaeth trosglwyddo presgripsiynau am ddim. Mae 4 fferyllfa yn cynnig gwasanaeth trosglwyddo i gleifion ar restr ddethol o feini prawf penodol.
Gallai'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad i fferyllfa gael eu meddyginiaethau wedi'u trosglwyddo gan fferyllfa o fewn yr ardal.

Er mwyn penderfynu a oes unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol, datblygwyd cyfres o feini prawf i ddarparu mesur cyson ar draws pob un o'r 8 ardal.

- **Nifer o fferyllfeydd i bob 10,000 o bobl**

Mae argaeledd gwasanaethau fferyllol o fewn Clwstwr Afan yn 2.56 i bob 10,000 o bobl, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd BIP Bae Abertawe o 2.38.
Gan ystyried y feddygfa ddosbarthu, mae'r ratio yn codi i 2.78 i bob 10,000 o bobl.
Mae'r ardal wedi'i gwasanaethu'n dda o ran faint o fferyllfeydd sydd yno ar gyfer gwasanaethau fferyllol hanfodol, ac ni nodir unrhyw anghenion ychwanegol ar sail y ddarpariaeth gyfredol.

- **Nifer o fferyllfeydd sydd ar agor yn ystod oriau gweithio arferol**

[Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9.00am-5.30pm]

Mae 13 fferyllfa yn ardal Afan.

- Mae 1 fferyllfa ar agor 7 niwrnod yr wythnos.
- Mae 1 fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Sadwrn.
- Mae 6 fferyllfa ar agor am ddiwrnodau llawn, ddydd Llun i ddydd Gwener, a boreau Sadwrn.
- Mae 5 fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig.

Mae mynediad da i fferyllfeydd o fewn oriau gweithio arferol yn ardal Afan.

- **Nifer o fferyllfeydd sydd ar agor y tu allan i oriau gweithio arferol ar ddyddiau'r wythnos**

[Ar ôl 5.30pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener]

O ran agor yn hwyr, mae:

- 6 fferyllfa ar agor tan 6.00pm ar ddyddiau'r wythnos, ac mae 1 fferyllfa ar agor tan 10.30pm.

Mae mynediad da i fferyllfeydd o fewn oriau gweithio arferol yn ardal Afan.

- **Nifer o fferyllfeydd sydd ar agor ar benwythnosau**

Wrth ystyried mynediad i wasanaethau hanfodol, nodwyd bod:
8 fferyllfa ar agor naill ai am hanner dydd neu am ddiwrnod llawn ar ddydd Sadwrn.
Mae 6 fferyllfa ar agor foreau yn unig.

- Mae 2 fferyllfa ar agor am ddiwrnod llawn ddydd Sadwrn.
- Mae 3 fferyllfa ar agor ddydd Sul. Mae 1 fferyllfa ar agor rhwng 10.00am a 4.00pm. mae 1 fferyllfa ar agor rhwng 11.00am a 2.00pm. Mae 1 fferyllfa ar agor rhwng 5.00pm a 6.00pm.

Fferyllfa	Dydd Sadwrn	Dydd Sul
Fferyllfa AD Richards, Cwmafan	Ar agor am hanner dydd	Ar gau
Fferyllfa Boots Aberafan, Port Talbot	Ar agor am ddydd llawn	10am -4pm
Fferyllfa Lloyds, Port Talbot Canolfan Adnoddau, Port Talbot	Ar agor am ddydd llawn	Rota ddydd Sul 11.00am i 2.00pm
Fferyllfa Well, Ffordd Victoria, Port Talbot	Ar gau	Rota ddydd Sul 5.00pm i 6.00pm
Fferyllfa Lloyds Ffordd Morrison, Port Talbot	Ar agor am hanner dydd	Ar gau
Fferyllfa Lloyds Rhodfa'r Gorllewin, Port Talbot	Ar agor am hanner dydd	Ar gau
Fferyllfa Lloyds Heol Marsh, Port Talbot	Ar agor am hanner dydd	Ar gau
Fferyllfa Taibach Taibach	Ar agor am hanner dydd	Ar gau
Williams and Wheeler, Taibach	Ar agor am hanner dydd	Ar gau

Mae lleoliad fferyllfeydd ar draws yr ardal, a'r amser teithio o ddim mwy nag 20 munud mewn car, yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd ar gyfer mynediad yn Adran 5.1.1 o uchafswm amser teithio o 20 munud. Er nad oes gan bob person fynediad i gar, mae natur yr ardal yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn ddewis realistig i rai preswylwyr. Bydd angen i'r rhai sy'n byw y tu allan i'r prif drefi ddibynnu ar drafnidiaeth ar gyfer y rhan fwyaf o'u hanghenion beunyddiol.
Gan nodi oriau agor y fferyllfeydd presennol, deuir i'r casgliad eu bod yn ddigonol i fodloni anghenion tebygol preswylwyr yn yr ardal.

- **Argaeledd gwasanaethau uwch**

Mae 12 fferyllfa yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth MUR (D.S. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth wedi'i ohirio oherwydd pandemig COVID-19).
Mae 12 fferyllfa yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth DMR.
Nid oes unrhyw fferyllfa yn yr ardal sy'n darparu gwaith addasu offer stoma na'r gwasanaeth adolygu defnydd offer. Fodd bynnag, gall cleifion ddewis p'un ai i fferyllfa gymunedol neu Gontractwr Dosbarthu Offer ddosbarthu eu presgripsiynau offer. Gall Contractwyr Dosbarthu Offer ddarparu'r ddau wasanaeth hyn i gleifion.
Deuir i'r casgliad bod yna ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau uwch i fodloni anghenion tebygol preswylwyr yr ardal.

- **Argaeledd gwasanaethau ychwanegol y nodwyd eu bod nhw ar gael ym mhob fferyllfa**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r gwasanaethau ychwanegol canlynol, fel rhai craidd a byddai'n anelu at gomisiynu gan bob fferyllfa.

- *Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin* – Mae pob un o'r 13 fferyllfa yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn.
- *Gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys* – Mae 11 fferyllfa yn cynnig y Gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys.
- *Gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw* – Mae 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw.
- *Gwasanaeth Cyflenwad Meddygaeth Frys* – Mae 11 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Cyflenwad Meddygaeth Frys.
- *Gwasanaeth Stopio Ysmygu (L2)* – Mae 11 fferyllfa yn cynnig Lefel 2 (cyflenwad o Therapi Disodli Nicotin (NRT))
- *Gwasanaeth Stopio Ysmygu (L3)* – Mae 9 fferyllfa yn cynnig Lefel 3 – cyflenwad o NRT a chwnsela.

Deuir i'r casgliad bod digon o ddarpariaeth ar hyn o bryd i'r gwasanaethau ychwanegol a restrwyd fodloni anghenion tebygol preswylwyr yr ardal.
Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chontractwyr fferyllol i wella darpariaeth y gwasanaethau hynny nad ydynt ar gael ar hyn o bryd ym mhob un o'r 13 fferyllfa yn yr ardal.

❖ Agosrwydd gwasanaethau dosbarthu at feddygfeydd

Mae gan bob un o'r 8 meddygfa, sef y prif feddygfeydd a'r meddygfeydd cangen, o fewn yr ardal fynediad i wasanaethau fferyllol fel a ganlyn:

Lleoliad Agosaf Fferyllfa at Feddygfa	Nifer.
Fferyllfa - Cyfagos	4
Fferyllfa o fewn ¼ Milltir	2
Fferyllfa o fewn ½ Milltir	1
Fferyllfa o fewn 3 Milltir*	1

Deuir i'r casgliad bod lleoliad fferyllfeydd yn yr ardal yn briodol ar hyn o bryd i wasanaethu meddygfeydd a'u cleifion.

*Nodwyd bod Meddygfa Grŵp Cwm Afan, Glyncorrwg, yn feddygfa ddosbarthu gyda darpariaeth fferyllol ar y safle.

14. Ardal Castell-nedd



14.1 Ffeithiau Allweddol

- Mae Clwstwr Castell-nedd yn gwasanaethu poblogaeth (a gofrestrir â Meddyg Teulu) o 56,669 (01.04.2021), a hon yw'r ardal ail fwyaf yn ôl poblogaeth yn Ardal y Bwrdd Iechyd.
  (Ffynhonnell – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)

- Mae'n 1 o 3 chlwstwr yn sir Castell-nedd Port Talbot.

- Ymhlith y 20% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae 14 ohonynt yng Nghastell-nedd, a cheir 9 ohonynt yng Nghlwstwr Castell-nedd.
  (Ffynhonnell - https://wimd.gov.wales/geography/la/W06000012?lang=cy#&min=0&max=10&domain=overall)

- Mae 35 ACEHI yn yr ardal hon. Mae 0.3% o boblogaeth y clwstwr yn byw yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sydd wedi'i nodi'n ardal wledig.
  (Ffynhonnell – IMTP 2020 – 2023)

- Yn ddaearyddol, mae'r clwstwr yn cwmpasu'r ardaloedd canlynol: Aberdulais, Bryncoch, Llangatwg, Tonna, Cimla, Castell-nedd, Dwyrain Llansamlet, Gorllewin

Coedffranc, Canol Coedffranc, Gogledd Coedffranc a Dyffryn.
(Ffynhonnell – IMTP Castell-nedd)

- Ar sail y twf poblogaeth arfaethedig yn Abertawe, a grybwyllir yn adran 2, mae rhagolwg o gynnydd o 5.91% yn y boblogaeth rhwng 2018-2043. Ar sail *preswylfa* ardal clwstwr Castell-nedd o 51,215 (yn 2018) (Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)), gallai hyn gynyddu i 54,242.

- Mae gan Glwstwr Castell-nedd tua 10,940 o bobl dros 65 oed a throsodd (18.7%), sydd yn llai na chyfartaledd Cymru o 21%.
(Ffynhonnell Sylfaenol – Amcangyfrifon poblogaeth yng nghanol 2018)
(*Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth mewn ardaloedd bach (2018)),*
Ffynhonnell Eilaidd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) – IMTP Clystyrau.

- Mae gan yr ardal clwstwr 8 Meddygfa.

- Mae gan yr ardal 10 fferyllfa gymunedol.

- Mae 4 practis deintyddol sy'n cynnig triniaethau GIG, a 5 practis optometrig.

- Mae 11 cartref gofal.

- Nid oes unrhyw fferyllfeydd yng Nghlwstwr Castell-nedd a all gynnig gwasanaethau fferyllol drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 15.3% o bobl 3 oed a hŷn yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gallu siarad Cymraeg.
(Ffynhonnell: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census)

- Yn ôl Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Castell-nedd (2010-2026), amcangyfrifir y bydd lleiafswm o 1,141 o gartrefi yn cael eu hadeiladu yng Nghlwstwr Castell-nedd yn ystod cyfnod pum mlynedd yr Asesiad Anghenion Fferyllol hwn o Hydref 2021 ymlaen.

Enw'r Safle	Cyfanswm yr Unedau a Amcangyfrifir	Statws Cynllunio	Nifer o gartrefi y mae disgwyl iddynt gael eu hadeiladu erbyn 2025 - 26
Pentref Dinesig Coed Darcy	4,000	Mae caniatâd cynllunio gan y safle	1,141

- Mae'r datblygiadau hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar anghenion fferyllol yr ardal.
  (Ffynhonnell - https://www.npt.gov.uk/media/7321/ldp_written_statement_jan16.pdf?v=20170727124344)

Nododd pob un o'r 10 fferyllfa yn Ardal Castell-nedd fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a'u lefel staffio i reoli'r galw cynyddol am wasanaethau.

14.2 Darpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal Castell-nedd

Mae 10 fferyllfa yn ardal Castell-nedd (gweler y map isod) sy'n cael eu gweithredu gan 5 contractwr gwahanol.

Mae argaeledd gwasanaethau fferyllol o fewn ardal Castell-nedd yn 1.76 i bob 10,000 o bobl, sy'n llai na chyfartaledd BIP Bae Abertawe o 2.38. Mae gan ardal Castell-nedd yr argaeledd isaf o wasanaethau fferyllol y boblogaeth o fewn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Map 14.2.1 – Lleoliad fferyllfeydd cymunedol yn ardal Castell-nedd

Lleoliad Fferyllfeydd yng Nghlwstwr Castell-nedd



©Hawlfraint y Goron, Trwydded Arolwg Ordnans100050829/Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae disgwyl i fferyllfa fod ar agor am o leiaf 40 awr bob wythnos. Ar gyfer yr Asesiad Anghenion Fferyllol, diffiniwyd oriau gweithio arferol fel dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9:00am a 5:30pm.

Mae 10 Fferyllfa yn ardal Castell-nedd.

- Mae 1 fferyllfa ar agor 7 niwrnod yr wythnos.
- Nid oes yr un fferyllfa ar agor am ddiwrnodau llawn ddydd Llun i ddydd Sadwrn.
- Mae 5 fferyllfa ar agor am ddiwrnodau llawn ddydd Llun i ddydd Gwener a bore dydd Sadwrn..
- Mae 4 fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig.

O ran agor yn hwyr:

Mae 6 fferyllfa ar agor tan 6.00pm.

Nid oes un fferyllfa yng Nghastell-nedd ar agor ar ôl 6.00pm ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, mae mynediad i wasanaethau fferyllol yn ardal gyfagos, sef ardal Afan, tan 10.30pm.

Mae 5 fferyllfa ar agor am 9.00am, ac mae 4 fferyllfa ar agor am 8.30am.

Gellir gweld manylion llawn ar amserau agor fferyllfeydd yn **Atodiad L**.

Mae Map 14.2.2 yn dangos lleoliadau'r 10 fferyllfa mewn perthynas â dwysedd poblogaeth yr ardal. Mewn ardaloedd fel Llansawel a chanol tref Castell-nedd, lle mae dwysedd poblogaeth uchel, mae yna sawl fferyllfa yno, ac mewn ardaloedd llai mae 1 fferyllfa fel arfer.

Map 14.2.2 – Lleoliad y fferyllfeydd o gymharu â dwysedd poblogaeth yn ardal Castell-nedd

Dwysedd Poblogaeth ACEHI Castell-nedd yn ôl y boblogaeth a gofrestrir â Meddyg Teulu/ Ffynhonnell: System Caerwysg Ebrill 2020



©Hawlfraint y Goron, Trwydded Arolwg Ordnans 100050829/ Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Map 14.2.3 yn dangos yr ardaloedd o'r ardal y gallwch gyrraedd fferyllfa o fewn taith 5, 10, 15 ac 20 munud ohonynt. Mae hyn yn tystio bod yr holl breswylwyr sy'n byw yn ardal Castell-nedd yn gallu cael mynediad i fferyllfa ymhell o fewn yr amser gyrru safonol o 20 munud a osodwyd ar gyfer yr amser mynediad mwyaf posibl i wasanaethau Fferyllol.

Map 14.2.3 – Amseroedd gyrru o fferyllfeydd/Safleoedd dosbarthu yn ardal Castell-nedd

Fferyllfeydd/Safleoedd Dosbarthu yn ardal Castell-nedd



©Hawlfraint y Goron, Trwydded Arolwg Ordnans 100050829/ Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, cafodd 98% o'r holl bresgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2019/20 gan Feddygon Teulu'r sir eu dosbarthu gan fferyllfeydd o fewn yr ardal.
Mae gan yr ardal 10 fferyllfa.
Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau (DMR). Yn ystod 2019/20, roedd 10 yn darparu'r gwasanaeth a chynigiwyd 230 DMR o fwyafrif posibl o 1,400.
Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Adolygu'r Defnydd o Feddyginiaethau (MUR). Yn ystod 2019/20, roedd 10 fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth, a chwblhawyd 2,919 MUR o fwyafrif posibl o 4,000.
Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn cynnig y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CAS). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 1,123 o gleifion, a chynigiwyd rhwng 3 a 276 o ymgynghoriadau ar draws y 10 fferyllfa.
Mae 8 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Cyflenwad Meddygaeth Frys (EMS). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 272 o gleifion.
Mae 9 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys (EHC). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 425 o gleifion.
Mae 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw. Yn ystod 2019/20, cafodd 542 o gleifion eu brechu mewn fferyllfa.
Rhestrir 4 fferyllfa ar gyfer y gwasanaeth Wrth Gefn. Yn ystod 2019/20, ni ddosbarthwyd unrhyw becynnau Wrth Gefn.

Mae 9 fferyllfa yn cynnig Cynllun Stopio Ysmygu Lefel 3. Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 146 o gleifion, triniwyd 106 o gleifion, a rhoddodd 66 o gleifion y gorau i ysmygu. Y nifer uchaf o gleifion a welwyd gan un fferyllfa oedd 12, a'r nifer isaf o gleifion a welwyd gan un fferyllfa oedd 1.

Yn 2019/20, roedd 2 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Gofal Lliniarol ychwanegol, yn unol â'r bwriad o gael o leiaf 1 fferyllfa y lleoliad.
Mae 1 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth profi am Feirysau a Gludir drwy'r Gwaed (BBV). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 11 o gleifion.
Mae 1 fferyllfa yn cynnig y Gwasanaeth Naloxone i'w Ddefnyddio Gartref (THNS). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 1 claf.
Mae 8 fferyllfa yn yr ardal yn dosbarthu pob math o offer, ac mae 2 fferyllfa yn dosbarthu gorchuddion yn unig.
Mae 8 meddygfa o fewn **Ardal Castell-nedd** sy'n gweithredu ar 8 safle:

Meddygfa	**Lleoliad (Prif Leoliad/Cangen)**	**Pellter i'r Fferyllfa Agosaf**
Canolfan Gofal Sylfaenol Stryd Alfred	Castell-nedd	Fferyllfa o fewn ¼ Milltir
Canolfan Iechyd Llansawel	Llansawel	Fferyllfa - Gerllaw
Meddygfa Castle	Castell-nedd	Fferyllfa - Gerllaw
Canolfan Iechyd Ffordd Dyfed	Castell-nedd	Fferyllfa - Gerllaw
Canolfan Feddygol Sgiwen	Sgiwen	Fferyllfa - Gerllaw
Canolfan Feddygol Tabernac	Sgiwen	Fferyllfa o fewn ¼ Milltir
Gerddi Fictoria	Castell-nedd	Fferyllfa o fewn ¼ Milltir
Waterside Health Centre	Llansawel	Fferyllfa - Gerllaw

14.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal
Mae rhai preswylwyr yn ceisio cael hyd i gontractwyr y tu allan i'r ardal a thu allan i ardal y Bwrdd Iechyd er mwyn cael mynediad i wasanaethau:

- a gynigir gan gontractwyr dosbarthu offer
- sydd yn agos at eu gweithleoedd, siop neu wasanaethau y gellir ymweld â nhw am bwrpasau hamdden neu bwrpasau eraill.

Yn ystod 2019/20, cafodd ychydig dros 7% o bresgripsiynau a ragnodwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot eu dosbarthu y tu allan i'r sir. O'r rheini, cafodd 4.2% eu dosbarthu mewn fferyllfa arall o fewn ardal BIP Bae Abertawe. Cafodd 2.6% eu dosbarthu yn rhywle arall yng Nghymru gan 354 o gontractwyr gwahanol, a chafodd 0.4% eu dosbarthu y tu allan i Gymru.
Gan ystyried y gallai rhai preswylwyr ddewis i gyrchu gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal, byddai'r holl breswylwyr yn gallu cyrchu fferyllfa mewn car o fewn 20 munud i'w cartref.

14.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Nid oes Unedau Mân Anafiadau neu Ganolgan Driniaeth Tu Allan i Oriau yn Ardal Castell-nedd, ond gall cleifion sy'n byw yn Ardal Castell-nedd gyrchu'r gwasanaethau a ddarperir yn Uned Mân Anafiadau a Chanolfan Driniaeth Tu Allan i Oriau Ardal Afan. Byddai angen i gleifion sydd angen gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys gyrchu'r gwasanaethau hyn yn Ysbyty Treforys.

14.5 Dewis ynghylch derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 14.2 a 14.3, mae'r rhai sy'n byw yn y Sir ac sydd wedi cofrestru ag un o'r meddygfeydd yn gyffredinol yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn y Sir er mwyn i'w presgripsiynau gael eu dosbarthu.

Yn 2019/20, dosbarthodd 354 o gontractwyr y tu allan i BIP Bae Abertawe bresgripsiynau a ragnodwyd yn Sir Castell-nedd Port Talbot.

14.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Gwnaeth pob un o'r 10 fferyllfa yn ardal Castell-nedd ymateb i'r ymarfer holiadur ar gyfer Contractwyr.

- Nododd 9 fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol a'u lefel staffio i reoli'r galw cynyddol am wasanaethau. Wnaeth 1 fferyllfa ddim rhoi ymateb i'r cwestiwn hwn.

Er nad yw'n wasanaeth y GIG, mae 10 fferyllfa yn cynnig gwasanaeth casglu presgripsiynau am ddim, ac mae 3 fferyllfa yn cynnig gwasanaeth trosglwyddo presgripsiynau am ddim, i gleifion y rhestrir nhw mewn categorïau penodol (h.y. pobl henoed, pobl sy'n gaeth i'r tŷ, neu bobl sy'n gaeth i leoliadau penodol ac ati).

Gallai'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad i fferyllfa gael eu meddyginiaethau wedi'u trosglwyddo gan fferyllfa o fewn yr ardal.

Er mwyn penderfynu a oes unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol, datblygwyd cyfres o feini prawf i ddarparu mesur cyson ar draws pob un o'r 8 ardal.

- **Nifer o fferyllfeydd i bob 10,000 o bobl**

Mae argaeledd gwasanaethau fferyllol o fewn Ardal Castell-nedd yn **1.76** i bob 10,000 o bobl, sydd yn llai na chyfartaledd BIP Bae Abertawe o 2.38. Mae gan ardal Castell-nedd yr argaeledd isaf o wasanaethau fferyllol y boblogaeth o fewn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
Mae'r ardal wedi'i gwasanaethu'n ddigonol o ran gwasanaethau fferyllol hanfodol cyfredol, gan fod y fferyllfeydd yno wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti i gwrdd â'u hanghenion presennol ac anghenion y dyfodol. Hefyd, mae mynediad i wasanaethau fferyllol tan 10.00pm yn Ardal Afan, sef ardal gyfagos.
Efallai byddai angen ystyried gwasanaethau fferyllol hanfodol ychwanegol pe bai newdiadau sylweddol yn yr ardal a fyddai'n effeithio ar naill ai'r boblogaeth neu pe bai gostyngiad pellach yn nifer y fferyllfeydd.

Nifer o fferyllfeydd sydd ar agor yn ystod oriau gweithio arferol
[Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9.00am-5.30pm]

Mae 10 fferyllfa yn ardal Castell-nedd. Mae 1 fferyllfa ar agor 7 niwrnod yr wythnos. Mae 4 fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig. Mae 5 fferyllfa ar agor am ddiwrnodau llawn ddydd Llun i ddydd Gwener, a boreau dydd Sadwrn.
Mae mynediad digonol i fferyllfeydd yn ystod oriau gweithio arferol yn ardal Castell-nedd.

- **Nifer o fferyllfeydd sydd ar agor y tu allan i oriau gweithio arferol ar ddyddiau'r wythnos**

[Ar ôl 5.30pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener]

- Mae 5 fferyllfa yn ardal Castell-nedd ar agor tan 6.00pm ar ddyddiau'r wythnos.

Nid oes gwasanaethau fferyllol ar gael yn yr ardal ar ôl 6.00pm. Fodd bynnag, mae mynediad i wasanaethau fferyllol tan 10.30pm yn Ardal Afan.
Mae mynediad digonol i fferyllfeydd y tu allan i oriau gweithio arferol yn ardal Castell-nedd.

❖ Nifer o fferyllfeydd sydd ar agor ar benwythnosau

Wrth ystyried mynediad i wasanaethau hanfodol, nodwyd bod:

- 6 fferyllfa ar agor naill ai am hanner dydd neu am ddiwrnod llawn ar ddydd Sadwrn. Mae 5 fferyllfa ar agor foreau Sadwrn yn unig. Mae 1 fferyllfa ar agor drwy'r dydd ddydd Sadwrn.
- Mae 1 fferyllfa ar agor ddydd Sul rhwng 10.00am i 4.00pm.

Fferyllfa	Dydd Sadwrn	Dydd Sul
Fferyllfa Boots	Ar agor am ddydd llawn	10.00am-4.00pm
Fferyllfa Cecil Jones Ffordd y Frenhines, Sgiwen	Ar agor am hanner dydd	Ar gau
Fferyllfa Davies, Neath Road Llansawel	Ar agor am hanner dydd	Ar gau
Fferyllfa Castell-nedd Stryd y Berllan	Ar agor am hanner dydd	Ar gau
Fferyllfa Well Ffordd Llundain	Ar agor am hanner dydd	Ar gau
Fferyllfa Well Ffordd Newydd, Sgiwen	Ar agor am hanner dydd	Ar gau

Mae lleoliad fferyllfeydd ar draws yr ardal, a'r amser teithio o ddim mwy nag 20 munud mewn car, yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd ar gyfer mynediad yn Adran 5.1.1 o uchafswm amser teithio o 20 munud. Er nad oes gan bob person fynediad i gar, mae natur yr ardal yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn ddewis realistig i rai preswylwyr.

❖ Argaeledd gwasanaethau uwch

Mae 10 fferyllfa yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth MUR (D.S. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth wedi'i ohirio oherwydd pandemig COVID-19).
Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau (DMR). Yn ystod 2019/20, roedd 10 yn darparu'r gwasanaeth a chynigiwyd 230 DMR o fwyafrif posibl o 1,400.
Nid oes unrhyw fferyllfa yn yr ardal sy'n darparu gwaith addasu offer stoma na'r gwasanaeth adolygu defnydd offer. Fodd bynnag, gall cleifion ddewis p'un ai i fferyllfa gymunedol neu Gontractwr Dosbarthu Offer ddosbarthu eu presgripsiynau offer. Gall Contractwyr Dosbarthu Offer ddarparu'r ddau wasanaeth hyn i gleifion.
Deuir i'r casgliad bod yna ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau uwch i fodloni anghenion tebygol preswylwyr yr ardal.

❖ Argaeledd gwasanaethau ychwanegol y nodwyd eu bod nhw ar gael ym mhob fferyllfa

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r gwasanaethau ychwanegol canlynol, fel rhai craidd a byddai'n anelu at gomisiynu gan bob fferyllfa.

- *Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin* – Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn.
- *Gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys* – Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn cynnig y Gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys.
- *Gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw* – Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw.
- *Gwasanaeth Cyflenwad Meddygaeth Frys* – Mae 8 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Cyflenwad Meddygaeth Frys.
- *Gwasanaeth Stopio Ysmygu (L2)* – Mae 9 fferyllfa yn cynnig Lefel 2 (cyflenwad o Therapi Disodli Nicotin (NRT))
- *Gwasanaeth Stopio Ysmygu (L3)* – Mae 9 fferyllfa yn cynnig Lefel 3 – cyflenwad o NRT a chwnsela.

Deuir i'r casgliad bod digon o ddarpariaeth ar hyn o bryd i'r gwasanaethau ychwanegol a restrwyd fodloni anghenion tebygol preswylwyr yr ardal.
Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chontractwyr fferyllol i wella darpariaeth y gwasanaethau hynny nad ydynt ar gael ar hyn o bryd ym mhob un o'r 10 fferyllfa yn yr ardal.

❖ Agosrwydd gwasanaethau dosbarthu at feddygfeydd

Mae gan bob un o'r 8 meddygfa, sef y prif feddygfeydd a'r meddygfeydd cangen, o fewn yr ardal fynediad i wasanaethau fferyllol fel a ganlyn:

Lleoliad Agosaf Fferyllfa at Feddygfa	Nifer.
Fferyllfa - Cyfagos	5
Fferyllfa o fewn ¼ Milltir	3

Deuir i'r casgliad bod lleoliad fferyllfeydd yn yr ardal yn briodol ar hyn o bryd i wasanaethu meddygfeydd a'u cleifion.

Ardal y Cymoedd Uchaf



15.1 Ffeithiau Allweddol

- Mae Clwstwr y Cymoedd Uchaf yn gwasanaethu poblogaeth (a gofrestrir â Meddyg Teulu) o 31,088 (01.04.2021), a hwn yw'r clwstwr lleiaf yn ôl poblogaeth yn Ardal y Bwrdd Iechyd.
  (Ffynhonnell – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)

- Mae'n 1 o 3 chlwstwr yn sir Castell-nedd Port Talbot.

- Ymhlith yr 20% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae 14 ohonynt yng Nghastell-nedd Port Talbot, a cheir 3 ohonynt yng Nghlwstwr y Cymoedd Uchaf.
  (Ffynhonnell - https://wimd.gov.wales/geography/la/W06000012?lang=cy#&min=0&max=10&domain=overall)

- Mae 22 ACEHI yn yr ardal hon. Mae 11.8% o boblogaeth y clwstwr yn byw yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sydd wedi'i nodi'n ardal wledig.
  (Ffynhonnell – IMTP 2020 – 2023)

- Yn ddaearyddol, mae'r clwstwr yn cwmpasu'r ardaloedd canlynol: Brynaman isaf, Gwaen-Cae-Gurwen, Cwmllynfell, Pontardawe, Ystalyfera, Alltwen, Rhos, Trebanos, Y Creunant, Blaendulais, Resolfen, Onllwyn, Glyn-nedd a Blaengwrach.
  (Ffynhonnell – IMTP y Cymoedd Uchaf)

- Ar sail y twf poblogaeth arfaethedig yng Nghastell-nedd Port Talbot, a grybwyllir yn adran 2, mae rhagolwg o gynnydd o 5.91% yn y boblogaeth rhwng 2018-2043. Ar sail *preswylfa* ardal clwstwr y Cymoedd Uchaf o 35,031 (yn 2018) (Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)), gallai hyn gynyddu i 37,101.

- Mae gan Glwstwr y Cymoedd Uchaf tua 10,940 o bobl dros 65 oed a throsodd (18.7%) sydd yn llai na chyfartaledd Cymru o 21%.
  (Ffynhonnell Sylfaenol – Amcangyfrifon poblogaeth yng nghanol 2018)
  (*Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth mewn ardaloedd bach (2018)),*
  Ffynhonnell Eilaidd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) – IMTP Clystyrau.

- Mae gan yr ardal clwstwr 4 Meddygfa (ac mae 1 ohonynt yn gweithredu practis cangen).

- Mae gan yr ardal 10 fferyllfa gymunedol.

- Mae 4 practis deintyddol sy'n cynnig triniaethau GIG, a 3 phractis optometrig.

- Mae 6 chartref gofal.
  (Ffynhonnell – Cartrefi Gofal Meddygon Teulu, Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd (DES))

- Mae 4 fferyllfa yng Nghlwstwr y Cymoedd Uchaf lle nodir Cymraeg o dan ieithoedd eraill a siaredir yn ogystal â Saesneg.

- Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 15.3% o bobl 3 oed a hŷn yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gallu siarad Cymraeg.
  (Ffynhonnell: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census)

- Yn ôl Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2010-2025), ni fydd unrhyw dai yn cael eu hadeiladu yng Nghlwstwr y Cymoedd Uchaf yn ystod cyfnod pum mlynedd yr Asesiad Anghenion Fferyllol hwn o Hydref 2021 ymlaen.

- Nid oes datblygiadau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar anghenion fferyllol yr ardal.
  (Ffynhonnell - https://www.npt.gov.uk/media/7321/ldp_written_statement_jan16.pdf?v=20170727124344)

15.2 Darpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol o fewn yr ardal

Mae 10 fferyllfa yn ardal y Cymoedd Uchaf (gweler y map isod), sy'n cael eu gweithredu gan 7 contractwr gwahanol.

Mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli ar gyrion yr ardal.

Mae argaeledd gwasanaethau fferyllol o fewn Clwstwr y Cymoedd Uchaf yn 3.22 i bob 10,000 o bobl, sy'n llawer uwch na chyfartaledd BIP Bae Abertawe o 2.38. Mae gan Glwstwr y Cymoedd Uchaf yr argaeledd uchaf yn ôl poblogaeth o wasanaethau fferyllol o fewn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Fodd bynnag, gallai hyn fod oherwydd bod gan y Cymoedd Uchaf y boblogaeth leiaf o fewn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Nid oes unrhyw bractisau dosbarthu o fewn ardal y Cymoedd Uchaf.

Map 15.2.1 – Lleoliad fferyllfeydd cymunedol yn ardal y Cymoedd Uchaf

Lleoliad Fferyllfeydd yng Nghlwstwr y Cymoedd Uchaf
Location of pharmacies in the Upper Valleys cluster



©Hawlfraint y Goron, Trwydded Arolwg Ordnans 100050829/ Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae disgwyl i fferyllfa fod ar agor am o leiaf 40 awr bob wythnos. Ar gyfer yr Asesiad Anghenion Fferyllol, diffiniwyd oriau gweithio arferol fel dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9:00am a 5:30pm.

Mae 10 Fferyllfa yn Ardal y Cymoedd Uchaf.

- Mae 1 fferyllfa ar agor 7 niwrnod yr wythnos.
- Nid oes fferyllfa sydd ar agor am ddiwrnodau llawn rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn.
- Mae 7 fferyllfa ar agor am ddiwrnodau llawn ddydd Llun i ddydd Gwener, a bore dydd Sadwrn.
- Mae 2 fferyllfa ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig.

O ran agor yn hwyr, nid oes fferyllfa sydd ar agor ar ôl 6.00pm at ddyddiau'r wythnos.
Fodd bynnag, mae darpariaeth fferyllol ar gael o fewn ardal gyfagos.
Mae 10 fferyllfa ar agor am 9.00am.
Gellir gweld manylion llawn ar amserau agor fferyllfeydd yn **Atodiad L**.

Map 15.2.2 – Lleoliad y fferyllfeydd o gymharu â dwysedd poblogaeth yn ardal y Cymoedd Uchaf.

Dwysedd Poblogaeth ACEHI y Cymoedd Uchaf yn ôl y boblogaeth a gofrestrir â Meddyg Teulu
Ffynhonnell: System Caerwysg Ebrill 2020



©Hawlfraint y Goron, Trwydded Arolwg Ordnans 100050829/ Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Map 15.2.3 yn dangos yr ardaloedd o'r ardal y gallwch gyrraedd fferyllfa o fewn taith 5, 10, 15 ac 20 munud ohonynt. Mae hyn yn tystio bod yr holl breswylwyr sy'n byw yn ardal y Cymoedd Uchaf yn gallu cael mynediad i fferyllfa ymhell o fewn yr amser gyrru safonol o 20 munud a osodwyd ar gyfer yr amser mynediad mwyaf posibl i wasanaethau Fferyllol.

Map 15.2.3 – Amseroedd gyrru i fferyllfa yn Ardal y Cymoedd Uchaf.

Fferyllfeydd/Safleoedd Dosbarthu yn ardal y Cymoedd Uchaf



©Hawlfraint y Goron, Trwydded Arolwg Ordnans 100050829/Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, cafodd 98% o'r holl bresgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2019/20 gan Feddygon Teulu'r sir eu dosbarthu gan fferyllfeydd o fewn yr ardal.
Mae gan yr ardal 10 fferyllfa.
Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau (DMR). Yn ystod 2019/20, roedd 10 fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth a chynigiwyd 103 DMR o fwyafrif posibl o 1,400.
Mae 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Adolygu'r Defnydd o Feddyginiaethau (MUR). Yn ystod 2019/20, roedd 9 fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth, a chwblhawyd 2,299 MUR o fwyafrif posibl o 4,000.

Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn cynnig y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CAS). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 1,444 o gleifion, a chynigiwyd rhwng 7 a 292 o ymgynghoriadau ar draws y 10 fferyllfa.
Mae pob un o'r 10 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Cyflenwad Meddygaeth Frys (EMS). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 345 o gleifion.
Mae 9 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys (EHC). Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 136 o gleifion.
Mae 9 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw. Yn ystod 2019/20, cafodd 1,306 o gleifion eu brechu mewn fferyllfa.
Mae 7 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Wrth Gefn. Yn ystod 2019/20, dosbarthwyd 19 pecyn Wrth Gefn.
Mae 9 fferyllfa yn cynnig Cynllun Stopio Ysmygu Lefel 3. Yn ystod 2019/20, cyrchwyd y gwasanaeth gan 217 o gleifion, triniwyd 144 o gleifion, a rhoddodd 85 o gleifion y gorau i ysmygu. Y nifer uchaf o gleifion a welwyd gan un fferyllfa oedd 20, a'r nifer isaf o gleifion a welwyd gan un fferyllfa oedd 5.
Yn 2019/20, roedd 2 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Gofal Lliniarol ychwanegol, yn unol â'r bwriad o gael o leiaf 1 fferyllfa y lleoliad.
Yn 2019/20, roedd 4 fferyllfa yn cynnig y gwasanaeth Adolygu Mewnanadlwyr. Cyrchwyd y gwasanaeth hwn gan 51 o gleifion.
Mae 4 meddygfa o fewn **Ardal y Cymoedd Uchaf** sy'n gweithredu ar 4 safle:

Meddygfa	**Lleoliad (Prif Leoliad/Cangen)**	**Pellter i'r Fferyllfa Agosaf**
Partneriaeth Aman Tawe	Cwmllynfell	Fferyllfa - Gerllaw
Canolfan Gofal Sylfaenol Cwmdulais	Blaendulais	Fferyllfa - Gerllaw
Canolfan Iechyd Pontardawe	Pontardawe	Fferyllfa o fewn ¼ Milltir
Bro Nedd	Glyn-nedd	Fferyllfa - Gerllaw

15.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i ardal Castell-nedd Port Talbot.
Mae rhai preswylwyr yn ceisio cael hyd i gontractwyr y tu allan i'r ardal a thu allan i ardal y Bwrdd Iechyd er mwyn cael mynediad i wasanaethau:

- a gynigir gan gontractwyr dosbarthu offer
- sydd yn agos at eu gweithleoedd, siop neu wasanaethau y gellir ymweld â nhw am bwrpasau hamdden neu bwrpasau eraill.

Yn ystod 2019/20, cafodd ychydig dros 7% o bresgripsiynau a ragnodwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot eu dosbarthu y tu allan i'r sir. O'r rheini, cafodd 4.2% eu dosbarthu mewn fferyllfa arall o fewn ardal BIP Bae Abertawe.
Cafodd 2.6% eu dosbarthu yn rhywle arall yng Nghymru gan 354 o gontractwyr gwahanol, a chafodd 0.4% eu dosbarthu y tu allan i Gymru.

Gan ystyried y gallai rhai preswylwyr ddewis i gyrchu gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal, byddai'r holl breswylwyr yn gallu cyrchu fferyllfa mewn car o fewn 20 munud i'w cartref.

15.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Nid oes Unedau Mân Anafiadau na Chanolfannau Triniaeth Tu Allan i Oriau yn Ardal y Cymoedd Uchaf, ond gall cleifion sy'n byw yn Ardal y Cymoedd Uchaf gyrchu'r gwasanaethau a ddarperir yn Uned Mân Anafiadau a Chanolfan Triniaeth Tu Allan i Oriau Ardal Afan. Byddai angen i gleifion sydd angen mynediad i wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys deithio i Ysbyty Treforys i gyrchu'r gwasanaethau hynny.

15.5 Dewis ynghylch derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 15.2 a 15.3, mae'r rhai sy'n byw yn y Sir ac sydd wedi cofrestru ag un o'r meddygfeydd yn gyffredinol yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn y Sir er mwyn i'w presgripsiynau gael eu dosbarthu.

Yn 2019/20, dosbarthodd 354 o gontractwyr y tu allan i BIP Bae Abertawe bresgripsiynau a ragnodwyd yn Sir Castell-nedd Port Talbot.

15.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

8. Gwasanaeth asesu meddyginiaethau a chymorth cydymffurfio, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa —

- Asesu'r wybodaeth am, a chydymffurfiad â chyffuriau a'u defnyddio gan gleifion bregus a chleifion ag anghenion arbennig, a
- Chynnig cyngor, cefnogaeth a chymorth i gleifion bregus a chleifion ag anghenion arbennig o ran defnyddio cyffuriau gyda'r bwriad o wella eu gwybodaeth am gyffuriau o'r fath, eu cydymffurfiad â hwy a'u defnyddio.

9. Cynllun mân anhwylderau, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa ddarparu cyngor a chefnogaeth i gleifion cymwys sy'n cwyno am fân anhwylder, a lle bo hynny'n briodol i gyflenwi cyffuriau i'r claf ar gyfer trin y mân anhwylder.

10. Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau a chwistrelli, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa -

- Ddarparu nodwyddau di-haint, chwistrelli a deunyddiau cysylltiedig i gamddefnyddwyr cyffuriau
- Derbyn gan gamddefnyddwyr cyffuriau nodwyddau, chwistrelli a deunyddiau cysylltiedig, a
- Cynnig cyngor i gamddefnyddwyr cyffuriau a lle bo hynny'n briodol atgyfeiriad at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall neu ganolfan trin cyffuriau arbenigol.

11. Gwasanaeth cyffuriau arbenigol ar gael yn ôl y galw, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa sicrhau bod cleifion neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael mynediad prydlon at gyffuriau arbenigol.

12. Gwasanaethau y tu allan i oriau, a'u pwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa ddosbarthu cyffuriau ac offer yn y cyfnod y tu allan i oriau (p'un ai am y cyfnod y tu allan i oriau cyfan ai peidio).

13. Gwasanaeth dan gyfarwyddyd grŵp cleifion, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa gyflenwi meddyginiaeth presgripsiwn yn unig i glaf o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion.

14. Gwasanaeth cymorth rhagnodwyr, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa gefnogi gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n rhagnodi cyffuriau, ac yn benodol cynnig cyngor ar—

- Y defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
- Polisïau a chanllawiau rhagnodi, a
- Rhagnodi amlroddadwy.

15. Gwasanaeth ysgolion, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa ddarparu cyngor a chefnogaeth i blant a staff mewn ysgolion sy'n ymwneud â—

- Y defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau yn yr ysgol
- Gweinyddu a defnyddio cyffuriau ac offer yn briodol ac yn effeithiol yn yr ysgol
- Storio a thrafod cyffuriau ac offer yn ddiogel ac yn briodol, a
- Cofnodi cyffuriau ac offer sy'n cael eu harchebu, eu trin, eu rhoi, eu storio neu eu gwaredu.

16. Gwasanaeth sgrinio, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa i —

- Adnabod cleifion sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd neu gyflwr penodol
- Cynnig cyngor ar brofi am glefyd neu gyflwr penodol
- Cynnal prawf o'r fath gyda chydsyniad y claf, a
- Chynnig cyngor yn dilyn prawf a chyfeiriwch at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall fel y bo'n briodol.

17. Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa -

- Gynghori a chefnogi cleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu, a
- Lle bo hynny'n briodol, cyflenwi cyffuriau a chymhorthion priodol.

18. Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa oruchwylio rhoi meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn eu safle.

19. Gwasanaeth rhagnodi, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa ragnodi meddyginiaethau mewn amgylchiadau a bennir gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

20. Gwasanaeth casglu gwrthfeirysol, a'i bwrpas sylfaenol yw i'r contractwr fferyllfa gyflenwi meddyginiaethau gwrthfeirysol, yn unol â rheoliad 247 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (eithriad i'w gyflenwi os digwydd neu ragweld clefyd pandemig), i gleifion i'w drin neu broffylacsis.

21. Gwasanaeth cyflenwi brys, a'i bwrpas sylfaenol yw sicrhau, mewn achosion brys, bod cleifion, ar eu cais, yn cael mynediad prydlon i gyffuriau offer:

- Sydd wedi'u rhagnodi ar eu cyfer o'r blaen mewn presgripsiwn GIG ond nad oes ganddynt bresgripsiwn GIG ar eu cyfer, a
- Yn achos meddyginiaethau presgripsiwn yn unig, mae gofynion rheoliad 225 (1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (gwerthu mewn argyfwng ac ati gan Fferyllydd: ar gais y claf) yn cael eu bodloni.

Atodiad E - telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr sy'n dosbarthu offer

1. Dosbarthu presgripsiynau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyflenwi offer a archebir ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor a threfniadau atgyfeirio priodol os na ellir cyflenwi, er mwyn galluogi cleifion i ddefnyddio diogel ac effeithiol, a chynnal cofnodion priodol.

Nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn offer wedi'u harchebu yn ddiogel ac yn briodol gan y contractwyr dosbarthu offer:

- Perfformio gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cael systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Cael systemau ar waith i warantu cyfanrwydd y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl offer a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gofal cleifion yn y dyfodol
- Cadw cofnod o'r cyngor a roddwyd, ac ymyriadau ac atgyfeiriadau a wnaed, lle mae'r contractwr dosbarthu offer yn barnu ei fod yn glinigol briodol
- Darparu'r eitemau ychwanegol priodol fel bagiau tafladwy a chadachau
- Dosbarthu'r eitemau priodol os bydd angen i wneud hynny mewn modd amserol ac mewn pecynnau addas sy'n ddisylw.

Er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu teclynnau yn effeithiol gan staff sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i'r claf neu'r gofalwr ar ddefnyddio eu teclyn(au) yn ddiogel.

2. Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu offer presgripsiwn y GIG y gellir eu hailadrodd mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodydd.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys y gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer dosbarthu, fel bod y contractwr dosbarthu offer yn canfod angen y claf am gyflenwad arall ac yn cyfleu unrhyw faterion clinigol arwyddocaol i'r rhagnodydd.

Nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd

- Cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, trwy ganiatáu iddynt gael eu teclynnau rhagnodedig rheolaidd yn uniongyrchol gan gontractwr offer dosbarthu am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodydd
- Lleihau gwastraff trwy leihau nifer yr offer sy'n cael eu dosbarthu nad oes eu hangen ar y claf
- Lleihau llwyth gwaith meddygfeydd teulu, trwy ostwng y baich o reoli presgripsiynau rheolaidd.

3. Gwasanaeth dosbarthu cartref

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu gwasanaeth cludo i'r cartref mewn perthynas â rhai teclynnau.

Nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd

Cadw urddas cleifion trwy sicrhau bod rhai offer yn cael eu danfon:

- Gyda phrydlondeb rhesymol, ar adeg wedi'i gytuno â'r claf
- Mewn pecyn nad yw'n dangos unrhyw ysgrifen na marciau eraill a allai nodi ei gynnwys; a
- Yn y fath fodd fel nad yw'n bosibl nodi'r math o beiriant sy'n cael ei ddanfon.

4. Cyflenwi eitemau atodol priodol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu eitemau ychwanegol fel cadachau tafladwy a bagiau gwaredu mewn cysylltiad â rhai offer.

Nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd

Er mwyn sicrhau bod gan gleifion gyflenwad digonol o hancesi bach i'w defnyddio gyda'u teclyn, a'u bod yn gallu eu gwaredu mewn ffordd ddiogel a hylan.

5. Rhoi cyngor clinigol arbenigol ynghylch yr offer

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor clinigol arbenigol gan berson sydd wedi'i hyfforddi'n addas ac sydd â phrofiad perthnasol mewn perthynas â rhai offer.

Nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd

Sicrhau bod cleifion yn gallu ceisio cyngor priodol ar eu teclyn i gynyddu eu hyder wrth ddewis peiriant sy'n gweddu i'w hanghenion ynghyd â magu hyder i addasu i'r newidiadau yn eu bywyd a dysgu rheoli teclyn.

6. Pan ddarperir llinell gofal ffôn, yn ystod y cyfnod pan fydd y contractwr dosbarthu offer ar gau mae cyngor naill ai i'w ddarparu trwy'r llinell ofal neu mae galwyr yn cael eu cyfeirio at Galw Iechyd Cymru

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor ar rai teclynnau trwy linell gofal ffôn y tu allan i oriau agor dan gontract y contractwr dosbarthu offer. Nid yw'n ofynnol i'r contractwr dosbarthu offer staffio'r llinell ofal trwy'r dydd, bob dydd, ond pan nad yw wedi'i staffio rhaid rhoi rhif ffôn neu fanylion cyswllt gwefan i alwyr ar gyfer NHS Direct Wales y gellir ymgynghori â nhw i gael cyngor.

Nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd

Gall galwyr y llinell gofal ffôn gael gafael ar gyngor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar rai teclynnau er mwyn rheoli eu teclyn.

7. Cyfeirio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Pan fydd claf yn cyflwyno presgripsiwn ar gyfer peiriant nad yw'r contractwr dosbarthu offer yn cyflenwi'r presgripsiwn naill ai:

- Gyda chaniatâd y claf, ei drosglwyddo i ddarparwr offer arall, neu
- Os na fydd y claf yn cydsynio, rhoddir manylion cyswllt iddynt ar gyfer o leiaf dau gontractwr arall sy'n gallu ei ddosbarthu.

Nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd

Sicrhau bod cleifion yn gallu derbyn eu presgripsiwn yn cael ei ddosbarthu.

Atodiad F - Aelodaeth grŵp llywio PNA

Enw	Rôl	Sefydliad
Judith Vincent	Cyfarwyddwr Clinigol Fferyllfa	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Sharon Miller	Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Sam Page	Pennaeth Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Lowri Lowe	Rheolwr Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Rhian Newton	Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Amy David	Arweinydd Proffesiynol Fferylliaeth Gymunedol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Calvin Smith	Aelod Cyfetholedig	Cyngor Iechyd Cymunedol
Jayne Howard	Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Contractwyr	Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Dr Sandar Hlaing	Aelod Meddyg Teulu Etholedig	Pwyllgor Meddygol Lleol

Y Tîm Golygyddol:

Sharon Miller	Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal Sylfaenol	Cyfarwyddwr Cysylltiol, Grŵp Gofal Sylfaenol, Cymunedol,a Therapïau,	BIP Bae Abertawe
Amy David	Arweinydd Proffesiynol	Grŵp Gofal Sylfaenol, Cymunedol,a Therapïau,	BIP Bae Abertawe
Lowri Lowe	Rheolwr Gofal Sylfaenol	Grŵp Gofal Sylfaenol, Cymunedol,a Therapïau,	BIP Bae Abertawe
Tony Kluge	Rheolwr Datblygu Clwstwr	Grŵp Gofal Sylfaenol, Cymunedol,a Therapïau,	BIP Bae Abertawe
Paola Browne	Rheolwr Datblygu Gofal Sylfaenol	Grŵp Gofal Sylfaenol, Cymunedol,a Therapïau,	BIP Bae Abertawe
Claire Thompson	Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus	Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol	BIP Bae Abertawe
Claire Fauvel	Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus	Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol	BIP Bae Abertawe
Asha Boyce	Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus	Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol	BIP Bae Abertawe

Caryl Jones-Pugh	Uwch-ymarferydd Iechyd Cyhoeddus,	Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol, BIP Bae Abertawe	BIP Bae Abertawe
Liz Newbury-Davies	Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus	Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol, BIP Bae Abertawe	BIP Bae Abertawe

Atodiad G

Arolwg y cleifion a'r cyhoedd ar gyfer asesiad anghenion fferyllol (PNA)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

PCC

Rydym yn eich gwahodd i ddweud wrthym am wasanaethau fferyllfa yn eich ardal. Mae hyn er mwyn ein helpu ni i gynllunio ar gyfer gwasanaethau ar gyfer ein cleifion nawr ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni eich anghenion, gan ddefnyddio proses o'r enw 'asesiad anghenion fferyllol'

Bydd eich atebion yn ein helpu i adnabod a oes yna unrhyw fylchau gwasanaeth, er enghraifft os oes angen fferyllydd mewn ardal benodol, neu os oes angen mwy o fferyllfeydd i ddarparu gwasanaeth penodol.

Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn edrych ar beth a all newid dros y pum mlynedd nesaf ac os bydd yna ddigon o fferyllfeydd yn y lleoedd cywir, gan ddarparu'r gwasanaethau mae pobl ei angen wrth i, fel enghraifft, fwy o dai gael eu hadeiladu.

Mae eich barn yn bwysig i ni, felly gofynnwn i chi sbario rhai munudau i gwblhau'r holiadur hwn. Credwn y bydd yn yn cymryd rhyw 10 i 15 munud i chi ei gwblhau.

Mae'r holiadur yn hollol gyfrinachol ac ni ellir cysylltu unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i chi.

Os hoffech fwy o wybodaeth am yr holiadur neu os oes gennych gwestiynau ar sut i gwblhau'r holiadur, cysylltwch â lowri.lowe@wales.nhs.uk gyda "Holiadur PNA" yn y blwch pwnc.

Amdanoch chi

Dywedwch wrthym beth yw eich cod post

Drwy roi pedwar digid cyntaf eich cod post i ni, rydych yn rhoi eich cydsyniad i ni i ddefnyddio'r wybodaeth yma i ddeall ym mha ran o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yr ydych yn byw ynddo. Gellir ond defnyddio'r wybodaeth yma ar gyfer pwrpasau'r holiadur hwn fel ein bod yn gallu adnabod os ydym wedi derbyn ymatebion o hyd a lled y bwrdd iechyd neu o ardaloedd penodol yn unig. Peidiwch â rhoi eich cod post llawn i ni os gwelwch yn dda.

Er enghraifft, os mai SA12 9XL yw eich cod post, rhowch SA12 yn unig yn y blwch isod.

Iaith ddewisol

1. Dywedwch wrthym beth yw eich iaith ddewisol pan fyddwch yn gofyn am wasanaethau yn y fferyllfa?

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall [blwch testun]

Sut i ddefnyddio eich fferyllfa – drwy fynd yno eich hunan neu drwy gael rhywun arall i fynd yno ar eich rhan

2. Pam ydych chi fel arfer mynd i fferyllfa? Ticiwch unrhyw un neu bob un sy'n berthnasol.

- I gael neu i gasglu presgripsiwn ar gyfer fy hunan
- I brynu meddyginiaeth ar fy nghyfer
- I gael cyngor ar fy nghyfer
- Ar gyfer gwasanaethau megis brechiad rhag y ffliw
- I gael neu i gasglu presgripsiwn ar gyfer rhywun arall

- I brynu meddyginiaeth ar gyfer rhywun arall
- I gael cyngor ar gyfer rhywun arall
- Nid wyf yn ymweld â fferyllfa gan fy mod yn defnyddio fferyllfa ar-lein/dros y we (ewch i gwestiwn 22)
- Nid wyf yn ymweld â fferyllfa gan fy mod yn defnyddio meddyg dosbarthu (ewch i gwestiwn 22)
- Nid wyf yn ymweld â fferyllfa oherwydd fy mod yn defnyddio contractwr cyfarpar (ewch i gwestiwn 22)
- Nid wyf yn ymweld â fferyllfa oherwydd cludir fy meddyginiaethau i mi
- Nid wyf yn mynd i fferyllfa; mae rhywun arall yn mynd ar fy rhan
- Arall [blwch testun]

3. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r fferyllfa?

- Bob dydd
- Bob wythnos
- Bob pythefnos
- Bob mis
- Bob chwarter blwyddyn
- Nid wyf yn defnyddio fferyllfa
- Arall [blwch testun]

4. Pa amser sydd fwyaf cyfleus i chi i ddefnyddio fferyllfa?

- 7am i 9am
- 9am i 12pm – canol dydd
- 12pm i 2pm
- 2pm i 6pm
- 6pm i 9pm
- 9pm i ganol nos
- Nid oes gennyf ffafriaeth am unrhyw amser penodol

5. Pa ddydd sydd fwyaf cyfleus i chi?

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener
- Dydd Sadwrn
- Dydd Sul
- Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol
- Penwythnosau yn gyffredinol
- Nid oes gennyf ffafriaeth am unrhyw adeg benodol o'r wythnos

6. Oes yna amser wedi bod yn ddiweddar pan nad oeddech yn gallu defnyddio eich fferyllfa arferol?

- Oes
- Nac oes (ewch i gwestiwn 8)
- Ddim yn berthnasol (ewch i gwestiwn 8)

7. Os ateboch 'oes' i gwestiwn 6, a allwch roi gwybod i ni beth a ddigwyddodd? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol.

- Es i fferyllfa arall
- Arhosais nes bod y fferyllfa ar agor
- Es i fy meddyg teulu
- Es i'r adran damweiniau ac achosion brys
- Es i uned mân anafiadau
- Cysylltais â'r gwasanaeth Meddygon Allan i Oriau (OOH)
- Galwais 111 GIG Cymru
- Arall [blwch testun]

Eich dewis fferyllfa

8. Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda os ydych yn:

- Defnyddio'r un fferyllfa bob amser?
- Yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol ond bod gwell gennych ddefnyddio un yn fwy aml?
- Bob amser yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol?
- Yn defnyddio fferyllfa'n brin yn unig?
- Byth yn defnyddio fferyllfa?

9. Hoffem wybod beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa. Dywedwch wrthym ni pam eich bod yn defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol i chi.

- Agos at fy nghartref
- Agos at fy ngwaith
- Agos at fy meddyg
- Agos at ysgol neu feithrinfa fy mhlant
- Agos at siopau eraill
- Mae lleoliad y fferyllfa'n hawdd i'w gyrraedd
- Mae hi'n hawdd parcio wrth y fferyllfa
- Gallaf siarad â'r staff yn fy iaith ddewisol
- Rwy'n hoffi ac yn ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno
- Mae'r staff yn fy adnabod ac yn edrych ar fy ôl
- Nid yw'r staff yn fy adnabod
- Rwyf bob amser wedi defnyddio'r fferyllfa yma
- Mae'r gwasanaeth yn gyflym

- Fel arfer mae ganddynt beth bynnag rwyf ei angen mewn stoc
- Mae gan y fferyllfa oriau agor da
- Mae'r fferyllfa yn casglu fy mhresgripsiwn ac yn cludo fy meddyginiaethau
- Awgrymwyd y fferyllfa i mi
- Mae'r fferyllfa yn darparu cyngor a gwybodaeth dda
- Y gwasanaeth cwsmer
- Mae mynediad da iddo h.y. addas ar gyfer cadeiriau olwyn / bygis babanod
- Mae'n rhan o gadwyn fawr adnabyddus o fferyllfeydd
- Nid yw'n rhan o'r cadwynau mawr
- Mae yna ardal breifat os oes angen i mi siarad â'r fferyllydd
- Gallaf archebu fy meddyginiaethau aml-roddadwy neu drwy ddefnyddio eu hap
- Arall [blwch testun]

10. Oes yna fferyllfa fwy cyfleus ac/neu agosach nad ydych yn ei defnyddio

- Oes
- Nac oes (ewch i gwestiwn 12)
- Ddim yn gwybod (ewch i gwestiwn 12)

11. ...ac os ydych wedi ateb oes i gwestiwn 10, a allech roi gwybod i ni pam nad ydych yn defnyddio'r fferyllfa honno?

- Nid yw'n hawdd parcio wrth y fferyllfa
- Rwyf wedi cael profiad gwael yn y gorffennol
- Mae'r gwasanaeth yn rhy araf
- Mae'r staff yn newid drwy'r amser
- Nid yw'r staff yn fy adnabod
- Rwy'n adnabod y staff, a byddai'n well gennyf nad oeddent yn gwybod pa feddyginiaethau rwy'n cymryd
- Nid oes ganddynt beth ydw i angen mewn stoc
- Nid yw'r fferyllfa yn anfon meddyginiaeth drwy'r post
- Nid oes digon o breifatrwydd
- Nid yw ar agor pan wyf ei hangen
- Nid yw'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn neu fygis babanod
- Arall [blwch testun]

Teithio i fferyllfa

12. Os ydych yn mynd i'r fferyllfa ar ben eich hunan neu gyda rhywun, fel ydych fel arfer yn cyrraedd yno?

- Drwy gerdded
- Ar y bws
- Mewn car
- Ar feic
- Mewn tacsi
- Arall [blwch testun]
- Ddim yn berthnasol (ewch i gwestiwn 14)

13. ...a pha mor hir mae e fel arfer yn ei gymryd i gyrraedd yno?

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai na 20 munud
- Mwy na 20 munud

14. A fyddech chi'n dweud eich bod yn cael anhawster wrth geisio cyrraedd fferyllfa?

- Byddwn
- Na fyddwn
- Ddim yn berthnasol

15. Os ydych yn cael anhawster cyrraedd fferyllfa, rhowch wybod i ni pam.

[Blwch testun]

Gwasanaethau fferyllfa yn gyffredinol

16. Hoffem wybod sut ydych yn darganfod gwybodaeth am fferyllfa megis oriau agored neu'r gwasanaeth a gynigir. Ticiwch unrhyw neu bob un sy'n weithredol

- Byddwn yn eu ffonio
- Byddwn yn ffonio 111 GIG Cymru neu'n defnyddio eu gwefan
- Byddwn yn chwilio ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Byddwn yn chwilio ar y we
- Byddwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Byddwn yn gofyn i ffrind
- Byddwn yn mynd yno a gofyn iddynt
- Byddwn yn edrych yn y ffenestr
- Byddwn yn dod o hyd drwy ddarllen y papur newydd neu gylchgrawn lleol
- Ddim yn berthnasol
- Arall [blwch testun]

17. Ydych chi'n teimlo fel eich bod yn gallu trafod rhywbeth preifat gyda'ch fferyllydd?

- Ydw
- Nac ydw
- Byth wedi gorfod gwneud
- Ddim yn gwybod

18. Ydych chi'n ymwybodol eich bod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau canlynol fel rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai rydych yn ymwybodol ohonynt.

- Brechiadau ffliw (ar gyfer y rheini sydd mewn grwpiau dan risg)
- Gwasanaeth adolygu defnydd meddyginiaethau - dyma gyfle i eistedd i lawr gyda'r fferyllydd a thrafod yr holl feddyginiaethau rydych yn eu cymryd er mwyn eich helpu chi i gael y mwyaf o fudd ganddynt.

- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau – mae'r gwasanaeth yma ar gyfer pobl ble mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad yn yr ysbyty i'w helpu hwy i ddeall y newidiadau a wnaed a sicrhau fod y presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir.
- Gwasanaeth adolygu defnydd cyfarpar - dyma gyfle i drafod cyfarpar megis y rheini ar gyfer stomata a cholostomïau gyda fferyllydd neu nyrs arbenigol i sicrhau fod eich cyfarpar yn gwneud beth rydych eu hangen i'w wneud.
- Atal cenhedlu brys - neu'r 'pilsen bore wedyn'
- Cymorth i roi'r gorau i ysmygu
- Cynllun mân anhwylderau - gall fferyllwyr ddarparu chyngor a thriniaeth i chi am ddim ar gyfer mân anhwylderau ble nad oes raid i chi weld Meddyg Teulu.
- Amnewid nodwyddau a chwistrellau - dyma wasanaeth lleihau niwed a chamddefnydd ble mae fferyllwyr yn medru cyflenwi pecynnau chwistrellu dihaint a gwaredu cyfarpar wedi'i ddefnyddio
- Gweinyddiad meddyginiaethau dan oruchwyliad – mae'r gwasanaeth hwn i gynorthwyo pobl sy'n derbyn triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau
- Cyflenwad meddyginiaethau brys - mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi pobl i gael mynediad i gyflenwadau brys o'u meddyginiaeth drwy eu fferyllfa
- Nac ydw (ewch i gwestiwn 20)

19. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a restrwyd yng nghwestiwn 18?

- Brechiadau ffliw (ar gyfer y rheini sydd mewn grwpiau dan risg)
- Gwasanaeth adolygu defnydd meddyginiaethau
- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau
- Gwasanaeth adolygu defnydd cyfarpar
- Atal cenhedlu brys - neu'r 'pilsen bore wedyn'
- Cymorth i roi'r gorau i ysmygu
- Cynllun mân anhwylderau
- Amnewid nodwyddau a chwistrellau
- Gweinyddiad meddyginiaethau dan oruchwyliad
- Cyflenwad meddyginiaethau argyfwng
- Nac ydw

20. Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech ddweud wrthym am eich profiad o'ch fferyllfa leol?

[Blwch testun]

21. Oes yna unrhyw rwystrau sy'n eich atal rhag cael mynediad at wasanaethau yn eich fferyllfa nid ydych wedi sôn amdanynt?

[Blwch testun]

Monitro cydraddoldeb lleol

Er mwyn monitro effeithiolrwydd ein Polisi Cydraddoldeb a'n hymarfer, ac er mwyn sicrhau cyflenwi ein gwasanaethau mewn ffordd sy'n deg i bawb ac heb ragfarn, byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad drwy ddarparu, ar sail hollol wirfoddol, y wybodaeth fel y gofynnir amdani isod. Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddienw a chaiff ei ddefnyddio yn unig ar gyfer pwrpasau monitro ystadegol. Bydd wedi ei gwahanu rhag unrhyw ohebiaeth a dderbynnir gennych a dinistrir hi yn ddiogel ar ôl i ni ddal y wybodaeth.

Wrth gyflwyno'r ffurflen hon, rwyf yn cydnabod ac yn rhoi cysyniad diamwys i Fwrdd Iechyd XXX i ddefnyddio fy nata personol , gan ddefnyddio'r holl ddata cydraddoldeb sensitif (e.e. cyfeiriadedd rhywiol / ailbennu rhywedd) wedi ei roi yn rhydd gennyf i ar gyfer y pwrpas o fonitro ac adrodd yn gyfreithiol i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.

22. Oedran: Mynegwch eich ystod oedran drwy dicio'r blwch priodol

- 0-15 mlwydd oed
- 16-24 mlwydd oed
- 25-34 mlwydd oed
- 35-44 mlwydd oed
- 45-54 mlwydd oed
- 55-64 mlwydd oed
- 65-74 mlwydd oed
- 75 mlwydd oed ac yn hŷn

23. Hunaniaeth Rhywedd: Sut y disgrifiwyd chi ar adeg eich genedigaeth?

- Gwryw
- Benyw
- Rhyngrywiol
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (mynegwch os gwelwch yn dda): [blwch testun]

24. Hunaniaeth Rhywedd: Sut ydych chi'n ystyried eich hunan yn awr?

- Gwryw
- Benyw
- Rhyngrywiol
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (mynegwch os gwelwch yn dda): [blwch testun]

25. Beichiogrwydd a Mamolaeth: Ydych chi'n feichiog yn bresennol, neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn y flwyddyn ddiwethaf?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

26. Beichiogrwydd a Mamolaeth: Ydych chi wedi cymryd absenoldeb mamolaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

27. Hunaniaeth Genedlaethol: Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

- Cymreig
- Seisnig
- Albanaidd
- Gogledd Gwyddelig
- Gwyddelig
- Prydeinig
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (mynegwch os gwelwch yn dda): [blwch testun]

28. Grŵp Ethnig: Beth yw eich grŵp ethnig?

- Gwyn
- Cymysg / Cymysg Prydeinig
- Du / Du Prydeinig
- Asiaidd / Asiaidd Prydeinig
- Arabaidd
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (mynegwch os gwelwch yn dda): [blwch testun]

29. Cyfeiriadedd Rhywiol: Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut ydych yn gweld eich hunan?

- Heterorywiol / Syth
- Hoyw/Lesbiaidd
- Deurywiol
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (mynegwch os gwelwch yn dda): [blwch testun]

30. Crefydd neu Gred: Beth yw eich crefydd?

- Cristnogol (pob enwad)
- Bwdhaidd
- Hindŵaidd
- Mwslimaidd
- Sicaidd
- Iddewig
- Anffyddiwr
- Dim Crefydd
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (mynegwch os gwelwch yn dda): [blwch testun]

31. Statws Priodasol: Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

32. Anabledd: Ydych chi'n ystyried fod gennych anabledd?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

33. Iaith: Beth yw eich iaith ddewisol?

- Saesneg
- Cymraeg
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (mynegwch os gwelwch yn dda): [blwch testun]

34. Iaith: Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu'r Gymraeg?

- Deall Cymraeg ar Lafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dim un o'r opsiynau uchod
- Gwell gennyf beidio â dweud

35. Cyfrifoldebau Gofalu: Ydych chi'n edrych ar ôl neu'n rhoi cymorth i aelodau teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd (a) iechyd gwael neu anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir neu (b) broblemau'n perthynu i henaint?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

Responses to the questionnaire were received from people living across the Health Board area as can be seen from the heat map below, with the highest responses coming from those living in SA11 and SA4.

Atodiad H - Canlyniadau llawn yr Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd

C1. Dywedwch wrthym beth yw rhan gyntaf eich cod post – y cyfan rydyn ni eisiau ei wybod yw ym mha ran o ardal Bwrdd Iechyd Bae Abertawe rydych chi'n byw, er mwyn sicrhau ein bod yn adnabod yr ardal gyffredinol yn unig. Peidiwch â dweud wrthym beth yw'r ddwy lythyren olaf. Er enghraifft, os yw'ch cod post yn [SA6 5LE], teipiwch [SA6 5] yn y blwch isod:

Wedi ateb	77
Heb ateb	0

Derbyniwyd ymatebion i'r holiadur gan bobl sy'n byw ar draws ardal y Bwrdd Iechyd fel y gwelir o'r map isod. Roedd y nifer uchaf o ymatebion gan y rhai sy'n byw yn SA11 ac SA4.

Atodiad H

Lleoliad Ymatebwyr yr Arolwg



Arolwg cleifion a'r cyhoedd ar gyfer asesiad o anghenion fferyllol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (AAFf)

Dywedwch wrthym beth yw rhan gyntaf eich cod post. Drwy roi pedwar digid cyntaf eich cod post i ni, rydych yn rhoi eich cydsyniad i ni i ddefnyddio'r wybodaeth yma i ddeall ym mha ran o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yr ydych yn byw ynddo. Gellir ond defnyddio'r wybodaeth yma ar gyfer pwrpasau'r holiadur hwn fel ein bod yn gallu adnabod os ydym wedi derbyn ymatebion o hyd a lled y bwrdd iechyd neu o ardaloedd penodol yn unig. Peidiwch â rhoi eich cod post llawn i ni os gwelwch yn dda. Er enghraifft, os mai SA12 9XL yw eich cod post, rhowch SA12 yn unig yn y blwch isod.

	Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
	Wedi ateb	77
	Heb ateb	

1. Dywedwch wrthym beth yw eich iaith ddewisol pan fyddwch yn gofyn am wasanaethau yn y fferyllfa.

		Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Cymraeg	2.70%	2
2	Saesneg	97.30%	72
3	Arall (nodwch):	0.00%	0
		Wedi ateb	74
		Heb ateb	3

Arall (nodwch): (0)

Ni chanfuwyd unrhyw atebion

2. Pam ydych chi fel arfer mynd i fferyllfa? Ticiwch unrhyw un neu bob un sy'n berthnasol.

		Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	I gael neu i gasglu presgripsiwn ar gyfer fy hunan	92.21%	71
2	I brynu meddyginiaeth ar fy nghyfer	55.84%	43
3	I gael cyngor ar fy nghyfer	40.26%	31
4	Ar gyfer gwasanaethau megis brechiad rhag y ffliw	23.38%	18
5	I gael neu i gasglu presgripsiwn ar gyfer rhywun arall	51.95%	40
6	I brynu meddyginiaeth ar gyfer rhywun arall	33.77%	26
7	I gael cyngor ar gyfer rhywun arall	14.29%	11
8	Nid wyf yn ymweld â fferyllfa gan fy mod yn defnyddio fferyllfa ar-lein/dros y we (ewch i gwestiwn 22)	1.30%	1

2. Pam ydych chi fel arfer mynd i fferyllfa? Ticiwch unrhyw un neu bob un sy'n berthnasol.

		Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
9	Nid wyf yn ymweld â fferyllfa gan fy mod yn defnyddio meddyg dosbarthu (ewch i gwestiwn 22)	0.00%	0
10	Nid wyf yn ymweld â fferyllfa oherwydd fy mod yn defnyddio contractwr cyfarpar (ewch i gwestiwn 22)	0.00%	0
11	Nid wyf yn ymweld â fferyllfa oherwydd cludir fy meddyginiaethau i mi	6.49%	5
12	Nid wyf yn mynd i fferyllfa; mae rhywun arall yn mynd ar fy rhan	0.00%	0
13	Arall (nodwch)	1.30%	1
		Wedi ateb	77
		Heb ateb	0

Arall (nodwch): (1)

1		Byddaf fel rheol yn prynu meddyginiaethau dros y cownter yn y fferyllfa gan fy mod fel arfer yn y gwaith pan fydd fferyllfeydd ar agor yn fy (ardal)

3. Pa mor aml rydych chi'n defnyddio fferyllfa?

		Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Bob dydd	0.00%	0
2	Bob wythnos	9.09%	7
3	Bob pythefnos	16.88%	13
4	Bob mis	53.25%	41
5	Bob chwarter blwyddyn	11.69%	9

3. Pa mor aml rydych chi'n defnyddio fferyllfa?

		Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
6	Nid wyf yn defnyddio fferyllfa	0.00%	0
7	Arall (nodwch):	9.09%	7
		Wedi ateb	77
		Heb ateb	0

Arall (nodwch): (7)

1		Pan fo angen
2		Pan fydd angen i fi wneud hynny
3		Yn anaml – nid oes angen y gwasanaethau'n aml.
4		Pryd bynnag y bydd angen cyngor arnaf, neu os bydd angen meddyginiaeth arnaf yn gyflym ar gyfer unrhyw anhwylderau sy'n dod ymlaen yn sydyn
5		Yn anaml
6		Amrywiol
7		Yn ystod y pandemig, newidiwyd fy mhresgripsiwn i fod angen ei archebu bob 3 mis.

4. Pa amser sydd fwyaf cyfleus i chi i ddefnyddio fferyllfa?

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	7am i 9am		1.33%	1
2	9am i 12 canol dydd		13.33%	10
3	12 canol dydd i 2pm		5.33%	4
4	2pm i 6pm		30.67%	23
5	6pm i 9pm		12.00%	9
6	9pm i hanner nos		2.67%	2

4. Pa amser sydd fwyaf cyfleus i chi i ddefnyddio fferyllfa?				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
7	Nid oes gennyf ffafriaeth am unrhyw amser penodol		34.67%	26
			Wedi ateb	75
			Heb ateb	2

5. Pa ddydd sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Dydd Llun		3.90%	3
2	Dydd Mawrth		1.30%	1
3	Dydd Mercher		0.00%	0
4	Dydd Iau		1.30%	1
5	Dydd Gwener		2.60%	2
6	Dydd Sadwrn		0.00%	0
7	Dydd Sul		0.00%	0
8	Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol		20.78%	16
9	Penwythnosau'n gyffredinol		11.69%	9
10	Nid oes gennyf ffafriaeth am unrhyw adeg benodol o'r wythnos		58.44%	45
			Wedi ateb	77
			Heb ateb	0

6. Oes yna amser wedi bod yn ddiweddar pan nad oeddech yn gallu defnyddio eich fferyllfa arferol?				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Oes		24.68%	19

6. Oes yna amser wedi bod yn ddiweddar pan nad oeddech yn gallu defnyddio eich fferyllfa arferol?				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
2	Nac oes (ewch i gwestiwn 8)		72.73%	56
3	Ddim yn berthnasol (ewch i gwestiwn 8)		2.60%	2
			Wedi ateb	77
			Heb ateb	0

7. Os ateboch ‘oes’ i gwestiwn 6, a allwch roi gwybod i ni beth a ddigwyddodd? Ticiwch bob datganiad sy’n berthnasol.				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Es i i fferyllfa arall		63.16%	12
2	Arhosais nes bod y fferyllfa ar agor		21.05%	4
3	Es i at fy meddyg teulu		0.00%	0
4	Es i i’r adran damweiniau ac achosion brys		0.00%	0
5	Es i i’r uned mân anafiadau		0.00%	0
6	Cysylltais â’r gwasanaeth Meddygon Tu Allan i Oriau (OOH)		0.00%	0
7	Galwais 111 GIG Cymru		5.26%	1
8	Arall (nodwch)		10.53%	2
			Wedi ateb	19
			Heb ateb	58

Arall (nodwch): (2)			
	1		Es i yn ôl pan oedd llai o giw

7. Os ateboch 'oes' i gwestiwn 6, a allwch roi gwybod i ni beth a ddigwyddodd? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol.

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
	2	Es i i fferyllfa y tu allan i oriau (dydd Sul)		

8. Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda os ydych yn:

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Defnyddio'r un fferyllfa bob amser?		61.04%	47
2	Yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol ond bod gwell gennych ddefnyddio un yn fwy aml?		35.06%	27
3	Bob amser yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol?		1.30%	1
4	Yn defnyddio fferyllfa'n anaml yn unig?		2.60%	2
5	Byth yn defnyddio fferyllfa?		0.00%	0
			Wedi ateb	77
			Heb ateb	0

9. Hoffem wybod beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa. Dywedwch wrthym ni pam eich bod yn defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol i chi.

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Agos at fy nghartref		67.53%	52
2	Agos at fy ngwaith		12.99%	10
3	Agos at fy meddyg		51.95%	40
4	Agos at ysgol neu feithrinfa fy mhlant		3.90%	3

9. Hoffem wybod beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa. Dywedwch wrthym ni pam eich bod yn defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol i chi.				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
5	Agos at siopau eraill		14.29%	11
6	Mae lleoliad y fferyllfa'n hawdd i'w gyrraedd		48.05%	37
7	Mae hi'n hawdd parcio wrth y fferyllfa		36.36%	28
8	Gallaf siarad â'r staff yn fy iaith ddewisol		0.00%	0
9	Rwy'n hoffi ac yn ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno		46.75%	36
10	Mae'r staff yn fy adnabod ac yn edrych ar fy ôl		28.57%	22
11	Nid yw'r staff yn fy adnabod		1.30%	1
12	Rwyf bob amser wedi defnyddio'r fferyllfa yma		19.48%	15
13	Mae'r gwasanaeth yn gyflym		38.96%	30
14	Fel arfer mae ganddynt beth bynnag rwyf ei angen mewn stoc		31.17%	24
15	Mae gan y fferyllfa oriau agor da		27.27%	21
16	Mae'r fferyllfa yn casglu fy mhresgripsiwn ac yn cludo fy meddyginiaethau		18.18%	14
17	Awgrymwyd y fferyllfa i mi		1.30%	1
18	Mae'r fferyllfa yn darparu cyngor a gwybodaeth dda		24.68%	19
19	Y gwasanaeth cwsmer		23.38%	18

9. Hoffem wybod beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa. Dywedwch wrthym ni pam eich bod yn defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol i chi.

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
20	Mae mynediad da iddo h.y. addas ar gyfer cadeiriau olwyn / bygis babanod		7.79%	6
21	Mae'n rhan o gadwyn fawr adnabyddus o fferyllfeydd		7.79%	6
22	Nid yw'n rhan o'r cadwynau mawr		24.68%	19
23	Mae yna ardal breifat os oes angen i mi siarad â'r fferyllydd		29.87%	23
24	Gallaf archebu fy meddyginiaethau aml-roddadwy neu drwy ddefnyddio eu hap		10.39%	8
25	Arall (nodwch)		3.90%	3
			Agos at fy nghartref	77
			Heb ateb	0

Arall (nodwch): (3)

	1		Lle diogel i gadw'r beic y tu allan
	2		Maen nhw'n archebu fy meddyginiaeth a gallaf ei chasglu ar ôl cael neges destun i ddweud ei bod yn barod
	3		Mae'r fferyllfa sydd ger y feddygfa'n araf yn dosbarthu felly rwy'n aml yn mynd i rywle arall

10. Oes yna fferyllfa fwy cyfleus ac/neu agosach nad ydych yn ei defnyddio?

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Oes		36.84%	28

10. Oes yna fferyllfa fwy cyfleus ac/neu agosach nad ydych yn ei defnyddio?				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
2	Nac oes (ewch i gwestiwn 12)		59.21%	45
3	Ddim yn gwybod (ewch i gwestiwn 12)		3.95%	3
			Wedi ateb	76
			Heb ateb	1

11. ...ac os ydych wedi ateb oes i gwestiwn 10, a allech roi gwybod i ni pam nad ydych yn defnyddio'r fferyllfa honno?				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Nid yw'n hawdd parcio wrth y fferyllfa		7.14%	2
2	Rwyf wedi cael profiad gwael yn y gorffennol		3.57%	1
3	Mae'r gwasanaeth yn rhy araf		21.43%	6
4	Mae'r staff yn newid drwy'r amser		0.00%	0
5	Nid yw'r staff yn fy adnabod		7.14%	2
6	Rwy'n adnabod y staff, a byddai'n well gennyf nad oeddent yn gwybod pa feddyginiaethau rwy'n cymryd		0.00%	0
7	Nid oes ganddynt beth ydw i angen mewn stoc		10.71%	3
8	Nid yw'r fferyllfa yn anfon meddyginiaeth drwy'r post		0.00%	0
9	Nid oes digon o breifatrwydd		0.00%	0

11. ...ac os ydych wedi ateb oes i gwestiwn 10, a allech roi gwybod i ni pam nad ydych yn defnyddio'r fferyllfa honno?

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
10	Nid yw ar agor pan wyf ei hangen		14.29%	4
11	Nid yw'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn neu fygis babanod		0.00%	0
12	Arall (nodwch)		35.71%	10
			Wedi ateb	28
			Heb ateb	49

Arall (nodwch): (10)

1		Maen nhw'n defnyddio system ddosbarthu rwy'n ei chael yn anodd ei deall.
2		Yr amser y mae'n rhaid i chi aros am eich presgripsiynau er ei fod wedi bod yno ychydig ddyddiau ynghynt. Roedd hyn hefyd yn digwydd cyn pandemig Covid 19.
3		Dim ond ar agor tan 1pm ar ddydd Sadwrn
4		Mae ymhellach i ffwrdd oddi wrth fy meddygfa
5		Nid yw'r fferyllfa'n casglu presgripsiynau gan y meddyg teulu
6		Mae'n rhy bell o'm meddygfa
7		Llawer o'r opsiynau uchod, ond mae botymau radio yn hytrach na blychau gwirio yn y cwestiwn hwn felly dim ond un opsiwn y gallaf ei ddewis. Yn rhy llawn, dim digon o le parcio, gwasanaeth araf, dim digon o breifatrwydd ac nid yw ar agor pan fydd ei angen arnaf
8		Mae'n agosach at gartref, ond ddim yn agos at y feddygfa
9		
10		Mae'n well gen i ddefnyddio fferyllfa sy'n ddibynadwy

12. Os ydych yn mynd i'r fferyllfa ar ben eich hunan neu gyda rhywun, fel ydych fel arfer yn cyrraedd yno?

		Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Cerdded	25.97%	20
2	Ar y bws	1.30%	1
3	Mewn car	67.53%	52
4	Ar feic	1.30%	1
5	Mewn tacsi	0.00%	0
6	Ddim yn berthnasol (ewch i gwestiwn 14)	1.30%	1
7	Arall (nodwch):	2.60%	2
		Wedi ateb	77
		Heb ateb	0

Arall (nodwch): (2)

1		Beic modur
2		Rwy'n trio trefnu bod meddyginiaethau'n cael eu hanfon i'm cartref gan fy mod i'n ofalwr 24/7, ond weithiau dydy pethau ddim yn mynd yn dda ac mae'n rhaid i mi gael rhywun i eistedd yn y tŷ tra bydda' i'n mynd ar y bws, oni bai bod rhywun yn gallu fy ngyrru yno.

13 ...a pha mor hir mae e fel arfer yn ei gymryd i gyrraedd yno?

		Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Llai na 5 munud	32.89%	25
2	Rhwng 5 a 15 munud	55.26%	42
3	Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud	10.53%	8
4	Mwy nag 20 munud	1.32%	1
		Wedi ateb	76
		Heb ateb	1

14. A fyddech chi'n dweud eich bod chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa?				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Byddwn		11.69%	9
2	Na fyddwn		87.01%	67
3	Ddim yn berthnasol		1.30%	1
			Wedi ateb	77
			Heb ateb	0

15. Os ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa, dywedwch wrthym pam.			
		Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Cwestiwn Agored	100.00%	8

	1		Rwy'n byw ar allt serth ac yn gorfod seiclo adref. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio gartref a gall fod yn anodd cymryd egwyl.
	2		Mae gen i gyflwr meddygol cronig sy'n golygu bod gen i broblemau symudedd a blinder difrifol.
	3		Parcio.
	4		Nid oes gen i gar, rwy'n cael anawsterau cerdded, mae'r ffordd yn serth iawn.
	5		Weithiau mae'n anodd cyrraedd fy fferyllfa reolaidd oherwydd fy oriau gwaith. Dydyn nhw ddim mwyach ar agor ar ddydd Sadwrn. Rwy'n meddwl am newid i un lle mae'r oriau agor yn well i fi.
	6		Mae gen i broblemau symudedd ac rwy'n ei chael hi'n anodd parcio ger unrhyw fferyllfa leol.
	7		Yn rhannol oherwydd bod fy angen 24/7 a bod rhaid i fi ddod o hyd i rywun i eistedd yn y tŷ, ond hefyd oherwydd symudedd. Rwy'n defnyddio bysiau neu'n gyrru rhai diwrnodau, ond ddim ar ddiwrnodau eraill.
	8		Fel arfer oherwydd bod fy oriau gwaith yr un peth ag oriau agor bron pob un o'r fferyllfeydd sy'n agos ataf i.

15. Os ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa, dywedwch wrthym pam.				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
		Os oes angen unrhyw beth brys arna' i, mae angen i fi ddefnyddio gwyliau blynyddol i orffen yn gynharach er mwyn cyrraedd fferyllfa.		
			Wedi ateb	8
			Heb ateb	69

16. Hoffem wybod sut ydych yn darganfod gwybodaeth am fferyllfa megis oriau agored neu'r gwasanaeth a gynigir. Ticiwch unrhyw neu bob un sy'n weithredol.				
			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Byddwn yn eu ffonio		40.26%	31
2	Byddwn yn ffonio 111 GIG Cymru neu'n defnyddio eu gwefan		6.49%	5
3	Byddwn yn chwilio ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe		15.58%	12
4	Byddwn yn chwilio ar y we		71.43%	55
5	Byddwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol		19.48%	15
6	Byddwn yn gofyn i ffrind		14.29%	11
7	Byddwn yn mynd yno a gofyn iddynt		16.88%	13
8	Byddwn yn edrych yn y ffenestr		23.38%	18
9	Byddwn yn dod o hyd drwy ddarllen y papur newydd neu gylchgrawn lleol		1.30%	1
10	Ddim yn berthnasol		0.00%	0
11	Arall (nodwch):		2.60%	2

16. Hoffem wybod sut ydych yn darganfod gwybodaeth am fferyllfa megis oriau agored neu'r gwasanaeth a gynigir. Ticiwch unrhyw neu bob un sy'n weithredol.

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
			Wedi ateb	77
			Heb ateb	0
Arall (nodwch): (2)				
	1		Mae gan fy Fferyllfa leol dudalen Facebook ac os ydw i am ofyn unrhyw beth iddynt, gallaf anfon neges ar hynny ac mae'r ateb bob amser yn gyflym ac yn gyfeillgar. Rydw i hefyd yn galw heibio am sgwrs gyflym os oes angen	
	2		Gofyn yn y grŵp Facebook [ar gyfer yr ardal]	

17. Ydych chi'n teimlo fel eich bod yn gallu trafod rhywbeth preifat gyda'ch fferyllydd?

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Ydw		57.14%	44
2	Nac ydw		10.39%	8
3	Byth wedi gorfod gwneud		32.47%	25
4	Ddim yn gwybod		0.00%	0
			Wedi ateb	77
			Heb ateb	0

18. Ydych chi'n ymwybodol eich bod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau canlynol fel rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai rydych yn ymwybodol ohonynt.

			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Brechiadau ffliw (ar gyfer y rheini sydd mewn grwpiau dan risg)		87.01%	67

18. Ydych chi'n ymwybodol eich bod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau canlynol fel rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai rydych yn ymwybodol ohonynt.				
			Canran yr ymatebion	**Cyfanswm ymatebion**
2	Gwasanaeth adolygu defnydd meddyginiaethau - dyma gyfle i eistedd i lawr gyda'r fferyllydd a thrafod yr holl feddyginiaethau rydych yn eu cymryd er mwyn eich helpu chi i gael y mwyaf o fudd ganddynt.		54.55%	42
3	Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau – mae'r gwasanaeth yma ar gyfer pobl ble mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad yn yr ysbyty i'w helpu hwy i ddeall y newidiadau a wnaed a sicrhau fod y presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir.		23.38%	18
4	Gwasanaeth adolygu defnydd cyfarpar - dyma gyfle i drafod cyfarpar megis y rheini ar gyfer stomata a cholostomïau gyda fferyllydd neu nyrs arbenigol i sicrhau fod eich cyfarpar yn gwneud beth rydych eu hangen i'w wneud.		11.69%	9
5	Atal cenhedlu brys - neu'r 'pilsen bore wedyn'		49.35%	38

18. Ydych chi'n ymwybodol eich bod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau canlynol fel rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai rydych yn ymwybodol ohonynt.			**Canran yr ymatebion**	**Cyfanswm ymatebion**
6	Cymorth i roi'r gorau i ysmygu		40.26%	31
7	Cynllun mân anhwylderau - gall fferyllwyr ddarparu cyngor a thriniaeth i chi am ddim ar gyfer mân anhwylderau ble nad oes raid i chi weld Meddyg Teulu.		63.64%	49
8	Amnewid nodwyddau a chwistrellau - dyma wasanaeth lleihau niwed a chamddefnydd ble mae fferyllwyr yn medru cyflenwi pecynnau chwistrellu dihaint a gwaredu cyfarpar wedi'i ddefnyddio		19.48%	15
9	Gweinyddiad meddyginiaethau dan oruchwyliad – mae'r gwasanaeth hwn i gynorthwyo pobl sy'n derbyn triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau		19.48%	15
10	Cyflenwad meddyginiaethau brys - mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi pobl i gael mynediad i gyflenwadau brys o'u meddyginiaeth drwy eu fferyllfa		32.47%	25
11	Nac ydw (ewch i gwestiwn 20)		7.79%	6

18. Ydych chi'n ymwybodol eich bod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau canlynol fel rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai rydych yn ymwybodol ohonynt.	Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
	Wedi ateb	77
	Heb ateb	0

19. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a restrwyd yng nghwestiwn 18?			Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Brechiadau ffliw (ar gyfer y rheini sydd mewn grwpiau dan risg)		40.58%	28
2	Gwasanaeth adolygu defnydd meddyginiaethau		26.09%	18
3	Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau		1.45%	1
4	Gwasanaeth adolygu defnydd cyfarpar		1.45%	1
5	Atal cenhedlu brys - neu'r 'pilsen bore wedyn'		5.80%	4
6	Cymorth i roi'r gorau i ysmygu		2.90%	2
7	Cynllun mân anhwylderau		20.29%	14
8	Amnewid nodwyddau a chwistrellau		1.45%	1
9	Gweinyddiad meddyginiaethau dan oruchwyliad		0.00%	0
10	Cyflenwad meddyginiaethau argyfwng		7.25%	5
11	Nac ydw		28.99%	20

19. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a restrwyd yng nghwestiwn 18?

	Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
	Wedi ateb	69
	Heb ateb	8

20. Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech ddweud wrthym am eich profiad o'ch fferyllfa leol?

		Canran yr ymatebion	Cyfanswm ymatebion
1	Cwestiwn agored	100.00%	38

1		Amherthnasol
2		Ceisiais ollwng hen chwistrell y des i o hyd iddi ar y stryd mewn sawl fferyllfa a dywedwyd wrthyf fod yn rhaid imi fynd i [ardal] (ond roeddwn ar droed). Yn y diwedd fe wnes i ei ollwng yn Barod.
3		[Y fferyllfa] yn [ardal] sydd â'r gwasanaeth cwsmeriaid gwaethaf rydw i ac eraill rwy'n eu hadnabod wedi'i brofi. Hoffwn i weld adolygiad o'r fferyllfa hon gan fy mod i'n teimlo bod diffygion mewn sawl maes.
4		Yn aml yn teimlo bod y staff dan bwysau gwaith. Rydw i wedi sylwi fy mod wedi derbyn cymysgedd o frandiau ar gyfer fy meddyginiaeth yn ddiweddar, h.y. 56 tabled o Meloxicam ar bresgripsiwn, 30 o'r brand rydw i'n ei dderbyn fel arfer a 26 o frand arall. Dw i ddim yn hoffi hyn gan fod brandiau'n amrywio rhywfaint.
5		Rydw i bellach yn defnyddio fferyllfa newydd yn [ardal], maen nhw'n wych, yn gyflym iawn, yn rhoi cyngor gwych ac yn rhoi gofal gwych i gleifion.
